Senedd Cymru

# **Beth fydd nesaf?**
# Materion o bwys i'r Chweched Senedd

Mai 2021



ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **library@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Beth fydd nesaf?
# Materion o bwys i'r Chweched Senedd

Mai 2021

Golygyddion: **Elfyn Henderson a Hannah Johnson**

Bwrdd golygyddol: **Andrew Minnis, Chloe Corbyn, Helen Jones, Owen Holzinger, Philippa Watkins, Rhun Davies, Robin Wilkinson, Siân Thomas a Tom Douch**

Cyfranwyr: **Alana MacAskill, Andrew Minnis, Amy Clifton, Chloe Corbyn, Christian Tipples, Ben Stokes, Francesca Howorth, Gareth Thomas, Gareth England, Gruffydd Owen, Hannah Johnson, Helen Jones, Joanne McCarthy, Joe Wilkes, Jonathan Baxter, Katy Orford, Lorna Scurlock, Lucy Morgan, Lucy Valsamidis, Martin Jennings, Megan Jones, Michael Dauncey, Nia Moss, Osian Bowyer, Owain Davies, Owen Holzinger, Paul Worthington, Phil Boshier, Philippa Watkins, Rhun Davies, Robin Wilkinson, Sam Jones, Sara Moran, Sarah Hatherley, Siân Hughes, Siân Thomas a Tom Douch**

# Cynnwys

**Croeso i'r Chweched Senedd ........ 6**

**Materion trawsbynciol ........ 8**

Pandemig COVID-19: beth yw'r sefyllfa bresennol? ........ 10

Ai dyma ddiweddglo'r gyfres hon o Brexit? ........ 15

Ydyn ni ar bwynt tyngedfennol o ran anghydraddoldeb? ........ 21

Y datblygiad digidol ........ 26

Sut all Cymru gael y cyfryngau sydd eu hangen arni? ........ 31

**Iechyd a gofal ........ 36**

Gofal cymdeithasol: system sydd ar fin torri? ........ 38

Cymru sy'n iach yn feddyliol ........ 44

Amseroedd aros ysbytai: mynydd i'w ddringo ........ 50

**Yr economi a busnes ........ 58**

Adfer yr economi ar ôl "yr her economaidd fwyaf o fewn cof" ........ 60

Cefnogi adferiad sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed ........ 67

Tlodi a chefnogi aelwydydd incwm isel ........ 71

**Cymunedau ........ 78**

Digartrefedd: o argyfwng i gyfle ........ 80

Rhoi'r 'cyhoedd' yn ôl mewn trafnidiaeth gyhoeddus ........ 86

Oes modd cyrraedd y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? ..... 94

**Addysg a sgiliau ..... 100**

Dychwelyd i'r ysgol: addysg yn ystod COVID-19 ..... 102

Sgiliau: y ffordd i ffyniant ..... 109

Rhoi diwygiadau mawr ym maes addysg ar waith ..... 115

**Yr amgylchedd ..... 124**

Newid hinsawdd: y llwybr at allyriadau sero ..... 126

Aer glân i Gymru ..... 131

Tirlun newydd ar gyfer ffermwyr a natur? ..... 138

**Cyllid cyhoeddus ..... 146**

O dan bwysau: sut mae gwasanaethau llywodraeth leol yn newid? ..... 148

Trethu yn y Chweched Senedd ..... 155

Cyllideb Cymru: edrych tua'r dyfodol ..... 160

**Tu hwnt i'r ffin ..... 166**

Cymru yn y DU ..... 168

Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd ..... 173

**Cyfeirlyfr o arbenigwyr ymchwil ..... 178**

# Croeso i'r Chweched Senedd, a chroeso hefyd i'r cyhoeddiad hwn a baratowyd yn arbennig gan dîm Ymchwil y Senedd

Rydym yn cyhoeddi'r ddogfen hon ar adeg ddigynsail. Rydym yng nghanol pandemig byd-eang, mae'r dirwedd gyfansoddiadol yn newid ac mae'r DU wedi gadael yr UE bellach, ac mae Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) ym mis Tachwedd yn ceisio tynnu ein sylw yn ôl at y gwaith o fynd i'r afael â'r bygythiadau a ddaw yn sgil newid hinsawdd.

Mewn sawl ffordd, mae'r Senedd hon ar gychwyn taith i diriogaeth hollol newydd, gyda phawb yn gofyn yr un cwestiwn: beth nesaf?

Bydd gofyn i Aelodau o'r Chweched Senedd wneud rhai penderfyniadau mawr iawn ynglŷn â dyfodol Cymru, gan gynnwys mynd i'r afael â rhestrau aros ysbytai, ansawdd aer, yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig, a diwygio addysg. Mae'n debygol y bydd themâu fel trawsnewid digidol, anghydraddoldeb, newid cyfansoddiadol a chyllid cyhoeddus hefyd yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Mae cael mynediad at waith ymchwil a dadansoddi annibynnol at ddibenion gwneud penderfyniadau gwybodus yn bwysicach nag erioed, yn enwedig mewn byd lle mae gwybodaeth yn hawdd i'w chael, ond hefyd yn destun anghydfod yn fwyfwy aml.

Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd yn wasanaeth ymchwil a gwybodaeth diduedd. Diben ein gwaith yw helpu'r holl Aelodau a'u staff i graffu ar ddeddfwriaeth, dwyn y Llywodraeth i gyfrif a chefnogi etholwyr. Rydym yn gwneud hyn drwy wasanaeth ymholiadau cyfrinachol sy'n agored i'r holl Aelodau, a thrwy'r cymorth a rown i bwyllgorau'r Senedd. Rydym hefyd yn cyhoeddi ystod eang o erthyglau ymchwil diduedd a hygyrch sydd wedi'u hanelu at yr Aelodau a'u staff, ac sydd ar gael i bawb ar ein gwefan.

Mae ein hymchwilwyr yn arbenigwyr polisi sy'n meddu ar gyfoeth o wybodaeth a phrofiad. At hynny, mae'r tîm yn cefnogi'r broses o gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd rhwng ymchwilwyr allanol a'r Senedd, gan weithio gydag academyddion a sefydliadau o Gymru a thu hwnt.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn fan cychwyn gwych i unrhyw un sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael â'r materion polisi cymdeithasol, economaidd a chyhoeddus sy'n ein

hwynebu heddiw. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yr ydym yn ei gyhoeddi drwy ddilyn ein cyfrif Twitter, sef @SeneddYmchwil, a thrwy fynd i'n gwefan, sef ymchwil.senedd.cymru

Ac o ran yr Aelodau newydd a'r Aelodau sy'n dychwelyd – edrychwn ymlaen at weithio gyda chi yn y Chweched Senedd.



Kathryn Potter
Pennaeth Ymchwil y Senedd

# Materion trawsbynciol

- Pandemig COVID-19: beth yw'r sefyllfa bresennol?
- Ai dyma ddiweddglo'r gyfres hon o Brexit?
- Ydyn ni ar bwynt tyngedfennol o ran anghydraddoldeb?
- Y datblygiad digidol
- Sut all Cymru gael y cyfryngau sydd eu hangen arni?


PRODUCTION
Dashboard
Monitoring
Problems
Group and tag
Tactical views
System
Configuration
External
01
STATUS
02
DIAGRAM
03
SETUP
Home / Dashboard
Automatic mode
DAILY TARGET
WEEKLY TARGET
MONTHLY TARGET
Power Realtime
419 W
Machine A
289 W
Machine B
105W
Machine C
15 W

# Pandemig COVID-19: beth yw'r sefyllfa bresennol?

## Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dysgu mwy am y feirws, sut mae'n lledaenu a pha driniaethau sy'n effeithiol. Rydym hefyd wedi datblygu brechlynnau. Ond, ble'r ydym ni ar y daith i orchfygu'r pandemig? A pha faterion allai fod ar y gorwel i'r Senedd newydd ac i Lywodraeth newydd Cymru?

***Lucy Morgan***

Am fwy na blwyddyn, mae hynt a helynt pandemig COVID-19 wedi dominyddu'r penawdau ledled y byd. Dyma un o heriau iechyd cyhoeddus mwyaf yr oes sydd ohoni, ac mae effeithiau ehangach y pandemig ar ein cymdeithas a'n heconomi yn eithriadol.

Ar 11 Mawrth 2020, disgrifiodd Sefydliad Iechyd y Byd COVID-19 fel pandemig am y tro cyntaf. Lai na phythefnos yn ddiweddarach, clywodd pawb yn y DU y neges fod yn rhaid iddynt aros gartref er mwyn amddiffyn y GIG ac achub bywydau. Cafodd y cyfyngiadau eu llacio dros yr haf, ond gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion eto ym misoedd y gaeaf, a daeth y rheolau ynghylch aros gartref yn ôl i rym.

Cyflwynodd pedair Llywodraeth y DU ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r feirws. Er bod y Llywodraethau yn dilyn yr un strategaeth yn fras, maent yn aml wedi rhoi gwahanol gamau ar waith ar wahanol adegau.

### Sefyllfa'r pandemig ar hyn o bryd

Newidiodd COVID-19 ein bywydau mewn ffyrdd a fyddai wedi bod yn annirnadwy ar ddechrau 2020. Mae'r pandemig wedi tarfu ar ein rhyddid, ein cynlluniau bywyd, a'n cyfleoedd am gyfnodau hir, a bydd y sefyllfa hon yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol mewn rhai achosion.

Mae'r cyfyngiadau wedi'u seilio, i raddau helaeth, ar **gyfreithiau**, sy'n cael eu hadolygu bob tair wythnos, ochr yn ochr â chanllawiau manwl.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **gynllun rheoli'r coronafeirws,** a oedd yn cynnwys pedair lefel rhybudd. Cafodd y cynllun ei **ddiweddaru** ym mis Mawrth yn sgil amrywiolyn mwy trosglwyddadwy o'r feirws, sef amrywiolyn Caint, ac effaith y broses o gyflwyno'r brechlyn.

Dros y misoedd diwethaf, mae Cymru wedi symud yn raddol o'r lefel rhybudd uchaf, sef lefel 4, i **lefel rhybudd 3**. Gwnaeth Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd, ddatganiad mwy manwl ynghylch y **llinell amser ar gyfer sut y bydd y cyfyngiadau yn cael eu llacio** hyd at ganol mis Mai.

Dechreuodd y broses o **gyflwyno brechlynnau ar gyfer COVID-19** ym mis Rhagfyr. Ers hynny (ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon), **mae mwy na** 1.6 miliwn o bobl wedi cael dos cyntaf o un o'r brechlynnau (sef 51% o boblogaeth Cymru), ac mae mwy na 550,000 wedi cael dau ddos (17% o'r boblogaeth). Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru **yn gobeithio** cynnig brechlyn i bob oedolyn erbyn diwedd mis Gorffennaf.

## Yr heriau uniongyrchol

Mae'r Senedd newydd a Llywodraeth newydd Cymru yn wynebu nifer o heriau uniongyrchol yn sgil y pandemig.

### Y rhaglen frechu

Am fwy na blwyddyn, mae pedair Llywodraeth y DU wedi bod mewn cylch o gyflwyno a llacio cyfyngiadau symud. Mae'r brechlynnau'n cael eu disgrifio fel dull o roi terfyn ar y cyfnodau clo hyn, ond a fydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd?

Er bod y rhaglen frechu yn symud yn ei blaen yn gyflym, mae problemau yn dal i fodoli.

Hyd yn hyn, mae **cyfran y bobl sydd wedi cael y brechlyn** ymhlith rhai grwpiau ethnig ac mewn rhai ardaloedd difreintiedig wedi bod yn is na'r cyfartaledd, gan ddilyn y patrymau a welwyd mewn rhaglenni brechu blaenorol. **Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mynegi pryderon** ynghylch yr anghydraddoldebau sylweddol sy'n bodoli o ran y sawl sy'n cael brechlynnau ar gyfer COVID-19. Y testun pryder mwyaf yw'r ffaith mai'r grwpiau sydd â'r niferoedd lleiaf o bobl sy'n cael y brechlyn yw'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf o farwolaeth yn sgil COVID-19.

Mae **ton arall o'r feirws yn debygol** yn sgil y ffaith nad yw nifer o bobl eto wedi'u diogelu rhag COVID-19, naill ai oherwydd nad ydynt wedi cael eu brechu neu oherwydd na fydd y brechlyn yn atal pob haint neu salwch. Mae hyn yn golygu y bydd y cymunedau hynny lle mae nifer y bobl sy'n cael eu brechu yn is yn wynebu perygl arbennig yn sgil cynnydd yn nhrosglwyddiad y feirws.

Mae **brechlynnau Pfizer ac AstraZeneca** yn dangos arwyddion cynnar eu bod yn lleihau'r risg o bobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. Mae cwmni AstraZeneca hefyd yn adrodd bod gan ei frechlyn y potensial i leihau trosglwyddiad asymptomatig y feirws 67%.

Serch hynny, mae **amrywiolion newydd COVID-19** yn dod i'r amlwg, ac **un o'r risgiau mwyaf** yw'r posibilrwydd y byddant yn fwy trosglwyddadwy neu'n gallu osgoi effeithiau'r brechlynnau. Mae grŵp arbenigol Llywodraeth y DU, sef y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE), **wedi rhybuddio pobl** am y bygythiad a berir i'r DU gan amrywiolion newydd, hyd yn oed os yw cyfran uchel o'r boblogaeth yn cael ei brechu.

Y gobaith yw y gellir addasu'r brechlynnau er mwyn mynd i'r afael ag amrywiolion. Mae'n bosibl y bydd **brechlyn atgyfnerthu** yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach yn y flwyddyn os oes angen gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd y problemau sy'n ymwneud â chyfran y bobl sy'n cael y brechlyn ymhlith rhai cymunedau yn fwy anodd i'w datrys.

Yn ogystal, pa rôl y gallai 'pasbortau brechlyn' ei chwarae yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r economi a'r gymdeithas ailagor? Mae yna faterion moesegol, materion cyfreithiol a materion o ran preifatrwydd, yn ogystal â phryderon hawliau dynol, y bydd angen eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw bolisi o'r fath.

## Cadw'r feirws dan reolaeth

Ar ddechrau 2021, cafodd nifer o senarios **eu modelu**, ac roedd yr holl ganlyniadau yn dynodi trydedd don o'r pandemig.

Mae Coleg Imperial Llundain wedi nodi, yn sgil materion yn ymwneud â chymhwystra a phetruster mewn perthynas â'r brechlyn, na fydd rhaglen frechu ar ei phen ei hun yn ddigonol i gadw'r epidemig dan reolaeth. Dywedodd y dylai'r cyfyngiadau gael eu codi'n raddol, gyda rhai ohonynt yn aros yn eu lle drwy gydol 2021.

Mae grŵp SAGE **o'r farn** ei bod yn haws cadw'r epidemig dan reolaeth pan fo nifer yr achosion yn isel, gan fod hyn yn caniatáu mwy o amser i ymateb i unrhyw gynnydd cyn bod systemau gofal iechyd yn cael eu gorlethu, ac yn caniatáu i systemau profi, olrhain ac ynysu weithredu'n fwy effeithiol.

Mae'r system a ddefnyddir yng Nghymru, sef system **Profi, Olrhain, Diogelu**, yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y broses o gadw'r feirws dan reolaeth. Mae'r system yn nodi pwy sydd â haint COVID-19, yn nodi gwybodaeth ynghylch eu cysylltiadau diweddar, ac yn gorfodi'r bobl dan sylw i hunan-ynysu er mwyn atal trosglwyddiad y feirws. Mae'r gyfundrefn brofi a gwaith genomeg dilynol hefyd yn helpu i nodi amrywiolion newydd a'u nodweddion.

**Cyhoeddodd Lloegr** a'r **Alban** linellau amser ar gyfer llacio eu cyfyngiadau yn gynnar yn 2021. Mater allweddol i Lywodraeth newydd Cymru fydd pwyso a mesur y cyngor gwyddonol ar gyfer ailagor yn araf ac yn ofalus yn erbyn pwysau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol amrywiol.

## Materion tymor hir a'r adferiad

Cyn bo hir, bydd sylw pawb yn troi at y mater o sut i ymdrin â'r pandemig yn y tymor hwy a sut i reoli ei effaith.

Mae rhai yn dadlau o blaid dull 'sero COVID', sef dull o ddileu'r feirws, yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd yn Seland Newydd, **er mwyn torri'r cylch o gyfnodau clo** sydd wedi bod ar waith. Fodd bynnag **nid yw pawb yn credu** ei bod yn bosibl cyflawni hyn, o gofio y bydd yn rhaid i wledydd agor eu ffiniau ar ryw adeg. Mae eraill yn **arddel** y nod o imiwnedd torfol yn sgil y niwed sy'n deillio o gyfnodau clo. Fodd bynnag, mae'r trothwy ar gyfer cyflawni hyn **yn anhysbys** ar hyn o bryd ac yn debygol o fod yn uchel iawn.

Mae'r pandemig wedi sbarduno arloesi ym maes technoleg ddigidol, ac wedi arwain at ail-gyflunio sut yr ydym yn gweithio ac yn dysgu. Fodd bynnag, mae'r GIG yn wynebu'r ôl-groniad gwaethaf o achosion ar gofnod, ac mae pryderon ynghylch yr effaith y mae gohirio triniaethau yn ei chael ar lesiant cleifion.

Mae llawer o blant wedi profi blwyddyn o darfu ar eu haddysg, ac mae'r bwlch cyrhaeddiad addysgol wedi tyfu. Mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur ar rhai pobl, ac mae anghydraddoldebau a oedd yn bodoli eisoes wedi gwaethygu. Yn y cyfamser, mae ymatebion pedair Llywodraeth y DU o ran eu hymdrechion i reoli'r feirws wedi taflu goleuni ar ddatganoli ledled y DU, gyda rheolau gwahanol ar waith yn y pedair cenedl.

Er ein bod ar drothwy Senedd newydd, mae'r feirws yn parhau i fyw yn ein plith. Rydym yn wynebu'r un heriau â'r rhai sydd wedi effeithio arnom dros y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â chyfres o heriau newydd. Serch hynny, mae cyfle i edrych tuag at y gorwel ac i lunio dyfodol Cymru ar ôl y pandemig.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Cynllun rheoli'r coronafeirws: lefelau rhybudd diwygiedig yng Nghymru** (Mawrth 2021)
- Llywodraeth Cymru, **Diweddariad strategaeth brechu COVID-19** (Mawrth 2021)
- Llywodraeth y DU, **Tystiolaeth wyddonol a gafodd ei hystyried gan y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau** (SAGE)
- Llywodraeth Cymru, **Cyngor ar y coronafeirws gan y Gell Cyngor Technegol** (TAC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Dangosfwrdd data Covid-19**

# Ai dyma ddiweddglo'r gyfres hon o Brexit?

I lawer o bobl, roedd y cyhoeddiad ar Noswyl Nadolig 2020 fod y DU a'r UE wedi taro cytundeb yn cau pen y mwdwl ar ddrama hirfaith y negodiadau Brexit. Mewn gwirionedd, mae'r cytundeb ond yn amlinelliad bras o'r bennod nesaf yn y ddrama hon, sef y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Bydd hynt a helynt y berthynas hon, o ran ei goblygiadau ymarferol, yn rhan allweddol o stori'r Chweched Senedd.

***Nia Moss, Sara Moran, Rhun Davies a Joe Wilkes***

Ar yr olwg gyntaf, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn gytundeb masnach rydd fel unrhyw gytundeb arall o'i fath. Ac eto, mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n cynnwys llawer o feysydd nad ydynt, fel rheol, yn cael eu cynnwys mewn cytundebau masnach, fel iechyd a nawdd cymdeithasol. Mae telerau'r cytundeb yn hir ac yn gymhleth ac yn rhai sy'n cydblethu. Mae mwyafrif ei ddarpariaethau yn effeithio ar feysydd sy'n gorwedd o fewn cyfrifoldebau'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys pysgodfeydd ac yswiriant gofal iechyd.

Nid oes eglurder eto ynglŷn â llawer o'r manylion ynghylch sut y bydd y cytundeb yn gweithio'n ymarferol. Mae busnesau a dinasyddion Cymru yn parhau i wynebu ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae'r cytundeb yn ei olygu iddyn nhw.

Yn ystod y Chweched Senedd, mae'n bosibl y byddwn yn gweld bod y ddrama hon ymhell o fod ar ben.


## Beth sydd wedi cael ei gytuno a beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Mae'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn gosod y sylfaen ar gyfer perthynas newydd y DU a'r UE. Mae'n dilyn y **Cytundeb Ymadael**, sy'n pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ddigynsail gan ei fod yn ailddiffinio'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a hynny mewn modd sy'n cynyddu'r pellter rhyngddynt yn hytrach na'u dwyn ynghyd.

Er bod y cytundeb yn ymwneud â llawer o feysydd lle mae'r DU a'r UE yn cydweithredu, nid yw rhai o'r trefniadau pwysig eto wedi cael eu cadarnhau.

**Meysydd y mae'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE yn berthnasol iddynt**




Ffynhonnell: **Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE**

Bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywio sawl agwedd ar fywyd yng Nghymru, fel yr amgylchedd busnes a masnach, pysgodfeydd, iechyd a theithio.

## Busnes a masnach

Mae'r modd y mae'r DU yn masnachu â'r UE wedi newid yn sylfaenol. Fel rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'r DU a'r UE wedi cytuno na fydd tariffau na chwotâu yn cael eu cymhwyso i fasnach mewn nwyddau – ar yr amod bod masnachwyr yn cydymffurfio â'r **rheolau tarddiad.** Fodd bynnag, mae yna **rwystrau di-dariff** newydd sydd wedi creu costau uwch i fusnesau. Mae rhai sectorau, **fel cynhyrchwyr pysgod cregyn,** hefyd wedi methu â gwerthu eu cynnyrch i'r UE yn sgil ei rheolau ar fasnachu â thrydydd gwledydd.

Cyflwynodd yr UE reolaethau ffiniau llawn mewn perthynas â nwyddau o Brydain Fawr ar 1 Ionawr. Yn y cyfamser, bydd y DU yn cyflwyno ei rheolaethau ffiniau fesul cam tan fis Mawrth 2022. Bydd angen adeiladu seilwaith newydd ar y ffin yng Nghymru, a bydd gan Lywodraeth newydd Cymru rai cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosesau ar y ffin, megis gwiriadau ar anifeiliaid.

Mae Llywodraeth flaenorol Cymru wedi dweud: "Ni fydd union effaith y TCA yn glir am gyfnod mewn sawl maes". Bydd angen i'r Chweched Senedd fonitro'n ofalus yr effaith ar fusnesau Cymru sy'n masnachu â'r UE, yn ogystal â chraffu ar sut mae Llywodraeth newydd Cymru yn ymgymryd â'i chyfrifoldebau.

## Yr amgylchedd a physgodfeydd

Mae cydweithredu amgylcheddol wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu mewn sawl ffordd. Ar y naill law, mae'n rhan o'r 'cae chwarae gwastad', fel y'i gelwir, ar gyfer sicrhau cystadleuaeth deg rhwng y DU a'r UE, a sicrhau nad oes modd gostwng safonau heb ddioddef canlyniadau. Ar y llaw arall, mae'r bartneriaeth gyfan yn seiliedig ar ymrwymiad i fynd i'r afael â newid hinsawdd, sy'n elfen hanfodol o'r cytundeb hwn a phob cytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Roedd y trefniadau ar gyfer pysgodfeydd yn faen tramgwydd yn y trafodaethau, ond fe drawyd cytundeb yn y pendraw. Mae un o'r trefniadau newydd yn darparu y bydd 25% o gwota'r UE yn nyfroedd y DU yn cael ei drosglwyddo i'r DU dros gyfnod o bum mlynedd a hanner. Mae sawl rhan arall o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer pysgodfeydd. Er enghraifft, os yw'r DU neu'r UE yn cyfyngu ar y mynediad a ganiateir i'w dyfroedd, gall y llall daro'r pwyth yn ôl drwy'r defnydd o dariffau. Neu, os bydd un ochr yn penderfynu rhoi terfyn ar y trefniadau ar gyfer pysgodfeydd, bydd y trefniadau ar gyfer hedfan a chludiant ar y ffyrdd hefyd yn dod i ben.

## Iechyd

Mae gwahanol fathau o gydweithredu rhwng y DU a'r UE ym maes iechyd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Er enghraifft, mae dyletswydd gyffredinol i gydweithredu ar fygythiadau trawsffiniol difrifol ym maes iechyd. Yn ogystal, mae darpariaethau penodol sy'n sicrhau bod Cardiau Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn parhau i fod yn ddilys tan iddynt ddod i ben, ynghyd â darpariaethau ar hawliau dinasyddion y DU sy'n teithio yn yr UE i gael mynediad at rai mathau o ofal iechyd, ac i'r gwrthwyneb.

## Teithio

Mae'r rheolau ar deithio o Gymru i wledydd yr UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein at ddibenion gwyliau, gwaith, astudio a phreswylio **wedi newid** o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r newidiadau yn cynnwys gofynion o ran fisâu a hawlenni (yn dibynnu ar hyd yr arhosiad, a'r wlad y mae'r person dan sylw yn ymweld â hi), gwiriadau ychwanegol ar deithwyr a rheolau newydd ar gyfer gyrru, teithio gydag anifeiliaid anwes, trawsrwydweithio symudol, a'r drefn iawndal os yw rhywbeth yn tarfu ar daith.

## Ar y gorwel

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys nifer o derfynau amser sy'n ymwneud â phenderfyniadau na chawsant eu gwneud ym mis Rhagfyr 2020, gan gynnwys sefydlu cyrff newydd i roi'r cytundeb ar waith ac i adolygu rhai o'i ddarpariaethau. Mae rhai o'r terfynau amser pwysig hyn yn digwydd yn ystod tymor y Senedd hon.

Mae'r cytundeb yn sefydlu 24 o bwyllgorau a gweithgorau rhwng y DU a'r UE. Byddant yn chwarae rhan strategol hanfodol yn y broses o oruchwylio a gweithredu'r cytundeb, yn ogystal â'r broses o bennu ei gyfeiriad a'i gynnwys yn y dyfodol. Nid oes cytundeb eto ynghylch eu haelodaeth, gan gynnwys y rôl y bydd Llywodraethau datganoledig yn ei chwarae. Bydd Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE hefyd yn cael ei sefydlu. Mae trafodaethau **ynghylch ei ffurf** a'r modd y bydd yn ymgysylltu â'r deddfwrfeydd datganoledig yn mynd rhagddynt.

Mae angen cynnal adolygiad ar y cyd o'r cytundebau sy'n bodoli rhwng y DU a'r UE bob pum mlynedd. Mae'r cytundeb hefyd yn caniatáu i'r DU neu'r UE alw am adolygiad o ddarpariaethau masnach y cytundeb ar ôl cyfnod o bedair blynedd, os yw'r naill ochr neu'r llall o'r farn nad yw'r ymrwymiadau ynghylch cystadleuaeth deg yn cael eu hanrhydeddu. Gallai hyn arwain at newidiadau pellach yn y berthynas fasnach. Byddai modd cynnwys rhannau eraill o'r cytundeb yn yr adolygiad hwn hefyd.

Mae'r cytundeb yn gymhleth, ac mae llawer o ddarpariaethau ynddo nad ydynt eto wedi cael eu profi ar lawr gwlad. Mae'r broses o gytuno ar sut y dylid dehongli'r testun, a sut y dylai'r cytundeb weithredu'n ymarferol, yn debygol o gymryd cryn amser. Er enghraifft, mae'r cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff goruchwylio'r DU a'r UE ym maes yr amgylchedd gynnal cyfarfodydd rheolaidd a chydweithio at ddibenion gorfodi ymrwymiadau amgylcheddol y cytundeb mewn modd effeithiol. Hyd yn hyn, nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch ffurf y cyfarfodydd hyn, pwy fydd yn cymryd rhan a pha rôl fydd gan reoleiddwyr datganoledig.

Yn ogystal, bydd trafodaethau'n parhau mewn perthynas â **rhai meysydd** sy'n bwysig i Gymru ond lle na chafwyd cytundeb yn eu cylch. Mae'r rhain yn cynnwys enwau gwarchodedig ar gyfer bwyd a diod o Gymru, rhaglenni cyllido'r UE, a'r mater o gyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol (MRPQ).

## "Llawer mwy i'w wneud"

Mae rhestr hir o dasgau ar gyfer y Chweched Senedd mewn perthynas â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a gwaith ymgysylltu'r Senedd ag Ewrop yn y dyfodol. Fel y dywedodd **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Bumed Senedd , mae llawer mwy i'w wneud o ran asesu'r goblygiadau i Gymru.

Mae'r cytundeb yn newydd a heb ei brofi. Nid yw'r manylion ynghylch y modd y caiff ei weithredu'n ymarferol wedi cael eu cytuno. Mae'r cytundeb yn un deinamig a fydd yn esblygu ac yn cael ei adolygu yn ystod y Senedd hon. Mae cydberthnasau newydd yn ymsefydlu, a bydd angen i'r Senedd a Llywodraeth Cymru ddiffinio'r cydberthnasau hyn a'u rôl newydd ynddynt. Bydd effaith y berthynas newydd hon ar gyfansoddiad y DU, a'r effaith ar sefyllfa Cymru yn y byd, yn dod i'r amlwg yn ystod y Chweched Senedd.

Er mai mis Rhagfyr 2020 oedd diweddglo cyfres 1 o ddrama Brexit, dim ond megis dechrau y mae cyfres 2, sef 'Brexit: y berthynas newydd.'

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth y DU, **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** (2020)
- Llywodraeth y DU, **gov.uk/transition**, sef prif dudalen we Llywodraeth y DU ar gyfer rhoi gwybodaeth a chanllawiau i fusnesau a dinasyddion yn ymwneud â'r rheolau newydd sy'n berthnasol i faterion fel teithio a chynnal busnes gyda'r UE.
- Llywodraeth Cymru, **Y berthynas newydd â'r UE: beth mae'n ei olygu i Gymru?** (2021)
- **Paratoi Cymru**, sef gwefan Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y berthynas newydd ac unrhyw newidiadau.
- **Cysylltiadau â'r Deyrnas Unedig**, sef gwefan Comisiwn yr UE sy'n darparu gwybodaeth am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r trefniadau newydd.

# Ydyn ni ar bwynt tyngedfennol o ran anghydraddoldeb?

Roedd y dirwedd anghydraddoldeb a amlygwyd gan y pandemig yn dilyn amlinellau'r anfantais bresennol i raddau helaeth. Ond a fydd dulliau blaenorol i leihau anghydraddoldeb yn ddigon i wrthsefyll yr anghydbwyseddau amlwg hyn, neu a fydd angen strategaethau newydd? A pha rôl y mae data - neu ddiffyg data - yn ei chwarae?

***Hannah Johnson***

Caiff iaith cydraddoldeb ei defnyddio ar draws y sbectrwm gwleidyddol, o 'symudedd cymdeithasol' i 'lefelu i fyny', a 'thegwch rhwng cenedlaethau' i 'gyfiawnder cymdeithasol'. Wrth wraidd hyn mae'r syniad bod rhai pobl, grwpiau, neu ardaloedd o dan fantais anghymesur neu annheg - boed yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol neu'n wleidyddol - oherwydd systemau a strwythurau sy'n galluogi hynny.

Mae'r pandemig wedi dangos yn greulon yr hyn y mae'r anghydraddoldebau hyn yn ei olygu i fywydau pobl ar raddfa na chafodd ei gweld o'r blaen. Mae ein siawns o farw, mynd yn ddifrifol wael, colli swyddi, wynebu camdriniaeth, neu fod ar ei hôl hi mewn addysg wedi cael ei bennu'n rhannol gan bwy ydym ni, ein sefyllfa ariannol, ein hiechyd, a ble rydyn ni'n byw.

Mae'r ffactorau hyn, sy'n cydblethu â ffactorau eraill fel tai o safon ddigonol, y gallu i weithio gartref, a mynediad at ofal plant, car, lle y tu allan, a rhyngrwyd dibynadwy, yn gweithredu i gynyddu neu leihau anfantais.

Ac mae'n ein harwain i ofyn cwestiwn sylfaenol: a yw hyn yn deg?

Os nad ydyw, pa fath o ymyriadau polisi a newidiadau systemig sydd eu hangen i gau'r bylchau?


## Pam mae anghydraddoldeb yn broblem?

> We often hear that a rising tide of economic growth lifts all boats. But in reality, a rising tide of inequality sinks all boats. [...] From the exercise of global power to racism, gender discrimination and income disparities, inequality threatens our wellbeing and our future.
>
> **-Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, António Guterres**

Mae anghydraddoldeb yn broblem gynyddol i ni gyd. Amcangyfrifir ei fod yn **costio** £39 biliwn y flwyddyn i'r DU, gan fod rheoli'r canlyniadau, megis **digartrefedd**, fel arfer yn fwy costus na'u hatal. Ac er y cafodd ei **amcangyfrif** yn ddiweddar bod cam-drin domestig yn costio £66 biliwn y flwyddyn i'r DU, **gallai** sicrhau cydraddoldeb economaidd rhwng y rhywiau roi hwb o bron i £14 biliwn i economi Cymru.

Gallai anghydraddoldeb hefyd arafu'r adferiad ar ôl y pandemig. Mae'r **niferoedd is** sydd wedi dewis cael eu brechu ymhlith rhai grwpiau ethnig a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn peri pryder arbennig. Mae camwybodaeth wedi'i thargedu, a diffyg ymddiriedaeth hirdymor mewn awdurdodau cyhoeddus yn **gysylltiedig** â hiliaeth a gwahaniaethu strwythurol a sefydliadol, yn achosion tebygol y bydd angen mwy nag ymgyrch ymgysylltu â'r cyhoedd i'w datrys.

### Cyfraddau brechu yn ôl cwintel MALlC, grŵp ethnig ac oedran




Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Wales COVID-19 Vaccination Enhanced Surveillance Report 2**

## Triniaeth gyfartal neu ganlyniadau cyfartal?

Gellir lleihau anghydraddoldebau naill ai drwy bolisïau cyffredinol sy'n trin pawb yr un fath, neu drwy eu targedu at y rhai sydd eu hangen fwyaf.

Mae cefnogwyr syniadau fel incwm sylfaenol cyffredinol (UBI) yn **dadlau** bod y pandemig wedi dangos y gellir dod o hyd i adnoddau ar gyfer amddiffyniad cymdeithasol cynhwysfawr i bawb. Mae eraill yn dadlau bod 'gweithredu cadarnhaol', sy'n ffafrio rhai grwpiau, yn helpu i gydraddoli canlyniadau drwy fynd i'r afael ag anfantais hanesyddol. Mae 'cyffredinoliaeth gymesur' **rhywle yn y canol**, lle mae gwasanaethau ar gael i bawb ond gydag ymdrech wedi'i thargedu lle mae ei hangen fwyaf.

Yn ystod y pandemig, targedwyd rhai polisïau at bobl sydd â risg uwch ar sail eu gwendidau. Mae'r rhain yn cynnwys y rhaglen 'gwarchod', a oedd yn cydnabod amddifadedd ac ethnigrwydd fel ffactorau risg yn Lloegr, a'r adnodd asesu risg **ar gyfer y gweithlu** yng Nghymru, a oedd yn defnyddio demograffeg a chyflyrau iechyd i greu 'sgôr risg' ac yn awgrymu mesurau lliniaru.

Lansiodd Llywodraeth flaenorol Cymru hefyd **ymgyrch budd-daliadau** wedi'i hanelu at y rhai y mae angen cymorth ariannol arnynt fwyaf, a **llinell gymorth** yn benodol ar gyfer pobl o grwpiau ethnig y mae'r feirws yn effeithio'n anghymesur arnynt.

## Beth nad ydym yn ei wybod?

Nid yw diffyg tystiolaeth yn dystiolaeth o ddiffyg. Os yw ymyriadau'n cael eu targedu at y rhai a gollodd fwyaf yn sgil yr argyfwng, mae'n bwysig nad oes unrhyw un yn cael ei adael heb ei gyfrif.

Yn 2020 **mynegodd** un o bwyllgorau'r Senedd bryderon ynghylch ansawdd gwael y data cydraddoldeb sydd ar gael yng Nghymru. Cafodd hyn ei **adleisio** gan Bwyllgor Menywod a Chydraddoldeb Tŷ'r Cyffredin, a oedd yn galw'n benodol am gasglu data diswyddo wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, ethnigrwydd a nodweddion eraill.

Rydym hefyd yn gwybod, lle mae'r ffactorau hyn yn croestorri, bod anghydraddoldebau'n cael eu chwyddo. Cafodd y cyfyngiadau symud **effaith arbennig o fawr** ar rai grwpiau, pan oedd 39% o'r holl weithwyr benywaidd o dan 25 oed, a 44% o weithwyr ethnigrwydd Bangladeshaidd, yn gweithio mewn sectorau a oedd wedi'u cau yng Nghymru.

Mae troshaenu'r data hyn yn caniatáu dealltwriaeth fwy cynnil o risg, pŵer, cyfoeth, diogelwch, angen a phrofiad, yn hytrach na thrin grwpiau demograffig eang yr un peth. Pwysleisiodd Llywodraeth flaenorol Cymru dro ar ôl tro ei hagwedd groestoriadol tuag at gydraddoldeb. Ond mae diffyg data croestoriadol wedi'u dadgyfuno yn rhwystro'r gallu i ddarparu dadansoddiad ystyrlon.

Mae'r broses o gasglu data personol gan awdurdodau cyhoeddus yn un sensitif, ac mae gofyn am **ymddiriedaeth**. At hynny, gall targedu polisïau at rai grwpiau gael ei ystyried fel rhywbeth symbolaidd neu hyd yn oed yn fater o wahaniaethu. Gall y materion hyn gyflwyno heriau o ran dylunio polisi yn y blynyddoedd i ddod.

## A yw'r adnoddau'n ddigon da?

Roedd lleihau anghydraddoldebau wrth wraidd **cynllunio ar gyfer yr adferiad** ar ôl COVID-19 gan Lywodraeth flaenorol Cymru. Roedd hefyd yn gosod uchelgeisiau beiddgar i ddod yn **'llywodraeth ffeministaidd'**, ac '**arweinydd byd eang dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau**'.

Ym mis Mawrth 2021, cychwynnwyd y **Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol** yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r mwyafrif o awdurdodau cyhoeddus ystyried sut y gallant wella canlyniadau i bobl ar incwm isel wrth wneud penderfyniadau strategol.

Bydd yn eistedd ochr yn ochr â **dyletswyddau cydraddoldeb presennol y sector cyhoeddus**, sy'n gorfodi awdurdodau cyhoeddus Cymru i wneud pethau fel cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, datblygu cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb, a chasglu data cydraddoldeb. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau ar gydraddoldeb a chydlyniant.

Ond mae'n anodd mesur effeithiolrwydd y dyletswyddau hyn. Os nad yw anghydraddoldebau mewn maes polisi penodol yn lleihau, a yw'n dangos nad yw'r ddyletswydd yn cael ei chyflawni, neu nad yw'n gweithio? Beth os nad yw'r ysgogiadau newid wedi'u datganoli? Ac os yw asesiad o effaith yn datgelu effaith annheg, a oes dyletswydd i weithredu arni? A yw'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn casglu data o ansawdd?

Gydag anghydraddoldebau sydd mor ddiamwys ac eang yn chwarae rhan amlwg yn y ddadl wleidyddol, bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a fydd dulliau blaenorol yn gweithio yn y byd ar ôl y pandemig.

Bydd y Chweched Senedd hefyd yn hanfodol wrth herio Llywodraeth newydd Cymru i ddangos sut mae'n trosi uchelgeisiau mawr ar gydraddoldeb yn newid diriaethol.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru Cynllun, **Cydraddoldeb Strategol 2020-24** (2020)
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, **Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Asesiadau o effaith coronafeirws**

# Y datblygiad digidol

Rhoddodd y pandemig derfyn ar fusnes arferol, gan wthio gwasanaethau cyhoeddus, cwmnïau ac unigolion i fabwysiadu ymddygiadau newydd yn gyflym. Rydym wedi gweithio gartref, siopa ar-lein, dysgu a chymdeithasu o bell.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi datblygu'r agenda ddigidol a chyflymu'r broses o arloesi. Ond beth yw rôl llunwyr polisi yn y byd cynyddol rithwir hwn? A sut y gellir lleihau anghydraddoldebau a achosir gan allgáu digidol?

***Lorna Scurlock***

Mae'r byd yn newid. Yn 2016 cafwyd **datganiad**:

> We stand on the brink of a technological revolution that will fundamentally alter the way we live, work, and relate to one another.

Ond mae'r **tueddiadau technoleg** a yrrodd y **pedwerydd chwyldro diwydiannol**, sydd hefyd yn cael ei alw yn 'chwyldro deallusrwydd' neu 'ddiwydiant 4.0' wedi **cyflymu** ymhellach yn sgil y pandemig. **Dywedodd un arweinydd technoleg** ei fod wedi gweld gwerth dwy flynedd o drawsnewid digidol mewn dau fis.

## Pennau yn y cwmwl

Mae storio a chael gafael ar ddata a rhaglenni dros y rhyngrwyd, sy'n cael ei alw yn '**gyfrifiadura cwmwl'**, wedi bod **yn hanfodol i'n helpu ni i addasu**.

Defnyddiwyd cyfrifiadura cwmwl i **gefnogi ymateb iechyd y cyhoedd** trwy **apiau olrhain cysylltiadau** a **gofal iechyd rhithwir**, ac roedd yn galluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Mae'r defnydd o **offer cydweithio tîm** ar-lein wedi cynyddu'n helaeth, gyda **Microsoft Teams yn gweld cynnydd o 40%** yn y galw yn ystod y cyfnod clo. Roedd rhaglenni cwmwl yn galluogi **addysgwyr i gyflwyno dysgu ar-lein**, ac fe welwyd sgil-effeithiau **cadarnhaol ar yr amgylchedd** hefyd.

Roedd hyblygrwydd cyfrifiadura cwmwl o gymorth i siapio ein bywydau a chyflymodd y broses o'i fabwysiadu yn 2020, gyda **rhagolygon o dwf pellach yn 2021**. Ond yn sgil hyn daw **mwy o risgiau o ran diogelwch data**, a fydd yn gofyn am ddull rhagweithiol i gadw amgylcheddau cwmwl yn ddiogel. A pha sgiliau fydd eu hangen ar y gweithlu i addasu i gyfrifiadura cwmwl yn y tymor hir?

## Arferion digidol newydd

Er bod manwerthwyr y stryd fawr wedi dioddef, cododd **gwerthiannau ar y rhyngrwyd fel canran o gyfanswm y gwerthiannau manwerthu** yn y DU o 22% ar ddechrau mis Mawrth 2020, i dros 36% ym mis Ionawr 2021. Bu **cynnydd o 84% yn elw net Amazon** am y flwyddyn. Mae'r **symudiad hwn i drafodion digidol hefyd wedi hybu twf** mewn swyddi dosbarthu a chludo a swyddi mewn warysau.

Mae'n amhosib peidio â sôn am y cynnydd mewn meddalwedd fideogynadledda. Berf oedd 'Zoom' yn 2019, ond mae bellach yn enw cwmni cyfarwydd. Fe'i disgrifir fel **stori lwyddiant y pandemig**, a dywedir i **fwy na 300 miliwn o bobl gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithwir bob dydd**. Mae fideogynadledda wedi galluogi parhad diogel llu o weithgareddau, heb sôn am waith y Senedd, sef y **senedd gyntaf** yn y DU i fynd yn rhithwir.

## 'Yr arbrawf gweithio gartref gwych'

Er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r feirws, a gyda chymorth cyfrifiadura cwmwl, roedd y rhai a oedd yn gallu gweithio gartref yn gwneud hynny. Arweiniodd hyn at ail-lunio **diwylliant cwmnïoedd**, ac ychydig o **ryngweithio diddorol ar-lein** . **Roedd yn rhaid i hyd yn oed sêr Hollywood addasu**.



Canfu **gwaith ymchwil** diweddar fod nifer y gweithwyr cartref yng Nghymru wedi cynyddu o 3.8% i 36.8% rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020.  Canfu hefyd fod 93.3% o weithwyr eisiau parhau i weithio gartref, sy'n awgrymu'r canlynol:

> ... the great homeworking experiment will become an entrenched and widely accepted feature of work even when social distancing restrictions are fully lifted.

Gosododd Llywodraeth flaenorol Cymru **uchelgais tymor hir i 30%** o weithlu Cymru weithio o bell yn rheolaidd, ac mae rhai **cyflogwyr** eisoes wedi ymrwymo i fwy o weithio o gartref a llai o ofod swyddfa. Mae eraill yn **anelu** i weithluoedd fod yn 'hyper-gydweithredol' pan fyddant yn y swyddfa, ac yn 'hyper-gynhyrchiol' wrth weithio gartref.

Canfu **adroddiad gan McKinsey** y canlynol ynghylch parhau i weithio o bell a chynnal cyfarfodydd rhithwir:

> … this could prompt a large change in the geography of work, as individuals and companies shift out of large cities into suburbs and small cities.

**Canfu dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol** mai gweithwyr mewn swyddi sy'n talu'n uwch yw'r rhai a allai addasu i weithio gartref. Canfu astudiaeth arall **fod gweithwyr sydd ar gyflogai is yn fwy tebygol o golli eu swyddi** o ganlyniad i'r pandemig, gan **waethygu'r anghydraddoldeb presennol** yn y farchnad lafur o bosibl.

Beth fydd effaith mwy o weithio gartref ar ein hiechyd a'n ffyrdd o fyw? Ac a fydd manwerthu trefol, lletygarwch, a thrafnidiaeth gyhoeddus byth yn dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig?

## Chwyldro newydd

Mae'r 'chwyldro deallusrwydd' yn golygu y gall AI, roboteg a dulliau awtomateiddio gyflawni ystod gynyddol o dasgau deallusol, sy'n adlewyrchu sut y gwnaeth y chwyldro diwydiannol cyntaf yrru awtomateiddio tasgau corfforol ailadroddus.

Roedd pwyllgor economi'r Senedd flaenorol **o'r farn** ei bod yn 'hanfodol' y dylai Cymru fod yn "darparu technolegau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â'u defnyddio". Neges allweddol adolygiad 2019 Llywodraeth ddiwethaf Cymru o **arloesi digidol a dyfodol gwaith** oedd:

> … y bydd technolegau digidol yn ystod y degawd nesaf yn arwain at ddadleoli a chreu swyddi, ond yr effaith fwyaf fydd ar ein profiad o weithio.

Mae cyfran y swyddi sydd â risg uchel o awtomateiddio erbyn dechrau'r 2030au **yn amrywio o 26% i dros 36%** ar draws rhanbarthau Cymru. Canfu astudiaeth yn 2017 i **le y bydd awtomateiddio yn taro galetaf** :

> ... the unequal geographical distribution of the impact of automation deserves immediate attention by Government, particularly as it is regions that have previously suffered the effects of industrial decline that are likely to be worst hit.

Felly sut y gall llunwyr polisi sicrhau nad yw arloesi digidol yn creu nac yn gwaethygu anghydraddoldebau rhwng pobl a rhanbarthau? A sut y gellir arfogi sectorau fel gweithgynhyrchu i fanteisio ar y cyfleoedd newydd sy'n gysylltiedig â newid technolegol?

## Yr angen am gyflymder

Mae angen i fusnesau ac unigolion sydd â gofynion digidol cynyddol gael eu cefnogi gan seilwaith digidol dibynadwy.

**Amcangyfrifir** bod gan **94% o adeiladau yng Nghymru** fynediad at fand eang cyflym iawn. Ond awgrymodd **astudiaeth** gan Lywodraeth Cymru yn 2019 nad oes gan tua 79,000 o adeiladau hynny, ac nad oes gobaith o gysylltiad yn y tair blynedd nesaf.

Mae Ofcom yn **amcangyfrif** na all tua 18,000 (1.2%) o adeiladau yng Nghymru gael mynediad at "fand eang digonol".

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol adroddiad ar **y seilwaith cyfathrebu digidol**. Ymhlith pethau eraill, daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad:

> Credwn fod gwneuthurwyr polisi wedi rhoi gormod o sylw i hyrwyddo technoleg ffeibr i'r cartref yn y DU a dim digon ar wella darpariaeth band eang symudol.

## Anghydraddoldebau digidol newydd

Er ei fod yn rhan annatod o'r gymdeithas fodern, nid yw hygyrchedd rhyngrwyd yn gyfartal, ac **mae 10% o bobl yn dal ddim i fod ar-lein** nac yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd. Eto, nid seilwaith lleol yw'r unig rwystr i gynhwysiant digidol, ac **mae heriau eraill yn cynnwys** incwm isel ac anallu i gael contract data.

Mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n **ymchwilio i'r rhaniad digidol** yn dangos, er bod sgiliau digidol yn gynyddol bwysig, mae pobl yn parhau i fod wedi'u hallgáu. **Disgrifiwyd** cynhwysiant digidol yn "fater pwysig o ran cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol".

Mae **strategaeth cynhwysiant digidol** Llywodraeth flaenorol Cymru yn egluro bod y pandemig wedi:

> … tynnu sylw at yr anghydraddoldebau cynyddol a achosir gan allgáu digidol o ran cael gafael ar wasanaethau, cael gwybodaeth hanfodol, a phrynu nwyddau ar-lein. Mae'r ffaith bod mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus yn symud i lwyfannau ar-lein yn peri risg y bydd y bwlch rhwng y rhai sydd wedi'u cynnwys a'u hallgáu yn ddigidol yn cynyddu ymhellach.

Dywed **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru** fod angen i strategaeth cynhwysiant digidol Cymru gael ei "theilwra i'r heriau y mae gwahanol grwpiau'n eu hwynebu", gan gydnabod y bydd angen mynediad at wasanaethau personol o ansawdd uchel ar rai o hyd.

Cyhoeddwyd **Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Cymru** a'i **chynllun cyflawni** yn ddiweddar, gan nodi gweledigaeth ac uchelgais Llywodraeth ddiwethaf Cymru ar gyfer dull digidol cydgysylltiedig. Ond mae'n **amlwg**:

> … nid yw 'digidol' yn ymwneud yn unig â chyfrifiaduron – mae'n ymwneud â phobl.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Ddigidol i Gymru** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Arloesi digidol a dyfodol gwaith** (2019)
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Ail-adeiladu yn well? Blaenoriaethau ar gyfer Ail-adeiladu ar ôl Pandemig Coronafeirws** (2020)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Exploring the digital divide** (2019)
- Sefydliad McKinsey Global, **The future of work after COVID-19** (2021)

# Sut all Cymru gael y cyfryngau sydd eu hangen arni?

## Mae llunwyr polisïau yn wynebu penbleth o ran sut i gefnogi sector sy'n hanfodol i ddemocratiaeth, ond sy'n gweithio ar ei orau o bellter i'r rhai sy'n meddu ar bŵer democrataidd.

***Robin Wilkinson***

Beth sy'n digwydd i ddemocratiaeth pan fydd pobl yn methu â chael mynediad at wybodaeth ddibynadwy y gellir ymddiried ynddi ynglŷn â'r bobl y gallant bleidleisio drostynt? Ers 1999, wrth i'r Senedd ennill rhagor o bwerau, mae newyddiaduraeth broffesiynol wedi cilio o gymunedau lleol yng Nghymru, yn ogystal â gweddill y byd.

Ar ddiwedd y Bumed Senedd, daeth y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i'r **casgliad** bod y "cynnwys sydd ar gael i Gymru ar y cyfryngau yn annigonol." Y diffyg mwyaf a nodwyd oedd cynnwys newyddion a materion cyfoes.

### Punnoedd print yn troi'n geiniogau digidol

Mae papurau newydd yng Nghymru wedi profi gostyngiad parhaus yng nghylchrediad eu fersiynau print. Ers 2008 mae cylchrediad y Western Mail wedi gostwng dros dri chwarter – o 37,576 i **8,419 yn 2020**. Yn ystod yr un cyfnod, mae cylchrediad y Daily Post wedi mwy na haneru – o 36,432 yn 2008 i **14,250 yn 2020**. Mae hyn yn debyg i brofiadau papurau dyddiol y DU, gyda chylchrediad y Mirror a'r Express ill dau wedi mwy na haneru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r patrymau hyn yn cael eu hadlewyrchu ledled y byd.

Er bod cylchrediad papurau newydd print wedi gostwng, mae'r niferoedd ar-lein wedi cynyddu'n helaeth. Cynyddodd defnydd WalesOnline dros 1400% rhwng 2008 a 2020, gyda nifer yr ymwelwyr misol wedi cynyddu o **680,000 ym mis Mawrth 2008** i **9.7 miliwn ym mis Mehefin 2020**.

Mae sefydliadau newyddion wedi'i chael yn anodd sicrhau gwerth ariannol ar y cynnydd hwn ar-lein. Heblaw am ambell enghraifft, maen nhw wedi bod yn amharod i godi tâl am gael mynediad i'w cynnwys, gan ddibynnu yn hytrach ar hysbysebu digidol, gyda **swmp yr hysbysebu hynny** yn dod i feddiant Google a Facebook.

Canlyniad hyn fu cau papurau newydd, colli swyddi a chydgrynhoi'r farchnad gan yr enwau mawr. **Cyflymodd** y tueddiadau hyn yn ystod y pandemig, er bod **mwy o ddefnydd o newyddion**. Yn ôl **dadansoddiad** Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2020, awgrymwyd gostyngiad mewn refeniw hysbysebu o 20.5% ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer papurau newydd cenedlaethol, a gostyngiad o 24.1% ar gyfer papurau newydd rhanbarthol. Effeithiwyd ymhellach ar y gostyngiad mewn gwerthiannau o gopïau print yn sgil y cyfnod clo, wrth i'r niferoedd a **oedd yn siopa ddisgyn i raddau helaeth**.

## Mae teledu a radio yn colli cynulleidfaoedd i gystadleuaeth heb ei rheoleiddio

Nid yw newyddion yn ymwneud â phapurau newydd yn unig. Teledu yw'r **ffynhonnell newyddion fwyaf cyffredin** yng Nghymru o hyd, ac fe gaiff ei ddefnyddio gan 75% o bobl, o gymharu â 43% ar gyfer radio, 33% ar gyfer papurau newydd print, a 31% ar gyfer gwefannau ac apiau eraill – gan gynnwys rhai penodol ar gyfer newyddion.

Ond mae gwasanaethau darlledu rheoledig sy'n darlledu newyddion – fel y BBC, ITV a radio masnachol – i gyd yn colli cynulleidfaoedd i gystadleuaeth ar-lein heb ei rheoleiddio fel Netflix a Spotify. Efallai bod gan y llwyfannau ffrydio hyn rywfaint o gynnwys newyddion a materion cyfoes, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny trwy reoliad, a hyd dim ond rhan atodol o'u modelau busnes yw'r cynnwys hwn.

Mae cyfran gynyddol o bobl – 46% yn 2020 – yn cael eu newyddion o'r cyfryngau cymdeithasol. Unwaith eto, nid yw hyn wedi'i reoleiddio ar y cyfan ac, er y ceir **newyddion dibynadwy o ffynonellau dibynadwy**, mae hefyd **pryderon ynghylch twyllwybodaeth a newyddion ffug**

## Mae colli newyddion yn atal y nifer sy'n pleidleisio ac yn cynyddu llygredigaeth

Mae yna lawer o ddadleuon damcaniaethol dros werth newyddiaduraeth newyddion mewn democratiaeth ryddfrydol. Mae'r rhain yn cynnwys annog atebolrwydd gwleidyddol i'r cyhoedd a sicrhau sawl safbwynt. Mae gwaith ymchwil

diweddar, sydd **wedi'i grynhoi mewn adroddiad ar gyfer Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU** wedi rhoi sail empirig i'r honiadau hyn.

Daeth yr awduron i'r casgliad fod cael teitl papur newydd lleol dyddiol neu wythnosol ychwanegol yn cynyddu nifer y pleidleiswyr 1.27 pwynt canran, a bod cau teitlau newyddion lleol a rhanbarthol yn arwain at ddiffyg adrodd a llai o graffu ar swyddogaethau democrataidd. Mae buddion eraill a nodwyd o ran newyddiaduriaeth budd y cyhoedd yn amrywio o leihau polareiddio gwleidyddol i arbed arian cyhoeddus trwy leihau llygredigaeth a chamreoli cyhoeddus.

Roedd natur ddatganoledig nifer o **bwerau** a ddefnyddiwyd i ymateb i'r pandemig yn enghraifft amlwg o bwysigrwydd newyddion Cymreig. Ym mis Ebrill 2020, ysgrifennodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Bumed Senedd at Bwyllgor Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin yn **amlinellu** potensial cam-adrodd i niweidio iechyd y cyhoedd, gan nodi adroddiadau newyddion anghywir o bob rhan o wasg y DU. Y **papurau newydd print ac ar-lein mwyaf poblogaidd yng Nghymru** yw'r Mail a'r Sun. Felly mae darllenwyr yng Nghymru yn aml yn dibynnu ar olygyddion yn Llundain i gyfathrebu'n glir pa fesurau'r cyfnod clo sydd ar waith yng Nghymru.

Cafodd honiadau'r Pwyllgor eu hategu gan **ymchwil** gan yr Athro Cushion ym Mhrifysgol Caerdydd. Canfu fod mwyafrif llethol y cyfranogwyr yn yr astudiaeth yn gallu adnabod 'newyddion ffug' fel meddyginiaethau ffals ar gyfer COVID-19. Ond cyfeiriodd llawer at wybodaeth anghywir y llywodraeth neu'r cyfryngau fel ffynonellau gwybodaeth gamarweiniol am y pandemig.

## Her i lunwyr polisi, nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl offer i fynd i'r afael â hi

Mae'r gostyngiad mewn newyddiaduraeth newyddion yn her sylweddol i lunwyr polisi. Yn ddiweddar, maent wedi gallu dibynnu ar y farchnad i ddarparu llif o newyddion dibynadwy ar y cyfan.

Nid yw rhyddid y farchnad hon wedi bod yn absoliwt – gyda phapurau newydd yn derbyn gostyngiadau treth a chymorthdaliadau ymhlyg ar ffurf hysbysebion y telir amdanynt gan gyrff cyhoeddus. Ac mae'r cyfryngau darlledu naill ai'n cael eu hariannu'n gyhoeddus (fel y BBC a S4C) neu eu rheoleiddio i sicrhau cynnwys newyddion dibynadwy. Ond mae'r dull hwn wedi helpu gwleidyddion i leihau lletchwithrwydd ymyrryd yn uniongyrchol mewn sector sy'n ddibynnol ar annibyniaeth ar y wladwriaeth i wneud ei gwaith.

Yn 2018, **dywedodd** y Pwyllgor Diwylliant fod dirywiad newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru "yn fater polisi cyhoeddus dwys, y mae angen i wneuthurwyr polisi ar bob lefel, yn enwedig Llywodraeth Cymru, fynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth".

Derbyniodd Llywodraeth flaenorol Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond roedd yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallai ei wneud. Mae "darlledu a chyfryngau eraill" yn fater a gedwir yn ôl, sy'n golygu mai Senedd y DU sydd â'r pŵer i basio cyfreithiau yn y maes hwn. Mae hyn yn gadael cyllid uniongyrchol fel y prif opsiwn polisi i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraethau Cymru wedi ariannu newyddion a materion cyfoes Cymraeg ers amser maith, trwy Gyngor Llyfrau Cymru, i gydnabod methiant y farchnad yn y maes hwn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi darparu cyllid ar gyfer rhywfaint o newyddiaduraeth Saesneg, fel Nation.Cymru – trwy'r Cyngor Llyfrau, a '**newyddiaduraeth hyperleol**' trwy ei gronfa ei hun, sef **Cronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol £200,000**. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi derbyn y ddadl, a wnaed gan y Pwyllgor Diwylliant sef bod y farchnad ar gyfer newyddiaduraeth Saesneg yng Nghymru hefyd wedi methu.

**Dywedodd** y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, yr Arglwydd Elis-Thomas, yn flaenorol nad lle Llywodraeth Cymru oedd darparu'r cyfryngau na chefnogi'r cyfryngau. Ond erbyn diwedd y Bumed Senedd datgelodd fod trafodaethau yn "parhau i ddigwydd" i ddarparu cefnogaeth bellach i newyddiaduraeth Saesneg "yn debyg i beth sydd gyda ni yn y Gymraeg". **Edrychodd** Comisiwn y Senedd hefyd a allai gynnig cymorth i newyddiaduraeth.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi galw ers amser maith am **ddatganoli darlledu** i roi mwy o offer i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cyfryngau. **Ychydig o gefnogaeth** a gafodd y cynigion hyn yn ddiweddar gan y Pwyllgor Diwylliant. Ond byddai pwerau pellach yn golygu y byddai angen i Lywodraeth Cymru, yn hytrach na Llywodraeth y DU, ateb cwestiynau anodd ynglŷn â sut i gynyddu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn oes o ddadreoleiddio.

Er bod sawl gwasanaeth newyddion newydd i Gymru wedi cychwyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf (fel **Nation Cymru** a **The National**), nid yw un o'r tueddiadau ehangach yn y farchnad yn dangos unrhyw arwydd o leihau. Os yw gwleidyddion eisiau i bobl wybod mwy am y bobl a'r sefydliadau y maent yn pleidleisio drostynt, nhw fydd yn gorfod penderfynu sut.

## Ffynonellau allweddol


- Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, **Research into recent dynamics of the press sector in the UK and globally by Plum Consulting** (2020)
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?** (2020)
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Effaith argyfwng COVID-19 ar newyddiaduraetha'r cyfryngau lleol** (2020)
- Ymchwil y Senedd, **Coronafeirws: newyddiaduraeth** (2020)
- Ymchwil y Senedd, **Ystyried y mater o ddatganoli darlledu** (2021)
- The Conversation, **Coronavirus: fake news less of a problem than confusing government messages – new study** (2020)

# Iechyd a gofal

- Gofal cymdeithasol: system sydd ar fin torri?

- Cymru sy'n iach yn feddyliol

- Amseroedd aros ysbytai: mynydd i'w ddringo



# Gofal cymdeithasol: system sydd ar fin torri?

## Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y sector gofal cymdeithasol, ond mae hefyd wedi dangos pa mor fregus yw'r system. A fydd COVID-19 yn gatalydd ar gyfer newid?

***Amy Clifton***

Taflwyd goleuni ar y pwysau aruthrol sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig.

Mae cydnabyddiaeth a gwerthfawrogiad newydd ar gyfer staff gofal cymdeithasol, ond mae'r anghydraddoldeb o ran sut maen nhw'n cael eu trin o'u cymharu â staff y GIG yn fwy amlwg fyth. Amlygwyd hefyd yr angen am well cefnogaeth i'r nifer gynyddol o bobl sy'n ofalwyr di-dâl yng Nghymru.

Mae'n cael ei **dderbyn** yn gyffredinol ei bod yn hen bryd diwygio gofal cymdeithasol yn sylfaenol. Cafwyd nifer o bapurau ac adroddiadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar ddiwygio, ond mae'r mater wedi cael ei **roi o'r neilltu dro ar ôl tro**.


### Y gweithlu gofal cymdeithasol

Mae gwaith gofal yn cael ei **ystyried** yn gyffredinol fel proffesiwn â chyflog isel, statws isel, gyda chyfleoedd cyfyngedig i bobl gamu ymlaen yn eu gyrfa. Mae'r sector yn dioddef o **brinder staff, trosiant staff uchel** ac anawsterau mawr wrth recriwtio. Mae gofal cymdeithasol yn colli staff yn gyson i sectorau fel manwerthu, sy'n cynnig gwell tâl ac amodau.

**Mae 56% o'r gweithlu gofal cymdeithasol** yng Nghymru yn ennill llai na'r **cyflog byw gwirioneddol** (£9.50 yr awr). Mae cyflogau'n debyg yng Nghymru a Lloegr, ond tipyn yn uwch yn yr Alban.

Mae gweithwyr gofal preswyl yng Nghymru wedi wynebu degawd **heb welliant cymharol yn eu cyflog**, ac mae eu cyflog canolrifol wedi aros yn is na'r cyflog byw gwirioneddol am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw. Mae cyflogau gofal preswyl hefyd yn llawer is na **chyfartaledd y diwydiant gwasanaeth**.

### Dosbarthiad tâl gros yr awr ar draws sectorau yng Nghymru, 2020




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2020, Tabl 5.5a**. Mae'r pwynt data ar gyfer 90fed canradd y gweithwyr gofal preswyl wedi cael ei hepgor gan yr ystyrir bod yr amcangyfrif yn annibynadwy.

Yn ystod y pandemig wynebodd y gweithlu gofal cymdeithasol drawma a risg bersonol sylweddol, gyda gweithwyr yng Nghymru a Lloegr **ddwywaith yn fwy tebygol o farw** gyda COVID-19, o'u cymharu â'r boblogaeth oedran gweithio gyffredinol.

Ym mis Mawrth, galwodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd, ynghyd â rhanddeiliaid, am i **weithwyr gofal cymdeithasol gael parch cydradd** â staff y GIG; o ran cyflog, amodau gwaith a chydnabyddiaeth.

Daeth y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol (partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr ac undebau) **i'r casgliad** yn ddiweddarach y mis hwnnw mai'r isafswm tâl y dylai gweithwyr gofal cymdeithasol ei gael yw'r cyflog byw gwirioneddol. Mae'n ystyried mai'r newid hwn yw'r flaenoriaeth bwysicaf i wella amodau gwaith.

## Rôl gofalwyr di-dâl

Mae mwyafrif y gofal yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl (teulu neu ffrindiau fel arfer) yn hytrach na gwasanaethau a gomisiynir. Hyd yn oed cyn y pandemig, **amcangyfrifwyd** bod 96% o'r holl ofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl.

Amcangyfrifir mai cost gofal a ddarperir gan ofalwyr di-dâl (hynny yw, prynu'r gofal hwn am bris y farchnad) yw **£8 biliwn** – fwy neu lai yr un swm â chyllideb flynyddol GIG Cymru.

Mae gofalwyr wedi ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu yn ystod y pandemig a dywedir eu bod nhw bellach **wedi'u gwthio i'r eithaf**, a'u bod wedi blino'n lân oherwydd cyfnodau hir o ofalu heb egwyl na chefnogaeth. Mae gwasanaethau cymorth fel gofal seibiant, a oedd eisoes yn brin, wedi lleihau neu stopio'n gyfan gwbl. Mae llawer o ofalwyr hefyd **yn ei chael hi'n anodd yn ariannol**, ac mae rhanddeiliaid eisiau gweld mwy o gymorth ariannol ar gael.

Rhaid i unrhyw gynlluniau ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol gydnabod rôl ganolog gofalwyr di-dâl, ac nid yw hynny'n gynaliadwy heb well mynediad at gymorth. Fel y **dywedodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** y Bumed Senedd:

> Mae gofalwyr yn rhoi cymaint i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt a hebddynt, byddai ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu llethu ac ni fyddant yn gallu gweithredu. Rhaid iddynt gael eu cefnogi, eu cydnabod a'u gwobrwyo i'w galluogi i barhau i ofalu cyhyd ag y dymunant wneud hynny.

## Y berthynas rhwng iechyd a gofal cymdeithasol

Ar ddechrau'r pandemig, awgrymwyd mai **ôl-ystyriaeth oedd gofal cymdeithasol**. O gymharu â'r GIG, bu oedi mawr cyn i weithwyr gofal gael cyfarpar diogelu personol hanfodol a mynediad at brofion.

Mae cleifion sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai i leoliadau gofal (weithiau ym mherfeddion y nos) heb ganlyniad prawf COVID-19 negyddol yn parhau i fod yn destun pryder ymhlith rhanddeiliaid. Mae **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru** yn dweud bod hyn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth sylweddol rhwng cartrefi gofal ac ysbytai. Cododd **elusennau gofalwyr** bryderon hefyd ynghylch arferion gwael wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan fod y rhain yn rhoi pwysau ar ofalwyr di-dâl.


Mae integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well wedi bod yn uchelgais wleidyddol ers amser maith ond ni welwyd cynnydd gwirioneddol eto. Yn 2014, sefydlodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Gronfa Gofal Integredig**, gyda'r nod o gyflawni hyn. Fodd bynnag, mae **Swyddfa Archwilio Cymru** wedi bod yn feirniadol o effaith gyffredinol y gronfa.

## Pwysau ar wasanaethau

Mae'r pandemig wedi gwaethygu sefyllfa ariannol llawer o ddarparwyr gofal sydd eisoes yn fregus. Taflwyd rhagor o amheuaeth ynghylch hyfywedd tymor hir y model gwasanaeth presennol, yn enwedig yn y farchnad gofal preswyl.

Mae gofal preswyl yn dameidiog dros ben. Mae yna dros 1,000 o gartrefi gofal ar wahân, y mwyafrif helaeth ohonynt yn **fusnesau bach, annibynnol**, sy'n darparu'r rhan fwyaf o leoedd cartrefi gofal oedolion.

**Nifer y lleoedd mewn cartrefi gofal i oedolion, yn ôl awdurdod lleol a math o ddarparwr, Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru, Mawrth 2021, data y gofynnwyd amdanynt gan y defnyddiwr. Data wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf. Mae'r data llawn ar gael trwy'r linc lawrlwytho data.

Derbynnir yn gyffredinol bod y system ofal yn cael ei thanariannu, ac nid yw'n ymddangos bod lefelau ffioedd awdurdodau lleol wedi cadw i fyny â'r costau cynyddol. Mae hunan-gyllidwyr i bob pwrpas yn talu am y costau, ac ar gyfartaledd **yn talu tua 25% yn fwy** mewn ffioedd cartrefi gofal nag awdurdodau lleol.

Mae angen i gartrefi gofal fod yn weddol lawn er mwyn bod yn hyfyw ond mae llawer ohonynt wedi gweld nifer eu preswylwyr yn gostwng yn ystod y pandemig, sydd wedi achosi straen ariannol sylweddol.

Mae cartrefi gofal hefyd wedi cael trafferth gyda phrinder staff difrifol oherwydd salwch a staff yn hunanynysu. Ym mis Rhagfyr 2020, cyrhaeddodd nifer o gartrefi gofal lefel gritigol o ran absenoldeb staff, ac roeddent yn agos iawn at gau eu drysau. Yn ôl adroddiadau yn y cyfryngau, roedd preswylwyr yn agos at gael eu **symud i'r ysbyty** oherwydd lefelau staffio.

Mae darparwyr gofal cartref yn parhau i deimlo gofynion a phwysau cynyddol, yn enwedig gyda **COVID hir** a chleifion sydd wedi aros am amser hir yn yr ysbyty. O edrych at y dyfodol, bydd COVID hir yn parhau i fod yn **bwysau newydd** ar wasanaethau, gan y bydd wedi ychwanegu grŵp arall o ddefnyddwyr gwasanaethau efallai (heb COVID) nad oedd angen gofal cymdeithasol arnynt.

## Y galw yn y dyfodol

Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio, ac mae pobl yn byw yn hirach gydag anghenion gofal cymhleth a dementia. Heb os, bydd hyn yn parhau i roi mwy o bwysau ar wasanaethau gofal. Rhagwelir y bydd nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol **yn dyblu erbyn 2040**.

Hyd yn oed cyn y pandemig, amcangyfrifodd y Sefydliad Iechyd y byddai angen i gyllideb gofal cymdeithasol Cymru gyrraedd **£2.3 biliwn erbyn 2030/31** i gyd-fynd â'r galw.

Fe wnaeth Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol, **gydnabod** na fydd gwasanaethau Cymru sydd eisoes dan bwysau yn bodloni'r galw yn y dyfodol oni chymerir camau. Dywedodd y gallai gwariant ar wasanaethau cymdeithasol fod hyd at £400 miliwn yn uwch yn 2022-23, dim ond er mwyn cynnal y lefel gyfredol o wasanaethau.

Daeth Llywodraeth flaenorol Cymru i'r casgliad nad oedd diwygio radical i wella gofal cymdeithasol yn debygol yn y dyfodol agos, o ystyried yr hinsawdd economaidd heriol a achoswyd gan y pandemig.

**Dywedodd y Gweinidog ar y pryd** y gellid, yn y tymor byr, weithredu mesurau sy'n "gweithio tuag at gyflwyno cyflog byw gwirioneddol i'r gweithlu", a hynny "cyn gynted ag y bo hynny'n fforddiadwy".

Fel y mae **Ymddiriedolaeth Nuffield** yn nodi, mae COVID-19 wedi gwthio'r galw am ddiwygio yn uwch ar yr agenda:

> Never has social care been so prominent in public and political discussions. There is a groundswell of support for reform that presents a rare opportunity to achieve tangible change.

A fydd Llywodraeth nesaf Cymru yn trosi hyn yn gamau i wella gofal cymdeithasol?

## Ffynonellau allweddol

- Gofalwyr Cymru, Papur Briffio COVID-19, **Effaith ar Ofalwyr Di-dâl yng Nghymru** (2020)
- Y Sefydliad Iechyd, **Y llwybr i gynaliadwyedd** (2016)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **The Future of Care in Wales: Resourcing social care for older adults** (2020)
- Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 3 – Effaith ar y sector gofal cymdeithasol a gofalwyr di-dâl** (2021)

# Cymru sy'n iach yn feddyliol

## Beth yw'r prif heriau a chyfleoedd wrth geisio gwella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru?

***Philippa Watkins***

Roedd pryderon difrifol, hirsefydlog wedi'u mynegi ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru cyn y pandemig COVID-19. Roedd nifer o bwyllgorau'r Senedd wedi nodi amserau aros hir, trothwyon uchel ar gyfer triniaeth a bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae pryderon newydd wedi'u mynegi ynghylch effaith barhaus y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth, ac ar rai grwpiau yn benodol.

Nid yw effeithiau hirdymor y pandemig ar iechyd meddwl wedi'u deall yn llawn eto. Mae'n glir bod iechyd meddwl wedi gwaethygu a bod yr effaith ar grwpiau gwahanol wedi bod yn anghyfartal. Pobl ifanc a phobl sy'n byw mewn tlodi sydd wedi wynebu'r effaith fwyaf.


### Salwch meddwl yng Nghymru/ yn y Deyrnas Unedig



Mae 1 o bob 4 oedolyn yn profi problemau iechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod eu hoes.



Mae hanner yr holl broblemau iechyd meddwl yn dechrau erbyn y bydd rhywun yn 14 oed.




Cafodd 330 o farwolaethau eu cofnodi oherwydd hunanladdiad yng Nghymru yn 2019.



Nododd 20% o oedolion Cymru yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig eu bod nhw wedi cael triniaeth ar gyfer cyflwr iechyd meddwl, o'i gymharu ag 8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.



Problemau iechyd meddwl yw'r achos unigol mwyaf o anabledd yn y DU.



Gwariodd GIG Cymru £810 miliwn ar broblemau iechyd meddwl yn 2019-20, sef 11.1% o gyfanswm gwariant y GIG.



Amcangyfrifwyd mai cost gyfan problemau iechyd meddwl yng Nghymru yw £7.2 biliwn y flwyddyn.

## Effaith y pandemig

**Dywedodd** dros hanner yr oedolion a thri chwarter y bobl ifanc a gymerodd ran mewn arolwg fod eu hiechyd meddwl wedi bod yn waeth yn ystod misoedd cynnar y pandemig. Erbyn hyn, mae'n glir bod COVID-19 wedi cael **effeithiau emosiynol sylweddol** ar y boblogaeth. Mae pobl wedi wynebu lefelau uwch o straen a gorbryder, yn ogystal â phrofedigaeth. Maent hefyd wedi cael llai o gyfleoedd i fanteisio ar eu technegau arferol ar gyfer ymdopi (er enghraifft, gweld ffrindiau a theulu a gwneud ymarfer corff).

Er y gellir disgrifio trallod llawer o bobl fel ymateb 'arferol' i sefyllfa hynod anarferol, mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar y bobl hyn o hyd. Hefyd, mae'n bosibl y bydd symptomau pobl oedd â phroblemau iechyd meddwl cyn y pandemig wedi gwaethygu. Mewn **adroddiad** a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, pwysleisiodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd fod yn rhaid sicrhau cymorth priodol i bawb sydd mewn angen. Hefyd, mae'n rhaid i'r cymorth

a roddir ymateb i'r ystod o anghenion o ran iechyd meddwl – o ymyrraeth gynnar ar lefel isel i wasanaethau mwy arbenigol a gofal mewn argyfwng.

Cydnabyddir y bu **effaith anghymesur** ar iechyd meddwl a llesiant rhai grwpiau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pobl sydd eisoes ag anghenion o ran cymorth iechyd meddwl;
- pobl ar incwm isel neu y mae eu statws o ran cyflogaeth wedi newid, neu bobl hunangyflogedig;
- gweithwyr y GIG a gweithwyr gofal, a staff eraill ar yr reng flaen;
- cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;
- oedolion hŷn; a
- phlant a phobl ifanc.

## Plant a phobl ifanc

Yn ystod y pandemig, mae pobl ifanc wedi **nodi** eu bod yn wynebu ystod o faterion o ran eu hiechyd meddwl, sy'n cynnwys lefelau uwch o orbryder a theimladau o unigrwydd a llai o fynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau eraill y maent fel arfer yn dibynnu arnynt. **Ofnir** y gallai'r amhariad ar addysg, cyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc gael effaith sylweddol, hirdymor ar eu llesiant.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd **adroddiad dilynol** yn seiliedig ar yr adroddiad pwysig a gyhoeddwyd ganddo yn 2018, sef **Cadernid Meddwl**. Mae'r adroddiad dilynol yn amlinellu cynllun i wella cymorth emosiynol a **chymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc**.

## Y prif heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Llywodraeth nesaf Cymru

### Rheoli nifer y cleifion sy'n aros am driniaeth ynghyd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau

**Disgwylir** iddi gymryd nifer o flynyddoedd i wasanaethau'r GIG a rhestri aros ddychwelyd i'r un lefelau â'r gwasanaethau a'r rhestri aros cyn y pandemig. Nid oedd iechyd meddwl mewn sefyllfa gref cyn y pandemig COVID-19, gyda llawer o bobl yn **ei chael hi'n anodd cael mynediad** at gymorth amserol a phriodol. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, fel y gwaith a wnaed mewn **ysgolion** i wella'r cymorth ar gyfer llesiant meddyliol disgyblion. Fodd bynnag, mae bylchau mewn darpariaeth yn parhau ac nid yw Llywodraethau blaenorol wedi llwyddo i'w cau. Er enghraifft, mae **mynediad at therapïau seicolegol** ledled Cymru yn parhau'n heriol.

Er bod gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru wedi'u categoreiddio fel **gwasanaeth hanfodol** yn ystod y pandemig, nid oedd llawer o bobl wedi llwyddo i gael mynediad at y gwasanaethau hyn neu fe wnaethant oedi cyn gofyn am gymorth. Mae pryderon wedi'u mynegi ynghylch **lefel uchel yr anghenion sydd heb eu diwallu**, gyda chyflyrau rhai pobl sydd eisoes â phroblemau iechyd meddwl yn dirywio.

Mae **cynllun adfer Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** (Mawrth 2021) yn rhybuddio y gallai'r GIG gael ei orlwytho gan atgyfeiriadau am gymorth iechyd meddwl. Yn nodedig, mae'r cynllun yn nodi y bydd y duedd hon yn cael ei llywio gan effeithiau economaidd-gymdeithasol y pandemig (yn hytrach nag anghenion meddygol/anghenion iechyd meddwl arbenigol).

### Bydd gan dechnoleg fwy o rôl wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl

Yn ystod y pandemig, mae rhagor o wasanaethau iechyd meddwl wedi'u darparu o bell, ac mae nifer yr apwyntiadau wyneb yn wyneb wedi gostwng yn sylweddol. Gall gwasanaethau o bell/ar-lein fod yn ffordd effeithiol o ddiwallu rhai anghenion, ond mae'n bosibl nad ydynt yn addas neu'n hygyrch i bawb. Er enghraifft, nid oes gan oddeutu 13% o aelwydydd yng Nghymru **fynediad at y rhyngrwyd**.

Mae **gwerthusiad diweddar o wasanaethau ymgynghori fideo** yn awgrymu bod 'brwdfrydedd mawr' am ymgynghori fideo yng Nghymru, gyda photensial uchel o ran cynaliadwyedd a defnydd hirdymor y tu hwnt i'r pandemig. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd dulliau cyfunol o ddarparu gwasanaethau iechyd

meddwl yn cael eu defnyddio, gyda chyfuniad o wasanaethau wyneb yn wyneb a gwasanaethau o bell. Bydd mynd i'r afael â'r 'bwlch digidol' felly'n hollbwysig.

### Mae angen gwasanaethau iechyd meddwl gwell, ond ni fydd hyn yn ddigon ar ben ei hun

Neges glir gan randdeiliaid yw nad yw 'iechyd meddwl' yn dod o dan ymbarél y GIG yn unig – mae'n fater iechyd cyhoeddus sydd â phwysigrwydd ehangach o lawer. Mae atal salwch meddwl yn gyfrifoldeb ar draws adrannau'r Llywodraeth a phob sector o'r gymdeithas. Yn ôl y **Sefydliad Iechyd Meddwl**:

> Prevention of mental health problems is possible through effective societal, community and individual support, but it cannot happen within the health sector alone – action must be taken in the spaces where people are born, raised and live (in the home, in schools, their communities and workplaces).

### Canolbwyntio'n fwy ar iechyd meddwl

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddiweddaraf ei **chynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl** i ymateb i'r pandemig. Hefyd, cafodd **Gweinidog ei phenodi sy'n gyfrifol am iechyd meddwl a llesiant**. Mae **cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22** yn cynnwys rhagor o gyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, gan gydnabod bod gwella iechyd meddwl y cyhoedd yn cwmpasu gwaith y Llywodraeth gyfan:

> Gellir gweld buddsoddiad pellach mewn iechyd meddwl ar draws y llywodraeth, yn unol â'n dull atal a diogelu iechyd meddwl a lles, gan gynnwys cymorth cyflogaeth, cyngor ar ddyledion, cymorth tai, chwaraeon a mynediad at fannau gwyrdd.

Ym mis Rhagfyr 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Fwrdd Cyflawni a Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** i gryfhau'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'i strategaeth iechyd meddwl ac i ddatblygu'r gwaith hwn yn gynt.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae'r pwyslais cynyddol ar iechyd meddwl yn gyffredinol wedi'i groesawu. Fodd bynnag, a fydd hyn yn ddigon i'n galluogi i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig a gweithredu mewn modd sy'n cwmpasu'r system gyfan, sef yr hyn sydd ei angen arnom i wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru?

Mae yna **gonsensws** bod iechyd meddwl wedi'i dangyllido'n barhaus (nid dim ond yng Nghymru, ond ledled y byd). Er gwaethaf y **baich o ran afiechyd** y mae problemau iechyd meddwl yn ei achosi, mae iechyd meddwl yn denu cyfran isel o'r gwariant cyffredinol ar iechyd. Mae cyfran lai fyth o wariant ar waith ymchwil ym maes iechyd yn cael ei gwario ar **ymchwil** ynghylch iechyd meddwl. Mae pryderon yn parhau y bydd iechyd meddwl yn cael llai o flaenoriaeth yn yr ymateb parhaus i'r pandemig a'r broses o adfer gwasanaethau gofal iechyd arferol.

Mae'r sector a phwyllgorau'r Senedd wedi bod yn galw am ragor o gydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol ers cryn amser. Mae'n bosibl bod siwrnai hir o'n blaenau cyn inni gyrraedd pen y daith honno. Bydd arweinyddiaeth ymroddedig, polisi cydgysylltiedig a dyraniadau cyllidebol priodol yn hanfodol i wella iechyd meddwl y cyhoedd a llunio gwasanaethau iechyd meddwl sy'n addas at y dyfodol.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Cynllun cyflawni ar gyfer iechyd meddwl 2019 i 2022** (adolygwyd mewn ymateb i COVID-19 ym mis Hydref 2020)
- Llywodraeth Cymru, **Gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol** (2021)
- Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant** (2020)
- Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru** (2018), a **Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach** (2020)
- Ymchwil y Senedd, **Iechyd meddwl, pobl ifanc a'r pandemig** (2020)
- Y Sefydliad Iechyd Meddwl, **Coronavirus: Mental health in the pandemic** (astudiaeth sy'n parhau)

# Amseroedd aros ysbytai: mynydd i'w ddringo

## Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau iechyd, gydag amseroedd aros am driniaethau yn mynd yn hirach. Beth ellir ei wneud i ddatrys yr ôl-groniad yma?

***Paul Worthington***

Ym mis Mawrth 2020, gohiriwyd yr holl driniaethau ysbyty nad oeddent yn rhai brys, gan alluogi ysbytai i ddelio â thon gyntaf pandemig Covid-19. Mae pwysau Covid-19 bellach yn lleddfu, ond mae GIG Cymru yn wynebu ôl-groniad sylweddol. Ar hyn o bryd mae dros hanner miliwn o gleifion yn aros am driniaeth ar gyfer cyflyrau eraill. Sut y gall ein gwasanaethau gofal iechyd ymateb i'r her hon?


## Beth yw maint yr her?

O ran cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i dderbyn triniaeth yn yr ysbyty, targed Llywodraeth Cymru yw y dylid gweld 95% o fewn 26 wythnos, a 100% o fewn 36 wythnos. Mae'r amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth hefyd yn cynnwys yr amser a dreulir yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion, sganiau neu driniaethau eraill y gallai fod eu hangen cyn cael triniaeth. Mae yna dargedau amseroedd aros eraill ar gyfer profion diagnostig, therapïau a **dechrau triniaeth canser**.

Roedd amseroedd aros eisoes yn cynyddu cyn y pandemig. Ar eu pwynt isaf yn ddiweddar, ym mis **Mawrth 2019**, roedd cyfanswm yr atgyfeiriadau a'r triniaethau wedi gostwng i 8,985 o gleifion yn aros dros 36 wythnos. Ond cynyddodd y niferoedd hynny eto dros y misoedd canlynol i 25,549 ym mis Rhagfyr 2019. Rhwng mis Chwefror 2020 a Chwefror 2021, cododd cyfanswm y niferoedd yn aros i'w triniaeth ddechrau o 461,809 i 549,353, gyda'r rhai sy'n aros dros 36 wythnos yn tyfu o 25,634 i 217,655 o gleifion - cynnydd o 749%.

Mae cwymp yn nifer y cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan feddygon teulu i gael triniaeth yn golygu bod llai o gleifion yn aros llai na 36 wythnos, ond mae cleifion a oedd eisoes ar restrau aros yn parhau'n hwy. Mae tua **60% o'r rhai sy'n aros dros 36 wythnos** yn aros am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol.


**Perfformiad yn erbyn targedau amseroedd aros Atgyfeiriadau am Driniaeth: Cymru, Chwefror 2020-Chwefror 2021**




Ffynhonnell: StatsCymru **Amseroedd Aros Atgyfeiriadau am Driniaeth yn Ysbytai GIG Cymru**

At hynny, mae gan **Lywodraeth Cymru darged** na ddylai neb aros mwy nag wyth wythnos am wasanaethau diagnostig, megis pelydr-X, neu 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi, megis ffisiotherapi. Rhwng mis Chwefror 2020 ac Chwefror 2021, **bu cynnydd yn nifer y bobl a arhosodd** y tu hwnt i'r targedau hyn o 3,551 i 48,136 mewn gwasanaethau diagnostig, ac o 197 i 4,129 mewn gwasanaethau therapi.

**Canran y cleifion sy'n aros yn hirach na thargedau amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi: Cymru, Chwefror 2020-Chwefror 2021**





Ffynhonnell: StatsCymru, **Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi Ysbytai GIG Cymru**

## Ble mae'r prif heriau?

Roedd y penderfyniad gwreiddiol i ohirio triniaethau nad oeddent yn rhai brys yn gymwys ledled Cymru. Ond ers mis Rhagfyr 2020, mae byrddau iechyd **wedi gallu penderfynu ar lefel leol** faint o waith nad yw'n frys y maent am ei ailddechrau, a phryd y gwneir hynny. Dros amser, gall hyn olygu bod y cyflymder o ddelio â'r ôl-groniad yn amrywio ledled Cymru. Ym mis **Rhagfyr 2020**, nid oedd byrddau iechyd ond yn cyflawni tua hanner y lefelau gweithgarwch fel ag yr oeddent cyn y pandemig lle nad oeddent yn faterion brys.

**Nifer y cleifion Atgyfeiriadau am Driniaeth sy'n aros dros 36 wythnos yn ôl bwrdd iechyd, Chwefror 2020 a Chwefror 2021**




Ffynhonnell: StatsCymru, **Amseroedd Aros Atgyfeiriadau am Driniaeth yn Ysbytai GIG Cymru**

Mae llawer o'r twf mewn rhestrau aros yn deillio o nifer fawr o driniaethau ar gyfer cyflyrau penodol, megis triniaeth i gael clun neu ben-glin newydd, neu gataractau. O'r 217,655 o gleifion sy'n aros dros 36 wythnos, mae'r rhan fwyaf o'r rhain mewn nifer fach o arbenigeddau, gan gynnwys 52,173 mewn orthopaedeg, 31,695 mewn offthalmoleg, 26,354 mewn gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf, 25,181 mewn llawfeddygaeth gyffredinol, a 12,715 mewn dermatoleg.

## Ai dyna'r darlun cyfan?

Dim ond rhan o'r stori a adroddir gan y ffigurau sydd wedi'u cyhoeddi. Mae meddygon teulu wedi gwneud llai o atgyfeiriadau am driniaeth. Syrthiodd cyfanswm yr atgyfeiriadau misol o 109,432 ym mis Chwefror 2020 i 39,103 ym mis Ebrill 2020, a dim ond 82,647 o atgyfeiriadau a fu ym mis Chwefror 2021. Yn ei ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, clywodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a

Chwaraeon y Bumed Senedd bryderon ynghylch y posibilrwydd o weld y galw am wasanaethau'n cronni, gan gynnwys ar gyfer pobl â chyflyrau cronig a oedd angen cefnogaeth ac asesiadau parhaus. Dywedodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**:

> Ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, mae'r diffyg atgyfeiriadau yn annhebygol o adlewyrchu newid yng ngwir anghenion iechyd y boblogaeth - mae'n fwy tebygol bod y galw wedi cynyddu yn sgil y pandemig. Wrth i sefyllfa'r pandemig gilio, mae'n rhesymol tybio y bydd y galw hwn yn codi unwaith yn rhagor.

Mae pryderon penodol ynghylch **y nifer cynyddol o atgyfeiriadau canser. Dywedodd Dr Richard Johnson o Goleg Brenhinol y Llawfeddygon wrth y Pwyllgor** fod angen sylweddol heb ei ddiwallu yn y gymuned lle nad yw cleifion wedi cael eu gweld eto a heb gael diagnosis. Mae **Cymorth Canser Macmillan yn amcangyfrif** rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2020 y gallai tua 3,500 o bobl fod wedi methu â chael diagnosis canser.

Yn ôl adroddiad gan y **Cynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru** a edrychai ar brofiadau cleifion ar restrau aros yn ystod y pandemig, mae llawer o bobl yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau iechyd, yn rhannol oherwydd pryderon ynghylch Covid-19.

Gall yr effaith ar gleifion yn sgil aros am driniaeth fod yn enfawr. Nid yn unig y mae'n rhaid i bobl ar restrau aros fyw gyda'u cyflwr am gyfnod hirach, ond gall eu cyflwr waethygu. **Clywodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** y gallai fod angen cymorth ychwanegol neu 'wasanaeth rhag-sefydlu' ar gleifion cyn y gallant ddechrau triniaeth, ac efallai y bydd angen lefel uwch o gymorth diagnostig ar bobl a atgyfeirir gan feddygon teulu.

**Yn ôl Coleg Brenhinol y Llawfeddygon**, mae'r effaith ar gleifion sy'n aros am lawdriniaeth, hyd yn oed os mai llawdriniaeth wedi'i chynllunio yn unig ydyw, yn eithaf andwyol o safbwynt corfforol a seicolegol.

## Sut fydd y GIG yng Nghymru yn delio â'r ôl-groniad?

**Pwysleisiodd** Prif Weithredwr GIG Cymru fod lleihau amseroedd aros yn gofyn am newidiadau mawr mewn gofal cleifion, gan sicrhau y dychwelir i wasanaethau traddodiadol yn unig. Mae **Conffederasiwn GIG Cymru** hefyd yn cydnabod yr angen i fod yn radical wrth ailfeddwl y ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu, gan gynnwys:

- cynyddu'n sylweddol y defnydd a wneir o dechnolegau digidol wrth ddarparu gofal hygyrch. Efallai mai defnydd mwy ar ymgynghoriadau rhithwir meddygon teulu a chleifion allanol yw'r newid gwasanaeth mwyaf sylweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig;
- cefnogi cleifion fel partneriaid wrth reoli eu gofal eu hunain, gyda mynediad at wybodaeth a chyngor gwell ar eu hiechyd;
- mwy o weithio mewn tîm ar draws gofal sylfaenol ac ysbytai, gan gynnwys mwy o gefnogaeth wedi'i threfnu'n well i bobl â chyflyrau cronig;
- mwy o gefnogaeth i feddygon teulu a gofal sylfaenol, megis mynediad mwy uniongyrchol i feddygon teulu at wasanaethau diagnostig; a
- darparu rhai gwasanaethau yn fwy rhanbarthol, gyda byrddau iechyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn meysydd fel diagnosteg a llawfeddygaeth lai cymhleth, lle bo llawer ohonynt.

## Beth yw'r rhwystrau wrth ddelio â rhestrau aros?

Clywodd y Pwyllgor gan **fyrddau iechyd** a **chyrff proffesiynol** am faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy wrth ddelio â'r ôl-groniad. Mae'r rhain yn cynnwys effaith barhaus y pandemig ar alw a chapasiti gwasanaethau, gydag ysbytai angen gwahanu triniaethau Covid-19 a thriniaethau nad ydynt ar gyfer Covid-19. Mae angen **sicrhau mwy o arloesedd hefyd**. Mae **Swyddfa Archwilio Cymru**, ochr yn ochr **â gwerthusiadau eraill**, wedi bod yn feirniadol o record GIG Cymru wrth gyflwyno arferion da yn llwyddiannus.

Mae angen amser ar staff i wella ac adfer, mae angen cynnydd yn nifer y gweithlu, ac mae angen mynediad at fwy o gapasiti gwasanaeth, yn y GIG a'r sector annibynnol. Bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer hyn i gyd.

## Beth allai Llywodraeth newydd Cymru ei wneud?

Mae'r ffigurau amseroedd aros yn codi braw. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Vaughan Gething, ar **24 Chwefror 2021** ei fod yn credu y bydd yr adferiad yn cymryd o leiaf un tymor Senedd llawn.

Nid yw'r heriau hyn yn unigryw i Gymru. Mae **Ymddiriedolaeth Nuffield** yn adrodd bod rhestrau aros yn Lloegr ar eu pwynt uchaf ers mis Awst 2007, ac mae Conffederasiwn y GIG **yn amcangyfrif** bod GIG Lloegr yn wynebu "rhestr aros gudd" o bron i chwe miliwn o bobl nad ydyn nhw wedi defnyddio gwasanaethau iechyd neu wedi cael eu hatgyfeirio am driniaeth. **Adroddodd Iechyd Cyhoeddus yr Alban** ym mis Rhagfyr 2020 fod bron i 40% (34,456) o gleifion wedi aros dros 39 wythnos am driniaeth, gydag amseroedd aros hir am apwyntiad i gleifion allanol hefyd.

Mae adfer yn dilyn y pandemig yn golygu clirio'r ôl-groniad presennol, a diwallu'r galw gan gleifion newydd a ychwanegir at restrau aros. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **gynllun adfer ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**. Roedd hyn yn cynnig newidiadau mewn gwasanaethau cleifion allanol, gydag apwyntiadau rhithwir a mynediad uniongyrchol meddygon teulu at brofion yn dod yn fater o drefn, er mwyn lleihau atgyfeiriadau i wasanaethau ysbyty. Roedd hefyd yn cydnabod yr angen am gapasiti gwasanaethau ychwanegol.

Mae gweithgarwch y GIG yn dal i gael ei gyfyngu gan gyfyngiadau Covid-19, a'r angen i gadw'r capasiti i ddelio ag achosion pellach. Roedd amseroedd aros yn cynyddu cyn y pandemig. Efallai y bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru gymryd camau gweithredu radical os yw am i'r rhestrau aros cyfredol nid yn unig sefydlogi, ond leihau.

## Ffynonellau allweddol

- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru **Feeling forgotten? Hearing from people waiting for NHS care and treatment during the coronavirus pandemic** (2020)
- Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd **Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru** (2020)
- Swyddfa Archwilio Cymru **Y Gronfa Gofal Integredig** (2019)
- Conffederasiwn GIG Cymru, **Ymateb i waith craffu'r Pwyllgor Cyllid ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Gwella iechyd a gofal cymdeithasol (COVID-19: edrych tua'r dyfodol)** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Y gronfa trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad canol cyfnod** (2020)

# Yr economi a busnes

- Adfer yr economi ar ôl “yr her economaidd fwyaf o fewn cof”
- Cefnogi adferiad sectorau sydd wedi cael eu taro’n galed
- Tlodi a chefnogi aelwydydd incwm isel



# Adfer yr economi ar ôl "yr her economaidd fwyaf o fewn cof"

## Y flwyddyn ddiwethaf oedd y cyfnod economaidd anoddaf ym mywydau nifer o bobl. Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd i sicrhau bod modd adfer a newid pwyslais economi Cymru?

***Gareth Thomas***

Mae economi Cymru yn wynebu heriau digynsail ers dechrau pandemig COVID-19.

Ar ddechrau 2020, pwy fyddai wedi rhagweld y byddai llawer o'r prif sectorau economaidd wedi cau am rywfaint o'r flwyddyn ddiwethaf neu drwy'r flwyddyn gyfan? Neu y byddai llywodraethau Cymru a'r DU yn gwario biliynau i gynorthwyo busnesau a gweithwyr drwy'r cyfnod anoddaf yn hanes llawer o bobl?

Daeth Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (EIS) y Bumed Senedd **i'r casgliad** mai adfer yr economi fydd yr "her economaidd fwyaf o fewn cof".


## Beth yw maint yr her?

Mae dangosyddion economaidd allweddol yn dangos maint effaith y pandemig ar economi Cymru. Gwelwyd gostyngiad o 2.4% yn y **Cynnyrch Domestig Gross** yn **chwarter cyntaf 2020**, a 15.1% **yn yr ail chwarter**.

Ym mis Mawrth 2021, roedd nifer y **gweithwyr ar gyflogres** yng Nghymru 24,000 yn is nag ar ddechrau'r pandemig, a chollodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr hyn eu gwaith yn ystod misoedd cyntaf y pandemig.


Fodd bynnag, roedd y nifer a oedd yn hawlio budd-dal ym mis Mawrth 2021 bron ddwywaith gymaint â'r nifer a oedd yn eu hawlio ddechrau 2020. Bydd rhywfaint o'r cynnydd hwn i'w briodoli i'r newidiadau yng ngofynion cymhwystra Credyd Cynhwysol. Nifer yr hawlwyr yw'r nifer sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith neu sy'n cael Credyd Cynhwysol ac mae'n ofynnol iddynt chwilio am waith.

### Nifer y gweithwyr ar gyflogres yng Nghymru, Ionawr 2020 – Mawrth 2021




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Enillion a chyflogaeth o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill, addaswyd yn dymhorol**


### Y nifer sy'n hawlio budd-dal yng Nghymru, Ionawr 2020 - Mawrth 2021




Ffynhonnell: NOMIS, **Nifer sy'n hawlio budd-dal – addadswyd yn dymhorol ONS**

Mae dros 460,000 **o swyddi wedi'u rhoi ar ffyrlo** yng Nghymru ers dechrau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, ac mae'r Resolution Foundation yn **pryderu** y bydd diweithdra'n codi'n sydyn pan ddaw'r cynllun i ben. Mae data misol wedi bod ar gael ers mis Gorffennaf 2020, ac mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 13% o'r gweithlu ar ffyrlo ddiwedd mis Chwefror 2021.


**Canran o'r gweithlu ar ffyrlo yng Nghymru, Gorffennaf 2020 – Chwefror 2021**




Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM, **Ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws**

Tra bo **rhagolwg diweddaraf** y Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidebol yn rhagweld y bydd yr economi'n cryfhau'n gynt nag a dybiwyd yn wreiddiol, mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol **yn rhagweld** mai yn Llundain a de Lloegr y bydd yn cryfhau gyflymaf. Mae'n awgrymu y bydd cyflogaeth yng Nghymru yn cryfhau dros y tair blynedd nesaf, ond y bydd **Gwerth Ychwanegol Gros a cynhyrchiant** Cymru erbyn diwedd 2023 yn dal yn is nag yr oedd cyn y pandemig.

**Y newid canrannnol a ragwelir o ran cynhyrchiant, cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru o'i gymharu â C4, 2019**




Ffynhonnell: Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, **Rhagolwg Economaidd Sefydliad Cenedlaethol y DU Chwefror 2021**

## Pa broblemau fydd yn codi wrth gynorthwyo busnesau i ailgodi ar eu traed?

Bu'n rhaid i rai sectorau economaidd allweddol gau'r flwyddyn ddiwethaf, neu am rannau ohoni. Bydd angen cymorth hirdymor ar y sectorau hyn i'w hadfer yn llawn - mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi **tynnu sylw** at anghenion penodol y sector twristiaeth sy'n "wynebu tri gaeaf". Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein herthygl am y sectorau sydd wedi dioddef fwyaf.

Bydd angen mynd i'r afael â rhai problemau sylfaenol hefyd er mwyn cryfhau'r sectorau hyn. Mae nifer y busnesau newydd yng Nghymru wedi bod yn is **yn hanesyddol** na chyfartaledd y DU. Mae'r Athro Dylan Jones-Evans **wedi galw** ar Lywodraeth newydd Cymru i ganolbwyntio mwy ar fentergarwch gan ddweud fod tystiolaeth bendant fod cwmnïau newydd nid yn unig yn creu'r rhan fwyaf o'r swyddi newydd mewn unrhyw economi, ac yn enwedig yn ystod dirwasgiad.

Mae **cynhyrchiant** Cymru yn is nag ydyw mewn rhannau eraill o'r DU; fesul awr, roedd 17% yn is na chyfartaledd y DU yn 2018. Mae'r Athro Andrew Henley yn credu bod Cymru wedi tueddu i feddwl ei bod yn rhy anodd mynd i'r afael â chynhyrchiant isel ac, yn y pen draw, mae cynhyrchiant yn wirioneddol bwysig, felly rhaid ystyried sut rydym am wynebu'r her hon". Mae'n tynnu sylw at y ffaith y bydd yn hanfodol gwario ar arloesedd a sgiliau, yn enwedig i gynorthwyo busnesau bach a microfusnesau.

## Bydd angen ystyried beth sy'n effeithio ar grwpiau gwahanol.

Mae'r Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd ym Mhrifysgol LSE, Llundain **wedi tynnu sylw** ar y ffaith bod cyfnodau blaenorol o ddirwasgiad wedi cael effaith anghymesur ar yr ieuengaf, y tlotaf a lleiafrifoedd ethnig. Dyma sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig hefyd.

Cyn y pandemig, pobl ifanc **yng Nghymru** oedd fwyaf tebygol o weithio mewn 'sector a oedd wedi gorfod cau', a'r fwyaf tebygol o gael eu rhoi **ar ffyrlo**. Mae pryder y gallwn weld '**cenhedlaeth a fydd wedi'i chreithio**' sy'n dioddef oherwydd ffeithiau hirdymor diweithdra. **Galwodd** Pwyllgor EIS y Bumed Senedd ar i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried Gwarantu Cyfle i Bobl Ifanc 16 -24 oed i helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Daeth y Resolution Foundation i'r casgliad fod gweithwyr sydd ar gyflog isel yn fwy tebygol o fod wedi colli eu swydd, neu oriau a thâl, neu o gael eu rhoi ar ffyrlo. Gwnaeth y Comisiwn Gwaith Teg, a sefydlwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru, **argymhellion pellgyrhaeddol** i sicrhau gwaith teg. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi ychwanegu at y problemau roedd llawer o weithwyr ar gyflog isel yn eu hwynebu eisoes, ac mae Cyngres Undebau Llafur Cymru wedi **amlinellu** ffyrdd eraill i Lywodraeth nesaf Cymru sicrhau gwaith teg.

Yn ei **adroddiad** ar gyfer Llywodraeth flaenorol Cymru amlinellodd yr Athro Emmanuel Ogbonnanifer anghydraddoldebau economaidd ac anghydraddoldebau incwm y mae lleiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru **wedi cynnig camau i'w cymryd** i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys gwella cynrychiolaeth yn y gweithle a'r gallu i symud ymlaen yn y gwaith, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gweithle, a chyflogau is ymhlith grwpiau ethnig. Cynhaliodd Llywodraeth flaenorol Cymru ymgynghoriad ynghylch ei **Chynllun Gweithredu drafft ar Gydraddoldeb Hiliol**, ond mater i'r llywodraeth nesaf fydd penderfynu sut i fwrw ymlaen â hyn.

Yn ystod y **cyfnodau blaenorol o ddirwasgiad**, roedd y swyddi a gollwyd yn dueddol o fod yn y sectorau hynny sy'n cyflogi dynion yn bennaf. Fodd bynnag, merched yw 45% o'r rhai sydd wedi **colli'u gwaith** ers dechrau'r pandemig, o'i gymharu â thua thraean o'r rhai a gollodd eu gwaith yn dilyn dirwasgiad 2008. Mae merched hefyd wedi bod **yn fwy tebygol** na dynion o weithio mewn 'sector sydd wedi gorfod cau' ac, ers mis Gorffennaf 2020, mae rhagor o ferched **wedi cael eu rhoi ar ffyrlo** na dynion. Mae Chwarae Teg **wedi galw** am ddull ffeministaidd o adfer yr economi, sy'n cydnabod bod y sector gofal yr un mor bwysig â'r sector cynhyrchu nwyddau.

## Pa gyfleoedd sydd i newid y modd y mae economi Cymru yn gweithio?

Mae'r Athro Gillian Bristow a Dr Adrian Healy **yn dweud** y bod angen creu economi fwy amrywiol, hybu datblygiadau seiliedig ar le a datblygu perchenogaeth leol i wneud yn siŵr ein bod yn gallu gwrthsefyll argyfyngau tebyg yn y dyfodol. Maen nhw'n dweud y byddai mynd i'r afael â phroblemau hirdymor fel lles cenedlaethau'r dyfodol a datblygu economi ddi-garbon hefyd yn helpu i wrthsefyll argyfyngau tebyg.

Mae cytundeb cyffredinol fod angen 'adferiad gwyrdd', ond mae gwahanol safbwyntiau ynglŷn â beth yw ystyr hyn yn ymarferol. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru **yn dweud** y dylid rhoi blaenoriaeth i gynlluniau sy'n buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd drwy roi rhaglen ôl-osod cartrefi ar waith a datblygu rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan.

Mae RSPB Cymru **yn credu** y dylai adferiad gwyrdd helpu'r amgylchedd naturiol ac adfer adnoddau i'w rheoli'n gynaliadwy. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **wedi tynnu sylw** at bwysigrwydd canolbwyntio ar nifer o feysydd a buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer swyddi gwyrdd newydd.

Ceisiodd Llywodraeth flaenorol Cymru **ddefnyddio'r** economi sylfaenol i "gryfhau ein heconomïau lleol, i greu swyddi gwell yn agosach at adref ac i adeiladu busnesau lleol cryfach". Ond bydd angen chwalu rhwystrau i gyflawni hyn - fel diwygio prosesau caffael a mynd i'r afael â **chyflogau isel ac amodau gwaith ansicr**.

Mae'n amlwg fod problemau'n wynebu economi Cymru yn y tymor byr a'r tymor hir, ac y bydd y problemau'n waeth mewn rhai sectorau. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn sicr i wella'r ffordd y mae'r economi'n gweithio i bawb.

Hefyd, bydd atebion i nifer o gwestiynau'n dod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Sut fydd y duedd i **nifer gynyddol ohonom weithio o bell** yn effeithio ar batrymau teithio i'r gwaith a phatrymau gweithio, a sut fydd hyn yn effeithio ar ganol ein trefi a'n dinasoedd? Beth sy'n ein hwynebu yn y dyfodol ym maes awtomeiddio ac AI, a sut allai'r rhain effeithio ar gynhyrchiant a swyddi? Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ymateb i'r datblygiadau yn y meysydd hyn yn ogystal â sicrhau bod yr economi'n cryfhau.

## Ffynonellau allweddol

- Chwarae Teg, **A Feminist Economic Recovery Plan for Wales: Building Back Better from Covid-19**
- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **Adferiad Tymor Hir o Covid-19**
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, **Ein Busnes yw Cymru** (2020)
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, **Maniffesto ar gyfer y dyfodol**
- Yr Athro Emmanuel Ogbonna ar ran Grŵp Cynghorol BAME Covid-119 y Prif Weinidog, **Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Cenhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi** (2021)

# Cefnogi adferiad sectorau sydd wedi cael eu taro'n galed

## Nid yw effeithiau economaidd y pandemig wedi cael eu rhannu'n gyfartal ar draws pob rhan o'r economi. Gyda llawer o sectorau'n dal i wynebu heriau sylweddol, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i'w cefnogi?

***Ben Stokes***

Mae'r cyfyngiadau sydd eu hangen i atal COVID-19 rhag lledaenu wedi ein gorfodi i newid y ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio, yn cymdeithasu ac yn treulio ein hamser hamdden. Gyda niferoedd enfawr o fusnesau wedi cael eu gorfodi i gau am gyfnodau hir, ac eraill yn wynebu colli llawer o fasnach, mae'r Llywodraeth wedi camu i mewn i roi staff ar ffyrlo a cheisio cefnogi rhannau cyfan o'r economi mewn ffordd na welwyd erioed o'r blaen.

Fodd bynnag, er nad oes amheuaeth bod y lefel hon o gefnogaeth gan y Llywodraeth wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol o ran **diogelu swyddi**, mae hynt a helynt y flwyddyn ddiwethaf a'r angen posibl am gyfyngiadau parhaus ar rai gweithgareddau yn debygol o gael effeithiau a fydd yn cael eu teimlo am flynyddoedd i ddod. Ac yn unol â'r modd y mae effeithiau iechyd COVID-19 wedi effeithio ar wahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol ffyrdd, nid yw'r effeithiau economaidd wedi'u rhannu'n gyfartal ar draws pob sector.

## Pa sectorau sydd wedi cael eu taro waethaf gan y pandemig?

Rhai o'r sectorau sydd wedi cael eu taro waethaf yw'r rhai sy'n dibynnu ar y cyhoedd yn cymysgu gyda'i gilydd dan do, a hynny'n gorfforol agos. Mae pob un ohonynt yn weithgareddau sydd naill ai wedi'u cyfyngu'n sylweddol neu wedi'u gwahardd yn llwyr yn ôl y gyfraith am ran helaeth o'r flwyddyn ddiwethaf. Er enghraifft, mae effeithiau'r cyfyngiadau hyn wedi bod yn drwm ar fusnesau a sefydliadau yn y sector diwylliant (fel theatrau a lleoliadau cerddoriaeth fyw) a'r rheini yn y sector manwerthu sy'n gwerthu eitemau nad ydynt yn hanfodol, y sector lletygarwch, y sector hamdden a'r sector twristiaeth.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae manwerthwyr Cymru wedi bod yn **colli £100 miliwn yr wythnos o ran gwerthiannau**. Ar y cyfan, gwelwyd **y ffigurau gwerthiant manwerthu gwaethaf erioed** y llynedd, gyda nifer y siopwyr yn gostwng mwy na 50%.

Yn 2020, gwelodd y sector lletygarwch **ostyngiad o dros 50% o ran gwerthiannau** ledled y DU. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Cymru yn dangos bod yr **allbwn economaidd** yn y sector gweithgareddau gwasanaethau llety a bwyd wedi gostwng 76.3% yn Chwarter 2 (Ebrill i Fehefin) 2020 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol.

Canfu **ymchwil diweddar** fod tua chwarter y busnesau yn y sector twristiaeth yng Nghymru wedi colli dros 80% o'u refeniw arferol yn 2020, a bod dros hanner y busnesau yn y sector wedi gweld eu refeniw yn gostwng mwy na 60%. Gan dynnu sylw at yr heriau aruthrol sy'n wynebu'r sector, mae'r ymchwil yn nodi mai dim ond 43% o fusnesau twristiaeth sy'n disgwyl goroesi y tu hwnt i'r chwe mis nesaf.

Ers mis Mawrth 2020, mae perfformiadau artistig â chynulleidfaoedd wedi'u gwahardd yng Nghymru. Mae hyn **yn wahanol** i Loegr a llawer o wledydd Ewropeaidd eraill sydd wedi caniatáu i berfformiadau gael eu cynnal ar brydiau.

Ochr yn ochr â chyfyngiadau sydd wedi tarfu'n ofnadwy ar y modd y mae llawer o weithgareddau diwylliannol yn gweithredu fel arfer, nid yw cynlluniau cymorth cyflogaeth Llywodraeth y DU bob amser wedi adlewyrchu strwythur cyflogaeth y sector. Mae tua **hanner yr 80,000 o weithwyr creadigol** yng Nghymru yn weithwyr llawrydd, ac ar brydiau, mae'r unigolion hyn wedi cwympo drwy'r bylchau yn y cymorth a ddarperir. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth flaenorol Cymru wedi'i gydnabod drwy sefydlu **cronfa ar gyfer gweithwyr llawrydd**.

## Sut wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gefnogi'r sectorau hyn?

Ers dechrau'r pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu **pecyn cymorth gwerth dros £2 biliwn** ar gyfer busnesau. Mae hyn ar ben y symiau enfawr sydd wedi cael eu darparu gan Lywodraeth y DU yn uniongyrchol i fusnesau ac unigolion yng Nghymru drwy'r cynlluniau **ffyrlo a chymorth incwm hunangyflogaeth**.

Tua diwedd y Bumed Senedd, roedd cymorth penodol Llywodraeth flaenorol Cymru **i fusnesau manwerthu sy'n gwerthu eitemau nad ydynt yn hanfodol, busnesau lletygarwch, busnesau hamdden a busnesau twristiaeth**, a'r rhai yn y gadwyn gyflenwi, yn canolbwyntio ar rowndiau olynol o grantiau i helpu

busnesau a oedd wedi cau neu wedi cael eu heffeithio'n sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau'r coronafeirws.

Ym mis Mawrth 2021, **cyhoeddodd** Llywodraeth flaenorol Cymru estyniad i'r cynllun sy'n rhoi hoe rhag talu ardrethi busnes ar gyfer y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch fel bod mwy na 70,000 o fusnesau yn y sectorau hynny'n parhau i dalu dim ardrethi o gwbl yn 2021-22.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru Gronfa Adferiad Diwylliannol i roi cymorth hanfodol i'r sector. Erbyn mis **Tachwedd 2020**, dyrannwyd dros £63 miliwn i'r Gronfa. Ac erbyn mis Mawrth 2021, roedd y Gronfa Gweithwyr Llawrydd wedi darparu £18 miliwn o gymorth i 3,500 o weithwyr llawrydd yn y sector creadigol.

Ym mis Mawrth 2021, **clywodd** Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Bumed Senedd bod Llywodraeth Cymru yn gobeithio cael £24 miliwn mewn cyllid canlyniadol yn dilyn **cyhoeddiad** Llywodraeth y DU y byddai'n rhoi cefnogaeth ychwanegol i theatrau, amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol eraill yn Lloegr.

Hefyd, **clywodd y Pwyllgor** gan swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr arian ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn dilyn y map y mae wedi nodi ar gyfer llacio'r cyfyngiadau presennol yn Lloegr.

Mae hyn yn codi cwestiwn pwysig, sydd hefyd yn berthnasol i sectorau eraill. Hynny yw, os yw Llywodraeth newydd Cymru yn dilyn **map** ychydig yn wahanol i Llywodraeth y DU er mwyn llacio'r cyfyngiadau, ac yn dewis ailagor rhai sectorau ar gyflymder gwahanol i Loegr, sut fydd hyn yn effeithio ar lefel y gefnogaeth ariannol y bydd yn gallu ei darparu?

## Y penderfyniadau cynnar sydd eu hangen gan Lywodraeth newydd Cymru

Ar ôl trafod pa gamau gweithredu sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r adferiad economaidd, daeth Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd i'r casgliad y bydd "ar fusnesau sydd wedi teimlo effeithiau gwaethaf y pandemig angen strategaeth gryfach a hwy ar gyfer ymadael â'r pandemig na gweddill yr economi".

Yn yr un modd, mae **Consortiwm Manwerthu Cymru** wedi pwysleisio y bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru wneud dewisiadau dewr a beiddgar i helpu'r sector manwerthu i oroesi'r storm.

O ran polisi, mae ymadroddion fel 'dewr a beiddgar' a 'cryfach a hwy' fel arfer yn golygu un peth yn ymarferol, sef 'drud'. Mae'n siŵr y bydd sectorau eraill, fel awyrofod, **gweithgynhyrchu a dur**, hefyd yn gobeithio y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn cyflwyno ymyriadau yn y flwyddyn i ddod y gellid eu disgrifio mewn ffordd debyg.

Bydd Llywodraeth newydd Cymru'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ran lle mae'n blaenoriaethu cymorth yn y dyfodol. Ar ôl yr etholiad diwethaf, aeth 18 mis heibio cyn i Lywodraeth flaenorol Cymru **nodi** ei dull newydd o gefnogi busnesau. Fodd bynnag, ni fydd Llywodraeth newydd Cymru yr un mor lwcus o ran yr amser a fydd ar gael iddi. Bydd angen iddi wneud y penderfyniadau hyn yn gynnar iawn – mwy neu lai ar ei diwrnod cyntaf mewn grym.

## Ffynonellau allweddol

- Pwyllgor yr Economi, **Seilwaith a Sgiliau, Adferiad tymor hir o COVID-19** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Dewch i lunio'r dyfodol** (2021)

# Tlodi a chefnogi aelwydydd incwm isel

## Cyn y pandemig roedd bron i chwarter y bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Y tlotaf sydd wedi'u taro waethaf gan y flwyddyn ddiwethaf, felly sut y gall Llywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â hyn?

***Gareth Thomas***

Mae mynd i'r afael â thlodi wedi bod yn her barhaus i Lywodraethau olynol Cymru, a bydd hyn yn parhau, gyda'r pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau presennol. Daeth Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd i'r **casgliad** bod tlodi, yn ystod y pandemig, wedi bod yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa mor debygol yw pobl o golli eu swyddi neu eu hincwm, cael eu gadael ar ôl o ran eu haddysg, a hyd yn oed pa mor debygol ydynt o farw o COVID-19.

**Rhybuddiodd** y Sefydliad Astudiaethau Cyllid nad oes amheuaeth y bydd yr arafu yn yr economi yn cael effaith negyddol fawr ar incwm aelwydydd dros y blynyddoedd nesaf wrth i weithwyr golli eu swyddi, ac wrth i enillion ostwng.

**Beth yw tlodi?**


Ystyrir bod person mewn tlodi os yw incwm ei aelwyd yn disgyn yn is na 60% o ganolrif y DU (sef y gwerth canol mewn rhestr o rifau sydd wedi'u trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf).

Canolrif incwm wythnosol aelwydydd yn y DU yw £476 ar ôl costau tai, a 60% o hyn yw tua £286.

### Tueddiadau o ran tlodi cyn y pandemig

Mae tlodi wedi parhau'n ystyfnig o uchel dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gyfradd tlodi yng Nghymru yn uwch nag yng ngwledydd eraill y DU cyn y pandemig. Mae plant yn fwy tebygol na grwpiau oedran eraill o fod mewn tlodi, gyda 31% yn byw mewn tlodi – yr unig grŵp oedran i weld cynnydd yn y ffigurau diweddaraf. **Dywedodd** Chwarae Teg bod menywod a rhieni sengl hefyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi.


**Canran mewn tlodi ar ôl costau tai yng Nghymru, 1999/2000 – 2001/2002 i 2017/2018 – 2019/2020**




Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Households below average income 1994/95 to 2019/20**

Ym mis **Ebrill 2020 roedd cyflogau yng Nghymru** yn is nag ym mhob rhan arall o'r DU, ac eithrio Gogledd Iwerddon a Gogledd-ddwyrain Lloegr, gan gyfrannu at y lefelau cymharol uchel o dlodi mewn gwaith **a nodwyd gan** Sefydliad Joseph Rowntree. Roedd gan bobl sy'n gweithio'n llawn amser ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru gyflog wythnosol canolrifol is na chyfartaledd y DU.

**Enillion wythnosol gros canolrifol i weithwyr amser llawn fesul gweithle, Ebrill 2020**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Employee Earnings in the UK: 2020**


Ar ddechrau'r pandemig, roedd 22% o'r rhai sy'n gweithio yng Nghymru **yn ennill** llai yr awr na'r **Cyflog Byw** 'real' gyda hyn yn arbennig o debygol o ran gweithwyr rhan-amser a menywod. Mae llawer o weithwyr mewn sectorau allweddol fel gofal cymdeithasol a manwerthu bwyd yn ennill llai na'r Cyflog Byw, gyda'r Resolution Foundation **yn tynnu sylw at** y ffaith bod hyn yn wir am dros hanner y gweithwyr gofal rheng flaen.

## Effaith y pandemig ar aelwydydd incwm isel

Pobl o aelwydydd incwm isel sydd wedi bod yn **fwyaf tebygol** o golli eu swyddi, colli incwm neu gael eu rhoi ar ffyrlo ers dechrau'r pandemig. **Canfu'r** Resolution Foundation bod dros 40% o'r enillwyr isaf wedi cael eu heffeithio fel hyn, sef dwbl canran y rhai sy'n ennill y cyflogau uchaf. **Tynnodd y Sefydliad Bevan sylw at y ffaith** bod chwarter aelwydydd Cymru wedi gweld eu hincwm yn gostwng yn ystod y pandemig, ac ar yr un pryd, mae costau byw wedi cynyddu mewn mwy na phedair o bob deg aelwyd.

O ganlyniad, mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol sy'n cefnogi'r rhai ar incwm isel wedi cynyddu'n sylweddol. Ym mis Chwefror 2021 roedd dros 125,000 yn fwy o bobl yng Nghymru yn **hawlio Credyd Cynhwysol** nag ar ddechrau'r pandemig, gyda llawer o'r cynnydd hwn yn digwydd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cynnydd dros dro o £20 yr wythnos i'r Credyd Cynhwysol, tan ddiwedd mis Medi 2021, ond nid yw'n glir beth fydd yn digwydd ar ôl hyn.

**Nifer y bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru; mis Ionawr 2020 i fis Mawrth 2021**




Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Tablau data Credyd Cynhwysol Stat-Xplore**

Bu bron i 160,000 o daliadau'n gysylltiedig â COVID drwy **Gronfa Cymorth Dewisol** Llywodraeth Cymru ers dechrau'r pandemig. Roedd nifer y taliadau ar ei uchaf ym mis Chwefror 2021 – yn bennaf oherwydd bod pobl yn rhoi'r gorau i weithio neu'n lleihau gwaith, oedi o ran hawliadau budd-daliadau neu gynnydd mewn costau byw. O ystyried bod y gronfa wedi cael ei thyfu'n sylweddol, bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried ei rôl yn y dyfodol.

Mae dyled yn debygol o ddod yn broblem fwy yn ystod y misoedd nesaf, wrth i gynlluniau cymorth a **gwaharddiadau troi allan** ddod i ben. Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi **amcangyfrif bod** pobl yng Nghymru wedi cronni gwerth £73 miliwn o ôl-ddyledion biliau aelwydydd yn ystod y pandemig, a'r ffynonellau mwyaf o ôl-ddyledion yw rhent a'r dreth gyngor. **Canfu** Sefydliad Bevan mai aelwydydd incwm isel oedd y mwyaf tebygol o fenthyca yn ystod y pandemig, gyda dros chwarter yr aelwydydd tlotaf wedi benthyca gan ffrindiau a theulu neu wedi defnyddio'u gorddrafft.

Canfu Sefydliad Bevan hefyd fod mwy na chwarter yr aelwydydd incwm isel wedi **ymateb** i amgylchiadau ariannol anodd drwy gwtogi ar wariant ar fwyd i oedolion. Mae **banciau bwyd** a **Llywodraeth Cymru** wedi camu i'r adwy i ddarparu bwyd ychwanegol i bobl sy'n gwarchod eu hunain a'r rhai mewn angen. Fodd bynnag, gyda llawer o aelwydydd tlotach **yn disgwyl** y bydd yn rhaid iddynt wneud toriadau pellach yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried pa gamau i'w cymryd i'w cefnogi.

## Beth y gellir ei wneud i leihau tlodi o fewn y setliad datganoli?

Er bod Budd-dal y Dreth Gyngor a'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi'u datganoli i Gymru fel rhan o ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU, dim ond i raddau bychan y mae nawdd cymdeithasol wedi'i ddatganoli, gyda phenderfyniadau'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Yn yr un modd, nid yw cyfraith cyflogaeth wedi'i datganoli, sy'n golygu bod cyfyngiadau ar yr ysgogiadau y gall Llywodraeth Cymru eu defnyddio i leihau tlodi.

**Argymhellodd** Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Bumed Senedd y dylai Llywodraeth Cymru geisio cael **Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai** wedi'u datganoli'n llawn, ac archwilio'r posibilrwydd o ddatganoli budd-daliadau eraill, ynghyd â phwerau i ychwanegu at fudd-daliadau a gadwyd yn ôl a chreu rhai newydd.

Mae amrywiaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru yn gweithredu ochr yn ochr â'r system nawdd cymdeithasol i roi cymorth i bobl ar incwm isel. Mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree wedi **galw** ar Lywodraeth nesaf Cymru i wella'r cynlluniau hyn i greu 'System Budd-daliadau Cymru'. Byddai hyn yn golygu un pwynt mynediad i bobl ar incwm isel, ac yn blaenoriaethu cymorth gyda chostau tai ac addysg a chymorth brys.

Er mwyn gwella sefyllfa economaidd y rhai sydd mewn gwaith cyflogau isel, bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried sut y mae **argymhellion** y Comisiwn Gwaith Teg yn cydweddu i'w dull cyffredinol, a sut mae am ymateb i drafferthion sy'n wynebu gweithwyr cyflog isel a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig.

Cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Gontract Economaidd** gyda gwaith teg yn un o'i ofynion ar gyfer busnesau sy'n ceisio buddsoddiad, ac mae TUC Cymru **yn credu** y dylid ei gryfhau. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi **galw ar** y llywodraeth nesaf i ddechrau ymgyrch o dan arweiniad busnesau i helpu cwmnïau i ddeall sut y gall gwaith teg weithredu ochr yn ochr â thŵf busnes. Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru hefyd **Fil Drafft Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus**, a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu a chyflawni amcanion gwaith teg, a cheisio defnyddio caffael i hyrwyddo gwaith teg a llesiant.

Er mwyn ceisio sicrhau gwell canlyniadau i bobl ar incwm is, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru y **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** o 31 Mawrth 2021. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y ddyletswydd i ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol helpu i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy ddeall effeithiau posibl, ac ymgynghori â'r rhai y mae penderfyniadau'n effeithio arnynt. Er ei bod yn anodd asesu effaith dyletswyddau cydraddoldeb, mae gan yr offeryn newydd hwn y potensial i newid sut mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau.

Y cwestiwn allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru fydd pa mor effeithiol y gall ddefnyddio'r ysgogiadau hyn i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cynyddol sy'n deillio o'r pandemig, tra'n gweithredu yng nghyd-destun polisi ehangach Llywodraeth y DU.

## Ffynonellau allweddol


- Sefydliad Bevan, **Transforming Wales: how Welsh public services and benefits can reduce poverty and inequality** (2020)
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau **Amlygu'r Materion: anghydraddoldeb a'r pandemig** (2020)
- Y Sefydliad Astudiaethau Ariannol **Living standards, poverty and inequality in the UK: 2020** (2020)
- Sefydliad Joseph Rowntree, **Poverty in Wales 2020**.
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Promoting equality and supporting vulnerable groups** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Dyletswydd economaidd-gymdeithasol: Trosolwg** (2020)

# Cymunedau

- Digartrefedd: o argyfwng i gyfle
- Rhoi'r 'cyhoedd' yn ôl mewn trafnidiaeth gyhoeddus
- Oes modd cyrraedd y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?





# Digartrefedd: o argyfwng i gyfle

## A yw'r pandemig wedi rhoi cyfle i Gymru roi diwedd ar ddigartrefedd?

***Megan Jones a Jonathan Baxter***

Roedd digartrefedd a chysgu allan yn barod yn uchel ar yr agenda wleidyddol yn ystod y Bumed Senedd. Cafodd **deddfwriaeth newydd** ei phasio gyda mwy o bwyslais ar gamau ataliol, cafodd ymchwiliad i ddigartrefedd ei gynnal gan un o bwyllgorau'r Senedd, cafodd **strategaeth newydd ar ddigartrefedd** ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a chafodd **cynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd** ei gyhoeddi gan Crisis.

Erbyn 2019, roedd **grŵp gweithredu arbenigol ar ddigartrefedd** yn cynghori'r Llywodraeth a chafodd adolygiad ei gomisiynu i ymchwilio i'r prawf 'blaenoriaeth angen' sy'n penderfynu faint o gymorth y mae person digartref yn ei gael. Roedd ymgyrch dros yr **hawl gyfreithiol i dai addas** ar y gweill. Roedd y trywydd, felly, yn glir. Fodd bynnag, yr argyfwng iechyd cyhoeddus sydd wedi cyflymu'r daith.

### Gwneud pethau'n wahanol

Sbardunodd **£10 miliwn** o gyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2020 yr ymateb brys i ddigartrefedd yn ystod y pandemig. Roedd **canllawiau statudol newydd** ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi y dylai pobl gael llety dros dro yn ôl yr angen, a rhoddwyd cyllid ychwanegol i sicrhau bod hynny'n digwydd. Roedd y canllawiau newydd yn glir y dylai awdurdodau lleol wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod digartrefedd "**yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto**". Yn y bôn, roedd y canllawiau hyn yn dileu'r rhwystrau cyfreithiol a oedd yn y gorffennol wedi cyfyngu ar bwy oedd â'r hawl i gael cymorth. Roedd Julie James, y Gweinidog perthnasol ar y pryd, yn glir na ddylai unrhyw un fod heb lety a chymorth addas.

### Rhywle i fod yn ddiogel

Erbyn mis Mehefin 2020, roedd dros 2,000 o bobl wedi'u symud i mewn i lety brys dros dro. Ynghyd â'r bobl hynny yr oeddent wedi'u hystyried yn flaenoriaeth cyn y pandemig, fel teuluoedd â phlant, cafodd grwpiau eraill loches hefyd. Felly, cynigiwyd cartref dros dro a chymorth i bobl yr oeddent yn cysgu allan neu'n byw mewn llety anaddas, anniogel ac ansicr. Rhoddwyd y gorau i gynnig lle i gysgu ar


y llawr mewn lloches nos neu i rannu ystafell mewn hostel. Nid 'syrffio soffas' oedd yr opsiwn gorau oedd yn agored i bobl mwyach.

Bu awdurdodau lleol yn gweithio gyda chymdeithasau tai, sefydliadau'r trydydd sector a landlordiaid preifat i helpu pobl i mewn i lety ac i ddarparu'r gwasanaethau cymorth oedd eu hangen arnynt. Drwy weithio gyda phartneriaid newydd, llwyddodd awdurdodau lleol i sicrhau llety hunangynhwysol mewn gwestai, llety gwyliau a llety myfyrwyr – llety y byddai fel arall wedi bod ar gau oherwydd y cyfyngiadau COVID-19.

Mae'n ymddangos bod yr ymdrech cychwynnol i achub bywydau wedi talu yn ôl ar ei ganfed. Hyd at 26 Mehefin 2020, canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol nad oedd unrhyw farwolaethau oherwydd COVID-19 wedi'u cofrestru yng Nghymru ymhlith pobl oedd yn datgan eu bod yn ddigartref. Fodd bynnag, mae dod o hyd i gartrefi i gymaint o bobl wedi rhoi pwysau aruthrol ar lety dros dro.

Erbyn diwedd mis Chwefror 2021, roedd ychydig dros 6,000 o bobl digartref (gan gynnwys bron i 1,300 o blant dibynnol o dan 16 oed) mewn llety dros dro.

**Digartrefedd: Nifer yr unigolion mewn llety dros dro ar ddiwedd pob mis, nifer yr unigolion sydd wedi symud mewn i lety hirdymor addas yn ystod y mis a nifer y bobl sydd wedi'u rhoi mewn llety dros dro yn ystod y mis**




Ffynhonnell: **Llywodraeth Cymru, Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan**

Nid yw'r data hyn wedi bod drwy'r un prosesau gwirio ag ystadegau swyddogol, felly byddant o bosibl yn cael eu hadolygu yn y dyfodol.

## Datrysiad hirdymor

Nid dim ond tai sy'n bwysig wrth drafod digartrefedd. Fodd bynnag, mae cynyddu cyflenwad y **tai fforddiadwy** yn hanfodol i ryddhau'r pwysau ar lety dros dro ac atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Mae angen rhagor o gartrefi fforddiadwy arnom, a chartrefi rhent cymdeithasol yn benodol. Mae'n rhaid cael y maint cywir o gartrefi yn y mannau cywir: cartrefi llai ar gyfer y nifer fawr o bobl sengl sy'n wynebu digartrefedd ynghyd â'r cartrefi mwy sydd eu hangen ar deuluoedd estynedig. Hefyd, mae'n rhaid cael rhagor o gartrefi sy'n diwallu anghenion pobl anabl.

**Beth yw ailgartrefu cyflym?**

Symud pobl i mewn i gartrefi sefydlog, diogel ac addas cyn gynted â phosibl fel datrysiad diofyn pan nad yw'n bosibl atal digartrefedd.

Bydd cynyddu cyflenwad y tai fforddiadwy yn galw am ystod o ddatrysiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n ymdrin ag anghenion penodol y cymunedau perthnasol. Gall datrysiadau fel mentrau hunan-adeiladu helpu mewn cymunedau gwledig lle dim ond ychydig o dai newydd sy'n cael eu hadeiladu a lle y gallai nifer fawr o **ail gartrefi** arwain at bwysau lleol. Hefyd, gall datrysiadau sydd wedi'u harwain gan y gymuned, fel **modelau cydweithredol**, weithio mewn cyd-destunau gwledig a threfol.

Mae'n bosibl bod y pandemig wedi cynnig cyfle i roi diwedd ar ddigartrefedd a rhoi tai wrth galon yr **adferiad**. Byddai adferiad o'r fath yn arwain at dai **modern** a fforddiadwy sy'n effeithlon o ran ynni ac yn **garbon isel**; yn **gwella'r stoc tai presennol** yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; ac yn galluogi **tai gwag** i gael eu defnyddio eto. Gallai hyn arwain at greu rhagor o swyddi a chyfleoedd hyfforddi, yn ogystal â rhagor o gartrefi.

## Sut gellir mynd ati i roi diwedd ar ddigartrefedd?

Yn 2019, sefydlodd Llywodraeth flaenorol Cymru grŵp arbenigol i ateb y cwestiwn hwn. Gwnaeth y **Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd** ymgysylltu â'r sector, darparwyr cymorth, academyddion a'r bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd yn ystod eu bywydau.

Roedd **ail adroddiad** y Grŵp Gweithredu, sef ei brif adroddiad, yn cynnwys fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'n glir bod gwaith y grŵp hwn wedi helpu i lywio'r ymateb i'r pandemig.

Erbyn mis Gorffennaf 2020, mae **£50 miliwn** yn ychwanegol wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi **ail gymal** yr ymateb i ddigartrefedd a thrawsnewid gwasanaethau. Y nod oedd symud i ffwrdd oddi wrth y ddibyniaeth ar lety anaddas dros dro a thuag at ddull sy'n seiliedig ar ailgartrefu cyflym, sef yr hyn y galwodd y Grŵp Gweithredu amdano.

Gan bwysleisio'r cysylltiadau rhwng digartrefedd a materion cymdeithasol ehangach, mae argymhellion y Grŵp Gweithredu yn galw am gamau ataliol cynhwysol. Mae'r dull hwn wedi'i seilio ar y syniad nad yw digartrefedd yn fater sy'n codi ar ei ben ei hun; yn hytrach, mae'n rhaid ymdrin â ffactorau eraill fel tlodi ac ystod eang o **brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod** i osod y sylfeini ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae'r Grŵp Gweithredu yn gofyn bod camau ataliol yn cael eu targedu at grwpiau penodol sydd wedi'u profi i fod yn fwy agored i niwed, fel pobl ifanc bregus a phobl sy'n gadael gofal neu garchar. Hefyd, mae'n gofyn bod y ddyletswydd gyfreithiol i atal digartrefedd yn cael ei hymestyn ar draws y sector cyhoeddus ehangach, a hynny heb adael i wasanaethau tai ysgwyddo'r baich cyfan.

Yn ei **drydydd adroddiad**, sef yr adroddiad terfynol, mae'r Grŵp Gweithredu yn cyflwyno argymhellion ymarferol sydd â'r nod o roi ailgartrefu cyflym wrth galon y system ar gyfer ymdrin â digartrefedd, gan adeiladu ar yr ymateb yn ystod y pandemig. Mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar y partneriaethau sy'n rhaid eu sefydlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus i roi diwedd ar ddigartrefedd mewn modd strategol sydd wedi'i gynllunio ymlaen llaw, gan bwysleisio hefyd effaith polisi ar lefel y Deyrnas Unedig, fel diwygio'r gyfundrefn les.

## Heriau newydd

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd wedi nodi'r camau y mae'n credu sy'n rhaid eu cymryd i roi diwedd ar ddigartrefedd. A fydd Llywodraeth newydd Cymru yn ceisio gweithredu'r argymhellion hynny drwy gynllun gweithredu, neu a fydd yn cyflwyno cynigion amgen? A all y Llywodraeth newydd adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf?

Bydd nifer o heriau mawr yn codi yn y maes polisi hwn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf; er enghraifft:

- A fydd cynnydd mawr yn y galw am wasanaethau digartrefedd pan fydd y gwaharddiad presennol ar droi pobl allan o'u cartrefi yn dod i ben?

- A fydd effaith economaidd lawn y pandemig yn arwain at ragor o ddiswyddiadau a digartrefedd?

- Sut y bydd awdurdodau lleol yn rheoli'r pwysau cynyddol ar lety dros dro?
- A fydd yn rhaid dychwelyd at yr arfer cyn y pandemig o ddogni mynediad at lety dros dro?

Mae yna gydnabyddiaeth eang bod digartrefedd a thai anaddas yn effeithio'n uniongyrchol ar anghydraddoldebau, iechyd, addysg a chyfleoedd bywyd y cenedlaethau presennol a **chenedlaethau'r dyfodol**. Yr her sy'n wynebu Llywodraeth nesaf Cymru yw cynnig yr arweinyddiaeth y mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn galwi amdani i ddarparu'r cartrefi, y camau ataliol a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnom.

Dywedodd Llywodraeth flaenorol Cymru y dylid sicrhau bod digartrefedd "**yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto**". Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi cynnig y cyfle gorau i wireddu'r dyhead hwnnw. Y cwestiwn mawr yw a ellir cyflawni hyn mewn modd ystyrlon yn ystod y Chweched Senedd.

## Ffynonellau allweddol

- Prifysgol Metropolitan Caerdydd, **Evidencing the Impact of the Housing Support Grant in Wales** (2020)
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, **Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru** (2018)
- Crisis, **Everybody in: How to end homelessness in Great Britain** (2018)
- Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, **Argymhellion am y camau y gellid eu cymryd i atal a rhoi diwedd ar gysgu allan** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan**
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth ar ddigartrefedd** (2019)

# Rhoi'r 'cyhoedd' yn ôl mewn trafnidiaeth gyhoeddus

## Mae gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd yn cael amser caled yn ystod y pandemig. Sut y gall polisi trafnidiaeth Cymru eu rhoi nhw ar y trywydd iawn, a pham mae hyn yn bwysig?

***Andrew Minnis***

Mae perfformiad gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd wedi bod yn destun pryder ers blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi achosi cwymp yn nifer y teithwyr ac o ran refeniw. Mae'r ddau ddull teithio yn derbyn cymorth achubol ers mis Mawrth diwethaf.


Bydd adferiad y sector yn bwysig os yw Cymru am gyflawni rhai o'i blaenoriaethau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol. Ac eto, nid yw'n glir faint o alw a fydd am y dulliau trafnidiaeth hyn yn y dyfodol, na hyd yn oed beth fydd eu pwrpas ar ôl y pandemig.

O ran adferiad, bydd rhaid i lunwyr polisi ac ymarferwyr yn y Chweched Senedd ymateb yn effeithiol i roi trafnidiaeth gyhoeddus yn ôl ar y trywydd cywir.

### Beth sydd wedi digwydd i nifer y teithwyr?


Nid peth newydd yw problemau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae **nifer y teithwyr ar y bysiau** yn gostwng ers tua degawd. Mewn cyferbyniad, mae nifer y teithwyr ar y rheilffyrdd **wedi cynyddu'n gyson**, ond roedd trenau gorlawn ac oedran y stoc yn broblemau parhaus i **Drenau Arriva Cymru**, fel y maen nhw i **Reilfyrdd Trafnidiaeth Cymru** ers hynny.

**Mynegai teithiau defnyddwyr ar wasanaethau bysiau lleol mis Ebrill-Mehefin 2010 i fis Hydref-Rhagfyr 2020**




Ffynhonnell: **Ystadegau chwarterol ar gyfer bysiau, Adran Drafnidiaeth y DU**

**Mynegai teithiau ddefnyddwyr rheilffordd ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a Phrydain Fawr, mis Ebrill-Mehefin 2011 i fis Hydref-Rhagfyr 2020**





Ffynhonnell: **Defnydd teithwyr o'r rheilffyrdd, y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd**

Mae effaith y pandemig wedi bod yn ysgytwol. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau a'r rheilffyrdd wedi cwympo'n aruthrol. Mae Llywodraeth Cymru yn **amcangyfrif** y bu gostyngiad 95% yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn nyddiau cynnar y pandemig o'i gymharu â'r defnydd yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

O ystyried yr effaith ar dagfeydd a'r amgylchedd, testun pryder hefyd yw'r ffaith bod y defnydd o geir ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol wedi cynyddu'n gyflymach o lawer nag y mae'r defnydd o fysiau a'r rheilffyrdd - ffaith a briodolir yn rhannol, **yn ôl ymchwil RAC**, i bryderon ynghylch diogelwch a diffyg dewisiadau amgen digonol.

**Amcangyfrif o'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth ym Mhrydain Fawr ers Ebrill 2020**




Ffynhonnell: **Y defnydd o drafnidiaeth yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), Adran Drafnidiaeth y DU**

Noder: Cyhoeddodd Adran Drafnidiaeth y DU **nodyn ar y fethodoleg ar gyfer y data hwn** yn amlinellu ei chyfyngiadau. Mae llinellau sylfaen y ddau ddull teithio yn wahanol.

## Pam mae trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig?

**Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn helpu** gyda materion economaidd-gymdeithasol allweddol megis cynhwysiant cymdeithasol a mynediad i waith. Mae **chwarter yr aelwydydd** heb ddefnydd car ac mae Sefydliad Bevan wedi tynnu sylw at rôl trafnidiaeth gyhoeddus wrth gefnogi cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys i **bobl hŷn** ac i **bobl ag incwm isel**.

**Mae tystiolaeth i Bwyllgor Deisebau'r Senedd** yn nodi bod un o bob pum swydd a gynigir ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn cael ei wrthod oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus wael neu dagfeydd ar y ffyrdd.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dod â buddion i'r amgylchedd. **Mae trafnidiaeth ar y ffyrdd yn achos sylweddol** o lygredd aer ac ansawdd aer gwael, felly gall **bysiau allyriadau isel** a **gwasanaethau rheilffordd** wella ansawdd yr aer. O ran newid hinsawdd, mae adroddiad cynghori diweddaraf **Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU** i Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod 14% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru yn dod o drafnidiaeth ar yr arwyneb yn fwy cyffredinol yn cyfrannu, sy'n uwch fesul pen na'r ffigur ar gyfer y DU gyfan. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd yn nodi bod trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn flaenoriaethau ar gyfer datgarboneiddio yng Nghymru.

## Cymorth achubol i drafnidiaeth gyhoeddus

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ddiwethaf i'r cwymp yn nifer y teithwyr drwy **drefnu cymorth achubol** ar unwaith i wasanaethau bysiau a Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, gan roi rownd gychwynnol o gymorth ariannol brys ym mis Mawrth 2020.

Rhoddwyd **cymorth pellach i'r rheilffordd** ym mis Mai y llynedd, cyn i **Lywodraeth Cymru gyhoeddi** yn yr hydref y byddai Trafnidiaeth Cymru yn dod â gwasanaethau rheilffordd i berchnogaeth gyhoeddus fel eu "gweithredwr pan fetha bopeth arall". Disgwylir i'r trefniant **bara o leiaf bum mlynedd**.

Daeth y gefnogaeth gychwynnol i wasanaethau bysiau yn rhan o'r blaenoriaethau ehangach ar gyfer diwygio ar ffurf y **Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau** newydd.

Gyda'i gilydd, cafodd y ddau ddull teithio gwerth **£200 miliwn o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru** yn 2020-21, gyda mwy i ddod yn 2021-22.

**Diwygio bysiau**

Oherwydd y pandemig, cafodd cynlluniau ar gyfer **Bil Gwasanaethau Bysiau** eu gohirio, felly cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddiwethaf y **Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau**, gan gyfuno cyllid brys â rôl gynyddol i lywodraeth leol a Trafnidiaeth Cymru yn y broses o gynllunio rhwydweithiau.

**Rhagwelodd Llywodraeth Cymru flaenorol** y byddai'r rôl gynyddol hon i'r llywodraeth yn para, ac felly fe **barhaodd i ddatblygu deddfwriaeth** i'w holynydd ei hystyried. Mewn cyferbyniad, mae **gweithredwyr bysiau yn rhagweld** y byddant yn dychwelyd i rwydwaith "masnachol" sy'n llai dibynnol ar arian cyhoeddus, ac felly maen nhw'n barnu bod y ddeddfwriaeth yn ddiangen.

## Beth yw'r cynllun ar gyfer adferiad?

**Mewn llawer o wledydd a dinasoedd** mae eu hadferiad trafnidiaeth yn canolbwyntio ar symudedd cynaliadwy, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus. Yng Nghymru, ac yn ehangach ym Mhrydain Fawr, mae cyrff anllywodraethol megis **Ffocws ar Drafnidiaeth**, yr **Ymgyrch dros Drafnidiaeth Well** a **Transform Cymru** wedi cyhoeddi blaenoriaethau ôl-COVID-19 sy'n cefnogi'r dull hwn.

Ym mis Mawrth fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru flaenorol **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd**, sy'n adlewyrchu ei **blaenoriaethau ehangach ar gyfer ail-greu ar ôl COVID-19**. Un o flaenoriaethau'r strategaeth yw lleihau'r angen i deithio, ynghyd â newid o geir preifat i ddulliau mwy cynaliadwy. Yn arwyddocaol, mae'n cynnwys targed i gynyddu cyfran y siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol o 32% i 45% erbyn 2040.

Ynghyd â diwygio bysiau, bydd llwyddiant y **tair system Metro arfaethedig** yn hanfodol er mwyn adfer trafnidiaeth gyhoeddus, fel y bydd cynlluniau i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 o amgylch Casnewydd a threfniadau llywodraethu trafnidiaeth newydd.

### Dyfodol coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddodd **Comisiwn Burns** argymhellion terfynol ynglŷn â dewisiadau amgen yn lle **ffordd liniaru'r M4**, gan ganolbwyntio ar **drafnidiaeth gyhoeddus**. Er i **Lywodraeth Cymru ddiwethaf eu derbyn**, mae'r argymhellion yn gofyn am fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd nas datganolwyd.

Mae **Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer gwaith archwiliadol i** argymhellion rheilffordd yr Arglwydd Burns. Fodd bynnag, mae **Prif Weinidog y DU yn cefnogi ffordd liniaru**, ac mae'r **Ysgrifennydd Gwladol wedi ei disgrifio** fel yr ateb mwyaf amlwg i dagfeydd.

### Llywodraethu trafnidiaeth

Mae **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** yn cael eu sefydlu er mwy cyflawni rhai o swyddogaethau llywodraeth leol Cymru yn rhanbarthol, gan gynnwys cynllunio trafnidiaeth.

Roedd **Llywodraeth Cymru ddiwethaf** yn ystyried ei chorff trafnidiaeth, sef Trafnidiaeth Cymru, fel y "dewis cyntaf" i gyflenwi ar gyfer y cyd-bwyllgorau corfforedig hyn. Ond nid yw llywodraeth leol **bob amser wedi bod yn glir** ynglŷn â'r berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a'r strwythurau trafnidiaeth rhanbarthol arfaethedig.

Bydd y berthynas hon yn hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r strategaeth drafnidiaeth newydd ac adferiad trafnidiaeth gyhoeddus.

Fodd bynnag, nid yw pob ysgogiad polisi ar gael i Gymru ar hyn o bryd. Yn benodol, gallai cynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio'r rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr fod â goblygiadau mawr i Gymru.

### Diwygio'r rheilffyrdd

Er bod gan Lywodraeth Cymru **bwerau gweithredol**, mae'r rheilffyrdd yn fater a gedwir yn ôl i raddau helaeth. Llywodraeth y DU sydd â rheolaeth gyffredinol ar y system reilffyrdd, gan gynnwys seilwaith rheilffyrdd Cymru y tu allan i **Linellau Craidd y Cymoedd**.

Roedd **Llywodraeth Cymru ddiwethaf** o'r farn bod Cymru ar ei cholled o ran gwariant gwella seilwaith rheilffyrdd, ac fe ddatblygodd **achos strategol dros fuddsoddi**.

**Cyhoeddwyd adolygiad rheilffordd "cynhwysfawr"** gan Lywodraeth Cymru yn 2018 ac, ym mis Medi y llynedd, **dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol** y byddai Papur Gwyn ar ddyfodol y rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr ar y ffordd o fewn 18 mis.

## Pwrpas newydd i drafnidiaeth gyhoeddus?

Ar ôl i'r argyfwng fynd heibio, bydd yn rhaid ateb y cwestiwn o hyd ynglŷn â sut olwg fydd ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl y pandemig.

**Amlygodd Llywodraeth Cymru flaenorol** ansicrwydd ynghylch effaith y pandemig ar y galw am deithio yn y dyfodol. Mae **arolygon barn y cyhoedd a gwaith gan Ffocws ar Drafnidiaeth** yn awgrymu y bydd newid hirdymor i deithio o ran arferion a'r galw, yn enwedig os bydd gweithio o bell yn ymsefydlogi **yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru flaenorol**.

Bydd angen i bolisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru nesaf sicrhau bod gwasanaethau bysiau a gwasanaethau rheilffyrdd yn gallu addasu i'w pwrpas newydd, os ydyw am gadw'r targedau uchelgeisiol yn y strategaeth drafnidiaeth newydd a'u cyrraedd.

Wrth wneud hynny, bydd angen iddi hefyd fynd i'r afael â materion lluosflwydd megis integreiddio â dulliau eraill, cydgysylltu â meysydd polisi sy'n cynhyrchu teithiau megis iechyd a chynllunio defnydd tir, mynd i'r afael â thagfeydd, a rheoli'r galw.

Mae talcen caled o flaen y Llywodraeth newydd yng Nghymru.

## Ffynonellau allweddol


- Ymchwil Gymdeithasol NatCen, **Transport and inequality: An evidence review for the Department for Transport** (2019)
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, **The path to Net Zero and progress on reducing emissions in Wales** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Datganiad ysgrifenedig: COVID-19 - Cynllun Brys ar gyfer Bysiau** (2020)
- Ymchwil y Senedd, **Llywodraeth Cymru yn gwneud dyfodol rheilffyrdd Cymru yn gyhoeddus** (2020)
- Transform Cymru, **A sustainable transport vision for a post-lockdown Wales** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021** (2021)

# Oes modd cyrraedd y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

## Gyda tharged uchelgeisiol i bron ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn cenhedlaeth, a yw'r camau gweithredu'n troi'n ganlyniadau?

***Osian Bowyer***

Ar ddechrau'r Bumed Senedd, cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru y cam dewr o gyhoeddi'r nod uchelgeisiol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gyda tharged i bron ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, roedd yn nodi newid dramatig i gyfeiriad polisi.

### Cymraeg 2050 – strategaeth ar gyfer cenhedlaeth

Mae **Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr** yn strategaeth sy'n rhychwantu cenhedlaeth, ac mae'n cynnwys tair thema allweddol:

- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
- creu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Canfu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Bumed Senedd bod **cefnogaeth eang i'r targed 2050** a'r nodau o fewn y strategaeth i'w gyflawni. Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, fe nododd y byddai angen "adnoddau ychwanegol sylweddol a thargedau clir".


### A yw'r niferoedd yn mynd i'r cyfeiriad cywir?

Ni wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru gilio rhag y rôl ganolog y byddai gan y system addysg wrth greu'r swmp o siaradwyr Cymraeg newydd. Wedi'r cyfan, canfu'r **Data arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015** fod 4 o bob 5 plentyn rhwng 3 a 15 oed yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol neu'r feithrinfa yn bennaf.

Gosododd y strategaeth dargedau heriol ar gyfer yr hirdymor a'r tymor byr. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a


chynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data'n dangos cynnydd cyfyngedig hyd yma – er bod nifer yr athrawon ysgol uwchradd sy'n gallu addysgu yn Gymraeg wedi parhau'n weddol gyson rhwng 2016 a 2020, mae nifer yr athrawon ysgol gynradd sy'n gallu addysgu yn Gymraeg wedi lleihau ychydig.

**Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (ysgol gynradd ac uwchradd)**




Ffynhonnell: **Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2019 i 2020 a Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**

**Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 (saith oed) a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf (data Cyfrifiad Ysgol – CYBLD)**




Ffynhonnell: **Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2019 i 2020 a Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**

Mae'r cynnydd wedi bod yn well o ran y nod i greu 40 o Gylchoedd Meithrin newydd (cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg) erbyn 2021. Ym mis Chwefror 2021, dywedodd **Eluned Morgan, y Gweinidog y Gymraeg blaenorol** "erbyn diwedd y flwyddyn yma [2021], rŷn ni'n gobeithio bydd 46 [Cylch Meithrin], felly byddwn ni wedi mynd tu hwnt i'n targed ni ar hwnna".

Ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y Cylchoedd Meithrin, cafwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n eu mynychu – sef, 10,724 yn 2015-16 ac 11,544 yn 2019-20. Mae tuedd gadarnhaol hefyd yng nghanran y plant sy'n symud o leoliadau blynyddoedd cynnar i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (86% yn 2015-16 i 90% yn 2018-19). Fodd bynnag, dim ond cynnydd bychan yw'r canrannau hyn, ac ni fyddant yn cyflawni'r cynnydd y mae Cymraeg 2050 yn ceisio ei gyflawni ar eu pennau eu hunain.

Ar ben arall y sbectrwm addysgol, mae'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** wedi bod yn sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyflym o fewn prifysgolion, gan ddarparu rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio yn Gymraeg. Mae'r Coleg bellach yn ceisio gwneud yr un peth yn y sector ôl-16. Mae'r Coleg Cymraeg, yn ei **Gynllun Gweithredu ar Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg** yn nodi'r canlynol: "ni fu'r un buddsoddiad a phwyslais strategol ar wneud cynnydd yn y sectorau ôl-orfodol o gymharu, er enghraifft, â'r sector Addysg Uwch".

Yn dilyn galwadau am fuddsoddiad i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16, rhoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **£800,000 ychwanegol i'r Coleg Cymraeg ar gyfer 2021-22**. Mae'n debygol y bydd angen buddsoddiad pellach yn y dyfodol er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050.

## Beth am y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd?

Mae Cymraeg 2050 yn ceisio dyblu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol o 10% (**Data arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015**) i 20% erbyn 2050. Gallai defnydd cynyddol fod yn llawer mwy dylanwadol i dwf iaith na'r niferoedd sy'n ei siarad. Er mwyn i iaith ffynnu, rhaid iddi gael ei defnyddio'n rheolaidd - boed hynny yn y cartref, y swyddfa, yn y siop leol, neu gyda ffrindiau yn y dafarn.

Mae darparu mannau a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig yn eu hardal leol a'u gweithle, yn ganolog i'w hyfywedd a'i thwf. Mae helpu'r rhwydwaith o sefydliadau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith mewn cymunedau mor bwysig ag erioed.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar waith y rhwydwaith hwn. Canfu arolwg ar **effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg** fod y mwyafrif llethol (68%) o weithgareddau rheolaidd wedi dod i ben ar ôl cyhoeddi'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020. Addasodd rhai eu gweithgareddau i fformatau digidol, gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu'n wahanol â chyfranogwyr, ac estyn allan at gynulleidfa ehangach.

## Cefnogi'r iaith i dyfu?

Mae angen ymyriadau, adnoddau a syniadau arloesol amrywiol i helpu'r rhai sy'n dysgu'r iaith ac i annog ei defnydd bob dydd. Gall y rhain amrywio o **bolisïau sy'n cefnogi twf swyddi mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith**, i ddatblygiad y proffesiwn cyfieithu. Mae **Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg** Llywodraeth flaenorol Cymru yn cefnogi datblygiadau technoleg arloesol i gynorthwyo a galluogi pobl i fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Buddsoddwyd hefyd mewn datblygu deallusrwydd artiffisial i ganiatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio gyda 'botiau', er enghraifft. Y gobaith yw y bydd siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'u cynorthwywyr llais, fel Siri ac Alexa.

Ym mis Mawrth 2021, lansiodd Llywodraeth flaenorol Cymru ymgynghoriad ar **Bolisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg**. Mae'r cynigion yn ceisio cydlynu a'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio adnoddau Cymraeg. Gall hyn gynnwys datblygu geiriaduron a therminoleg, neu greu porth canolog i'w cyrchu. Bydd y ffordd y mae hynny'n cael ei ddatblygu yn dibynnu i raddau helaeth ar Lywodraeth newydd Cymru.

## A fydd prif ffrydio'r iaith yn helpu?

Er mwyn i Gymraeg 2050 lwyddo, bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru ymgorffori'r Gymraeg ar draws yr holl bortffolios polisi. Un feirniadaeth a godwyd yn gyson yn ystod y Bumed Senedd oedd bod diffyg 'dylanwad' yn y gwasanaeth sifil gan Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Argymhellodd ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Bumed Senedd ar **Gefnogi a hybu'r Gymraeg** y canlynol:

> Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella statws a rôl Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru… Dylai fod gan yr Uned hefyd rôl draws-lywodraethol ehangach, gan sicrhau bod trefniadau mewnol ar gyfer gweithredu Cymraeg 2050 yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ar draws adrannau'r llywodraeth.

Mae dadl hefyd ynghylch ble y dylai goruchwyliaeth genedlaethol o'r polisi o ran y Gymraeg fod o fewn Llywodraeth Cymru. Fel y **nododd y Gweinidog blaenorol yn ystod sesiwn graffu**:

> I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget… that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language.

Mae £38 miliwn yng Nghyllideb y Gymraeg ar hyn o bryd ar gyfer cefnogi ac hyrwyddo'r iaith, sy'n fach iawn o'i chymharu â chyllidebau adrannol eraill. Mae **Cymdeithas yr Iaith** wedi galw ers tro ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo 1% o gyfanswm ei chyllideb i hyrwyddo'r iaith. Y ffigur ar gyfer 2021-22 yw 0.19%.

## Pawb yn edrych ar Gyfrifiad 2021!

Mae cynllunio ieithyddol yn gymhleth. Mae'n gofyn am ddulliau ac adnoddau systematig ac arloesol, ac yn bwysicaf oll, sicrhau cefnogaeth barhaus pobl Cymru.

Cyn bo hir, bydd pawb yn edrych tuag at ganlyniadau **Cyfrifiad 2021**, sy'n cael ei ystyried yn ffynhonnell ddata awdurdodol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Y Cyfrifiad yw'r ffon fesur a fydd yn cael ei defnyddio i gadarnhau cynnydd ar dargedau Cymraeg 2050 dros y degawdau nesaf. Ynghyd â data o'r **Arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015**, **Arolwg Cenedlaethol Cymru** a'r **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**, bydd yn rhoi data hanfodol i Lywodraeth nesaf Cymru ynghylch cyflwr yr iaith.

Os yw data Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, bydd yn rhoi rhywfaint o gyfiawnhad dros yr uchelgais a'r targedau a osodwyd yn Cymraeg 2050. Byddai lleihad yn nifer y siaradwyr ond yn dwysáu'r pwysau ar Lywodraeth nesaf Cymru i ystyried dull gwahanol.

## Ffynonellau allweddol

- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, **Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg - Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg** (2018)
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Gwireddu'r Uchelgais - Ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru** (2017)
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, **Cefnogi a hybu'r Gymraeg** (2019)
- Llywodraeth Cymru, Strategaeth y Gymraeg: **Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr** (2017)
- Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, **Effaith Covid-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg - canfyddiadau arolwg** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2019-20**

# Addysg a sgiliau

- Dychwelyd i'r ysgol: addysg yn ystod COVID-19
- Sgiliau: y ffordd i ffyniant
- Rhoi diwygiadau mawr ym maes addysg ar waith



# Dychwelyd i'r ysgol: addysg yn ystod COVID-19

Hyd yn oed cyn i gotiau disgyblion fynd nôl ar eu pegiau ysgol, mae pwysau eisoes ar y system addysg i gyflawni llawer mwy. Mae pryderon ynghylch sicrhau nad ydym yn stigmateiddio plant yn golygu bod siarad am 'genhedlaeth goll' sydd angen 'dal i fyny' eisoes yn annymunol. Ac eto, y realiti anochel yw bod misoedd o ddysgu wyneb yn wyneb wedi'u colli.

Mae ein dysgwyr wedi bod yn rhan o '**ganlyniad anuniongyrchol**' y pandemig. Er bod mwy o gwestiynau nag atebion ar hyn o bryd, bydd angen ystyried yr atebion a'u rhoi ar waith yn ofalus yn ystod y Chweched Senedd.


***Siân Thomas***

## Y sefyllfa cyn y pandemig

Gellir dadlau bod Cymru eisoes yn wynebu ymdrech fawr o ran sicrhau canlyniadau addysgol da i'w holl ddysgwyr. Ddegawd ar ôl i Lywodraeth Cymru ar y pryd gydnabod bod y system addysg wedi dangos '**tystiolaeth o fethiant systemig**', roedd pawb yn dal eu gwynt ar adeg cyhoeddi canlyniadau PISA Cymru yn 2018.

Yn sgil cyllid ychwanegol, a **chynllun gweithredu cenedlaethol i gyflawni newid**, ystyriwyd bod y **sgoriau PISA** yn arwydd yr oedd mawr ei angen fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud. Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol bellach rhwng sgoriau Cymru a chyfartaledd yr **OECD** ym mhob un o'r tri phrif faes (darllen, mathemateg a gwyddoniaeth), er mai sgoriau Cymru oedd yr isaf o hyd ymhlith gwledydd y DU. Dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, eu bod yn "gadarnhaol, ond nid perffaith".


### Sut wnaeth Cymru berfformio yn PISA 2018?




Ffynhonnell: Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, **Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2018** (2019)

Mae gan y dysgwyr mwyaf difreintiedig heriau ychwanegol a all eu hatal rhag cyflawni eu potensial yn llawn. Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi buddsoddi £585 miliwn ers 2012 drwy'r **Grant Datblygu Disgyblion (GDD)**, nid oedd y bwlch cyrhaeddiad yr oedd yn ceisio ei gau wedi culhau. Gan amlaf, **mae'r bylchau hyn yn mynd yn fwy wrth i ddysgwyr fynd yn hŷn**. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion yng Nghyfnod Allweddol 4, y ddwy flynedd lle mae dysgwyr fel arfer yn sefyll arholiadau TGAU ac arholiadau eraill.

**Y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (cPYD) a'u cyfoedion**




Ffynhonnell: **StatsCymru**

## Y graddau y mae'r pandemig wedi effeithio ar ddysgwyr

Mae plant a phobl ifanc eu hunain mewn sefyllfa dda i roi eu dyfarniad. Canfu **Arolwg 2021 y Comisiynydd Plant o 20,000 o blant** nad oedd 35% yn teimlo'n hyderus am eu dysgu, o'i gymharu â 25% ym mis Mai 2020. Roedd 63% o bobl ifanc rhwng 12 a 18 oed yn poeni am syrthio ar ei hôl hi.

Mae adroddiadau di-rif yn nodi barn oedolion am sut **y mae colli mwy na hanner blwyddyn o addysg 'wyneb yn wyneb'** wedi effeithio ar ddysgwyr. Un o'r prif bryderon oedd yr amrywiadau o ran yr hyn y mae ysgolion wedi bod yn ei gyflwyno i ddisgyblion.

Mae rhestr hir o effeithiau posibl:

- 'dysgu coll' sy'n golygu y gallai disgyblion danberfformio'n academaidd, a'r effaith ar eu rhagolygon tymor hir;

- colli hyder yn y system arholiadau ac asesu;
- gostyngiadau tymor hir o ran presenoldeb yn yr ysgol, ffactor y gwyddom sy'n allweddol i ganlyniadau addysgol;
- anawsterau wrth symud rhwng blynyddoedd ysgol ac o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- heriau wrth ailennyn diddordeb dysgwyr a mynd i'r afael â chymhelliant isel;
- **naratif 'dal i fyny'** di-fudd ynglŷn â dysgu a gollwyd, sy'n rhoi baich seicolegol dianghenraid ar blant a phobl ifanc; ac
- effaith negyddol ar allu a hyder dysgwyr i gyfathrebu yn Gymraeg lle nad ydynt wedi gallu gwneud hynny gartref.

Yn ogystal â'r materion addysgol amlwg hyn, mae effeithiau ehangach a ragwelir. Efallai y bydd dysgwyr presennol yn ennill llai, gydag un amcangyfrif yn nodi colled o hyd at **£40,000** mewn oes. Mae'r niwed i iechyd corfforol plant a mynychder uwch problemau iechyd meddwl, gan gynnwys gorbryder ac iselder, hefyd yn bryderon difrifol.

Mae effaith economaidd ehangach y pandemig hefyd yn debygol o gynyddu nifer y plant sy'n byw mewn teuluoedd ag incwm isel. Unwaith eto, rhagwelir mai'r dysgwyr mwyaf difreintiedig fydd yn dioddef fwyaf yn y tymor hwy. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2021, canfu'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant **fod 35% o deuluoedd incwm isel a ymatebodd i'w arolwg a gynhaliwyd ledled y DU yn dal i fod heb adnoddau hanfodol ar gyfer dysgu**, gyda diffyg gliniaduron a dyfeisiau gan amlaf. Clywodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd fod '**digon o dystiolaeth**' bod 'gwahaniaethau trawiadol rhwng teuluoedd o ran eu gallu i gefnogi pobl ifanc yn eu dysgu: yr adnoddau sydd ganddyn nhw o'u cwmpas, y brwdfrydedd, yr ymgysylltu, yr ymrwymiad'.

Efallai y bydd gwaith i'w wneud hefyd i ailadeiladu cydberthnasau sydd wedi bod o dan straen sylweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf: y rhai rhwng undebau addysgu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y system addysg; rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgolion; ac efallai, yn bwysicaf oll, ailsefydlu'r cydberthynas rhwng dysgwyr a'u hathrawon.

## Atebion uniongyrchol ac yn y tymor hwy?

Dyma rai o'r atebion uniongyrchol sydd eisoes yn cael eu cynnig neu sydd i'w trafod: **rhagor o gyllid**, gan gynnwys '**Cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau**'; mwy o athrawon a chynorthwywyr dysgu ar lawr gwlad; newid amseroedd tymhorau; a sefydlu ysgolion haf, clybiau gwyliau ac addysg yn y cartref.

Fodd bynnag, yn y tymor hwy, efallai y bydd mwy o gwestiynau nag atebion am y ffordd ymlaen, fel:

- Sut i roi'r gorau i'r 'model diffyg'? Rhoi'r cyfrifoldeb ar y system addysg i gynorthwyo dysgwyr yn hytrach na rhoi pwysau ar ddysgwyr i ddal i fyny.
- A oes angen strategaeth tymor hir i gydgysylltu'r amrywiaeth o ddatrysiadau posibl? Beth yw rôl ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol o ran hyn? Pwy ddylai fod yn gyfrifol am y dull tymor hir hwn? A ddylai **Cymru benodi Tsar Addysg, fel sydd wedi digwydd yn Lloegr**?
- A yw **ysgolion yn cael eu hariannu'n briodol**? Dywed **un amcangyfrif** y bydd yn costio £1.4 biliwn i Gymru adfer o ganlyniad i COVID-19.
- A all enghreifftiau rhyngwladol a phrofiadau hanesyddol helpu i nodi ffyrdd o fynd i'r afael ag achosion mor enbyd o darfu ar addysg? Mae un academydd **wedi awgrymu y gall 'aflonyddwch arwain at newid cadarnhaol os ydych chi'n barod i wneud yr ymdrech'**.
- I ba raddau mae'r system addysg bresennol yn addas at y diben? Ai nawr yw'r 'trobwynt' a'r amser i ailfeddwl yn llwyr?

## Newidiadau mawr i'w cyflawni: iechyd meddwl, y cwricwlwm ac anghenion dysgu ychwanegol

Mae dychweliad plant a phobl ifanc i'r ystafell ddosbarth wedi cael ei **nodi fel cyfle hollbwysig i roi eu llesiant wrth wraidd addysg**. Yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar lesiant, yn syml, mae plant sy'n iach yn feddyliol yn llawer mwy tebygol o ddysgu.

Yn dilyn **pwysau gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd a'i randdeiliaid**, mae Cymru eisoes wedi cymryd camau sylweddol tuag at sefydlu **'Dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl'**. Yr her yn ystod y Chweched Senedd fydd ei gyflawni.

Y tro posibl yn y cynffon yw, ar yr union adeg pan fydd y system addysg yn sicrhau bod plant yn dychwelyd i'r ysgol, bod yn rhaid iddi ymdopi â diwygiadau deddfwriaethol mawr. Mae hyn ar ffurf newidiadau sylweddol i gwricwlwm yr ysgol a chymorth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Efallai y bydd rhai yn dadlau mai dyma yw'r adeg ddelfrydol i gael newidiadau mor sylweddol. Os gall y system addysg weithredu'r tri diwygiad mawr hyn yn llwyddiannus, gellir dadlau bod Cymru wedi gwneud cryn dipyn o'r gwaith caib a rhaw er mwyn creu sylfaen lawer cadarnach i ymateb i'r heriau yn sgil COVID-19.

## Mwy o gwestiynau nag atebion?

Ar hyn o bryd, efallai y bydd llawer mwy o gwestiynau nag atebion i'r system addysg. Mae'r byd y bydd dysgwyr yn symud iddo wedi newid am byth. Nid yn unig y mae'r pandemig wedi tarfu ar eu haddysg, mae hefyd yn golygu efallai y bydd y llwybrau y disgwylid iddynt eu dilyn i'r gweithle, neu i addysg bellach ac uwch, yn amhosibl eu hadnabod. Dim ond nawr mae'r sgiliau a'r doniau sydd eu hangen yn y 'normal newydd' yn dechrau cael eu nodi, ac maent yn debygol o fod yn wahanol i'r rhai yr oedd eu hangen cyn i'r pandemig ddechrau.

Mae COVID-19 wedi cael effaith annileadwy ar y byd. Efallai mai'r cwestiwn mwyaf oll yw pa mor radical y dylai ymateb system addysg Cymru fod.

## Ffynonellau allweddol


- Ymchwil y Senedd, **Sut wnaeth Cymru berfformio yn PISA 2018?** (2019)
- Comisiynydd Plant Cymru, **Coronafeirws a fi - Canlyniadau ein holiadur Ionawr 2021.**
- Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc, ac Addysg, **Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru**.
- Y Sefydliad Polisi Addysg, **Education reopening and catch-up support across the UK** (2021)
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, **The crisis in lost learning calls for a massive national policy response** (2021).
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Ymateb addysg i'r Coronafeirws: Goblygiadau i ysgolion yng Nghymru** (2021)

# Sgiliau: y ffordd i ffyniant

Mae sgiliau'n hanfodol er mwyn gwneud Cymru yn genedl fwy llewyrchus. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon codi lefelau cymwysterau ymysg y boblogaeth. Mae yna heriau eraill y mae'n rhaid eu goresgyn, er enghraifft ysgogi'r galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uwch.

***Phil Boshier***

Mae sgiliau'n **ffactor allweddol** wrth wella cynhyrchiant a chyflog, gyda'r naill beth a'r llall yn llywio **twf economaidd** a gwell safonau byw.

Ers 2008, mae lefelau cymwysterau ymhlith y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru **wedi codi'n sylweddol.**

Eto i gyd, mae Cymru – fel y DU – yng nghanol **problem hirsefydlog o ran cynhyrchiant**, gyda rhannau o'r genedl **yn gaeth** i "gylch o sgiliau isel, cyflogau isel a chynhyrchiant isel".

Mae 'cynhyrchiant sy'n llusgo'i draed' – ochr yn ochr â chynyddu lefelau cymwysterau – yn dangos nad yw unrhyw berthynas rhwng sgiliau a ffyniant yn un syml.

Ymhlith yr heriau a fydd yn wynebu Llywodraeth newydd Cymru mae'r angen i ystyried y galw gan cyflogwyr am sgiliau, gwneud yn siŵr bod cynnwys cymwysterau'n gywir, y niferoedd sy'n dewis dysgu gydol oes a'r ddarpariaeth o hynny.

## Gall lefelau cymhwyster fod yn fwy na'r galw gan gyflogwyr amdanynt

Mae cyflenwi'r farchnad lafur â chymwysterau'n debygol o barhau i dyfu, ond mae'n bosibl na fydd y galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uchel yn mynd bob yn gam â hynny.

Dyma'r hyn y mae un **astudiaeth** yn ei ragweld:

> Bydd y cyflenwad o bobl â chymwysterau uchel iawn yn tyfu'n gyflymach na'r galw am gymwysterau o'r fath.

Mae hyn eisoes yn digwydd yng Nghymru, lle tyfodd lefelau cymwysterau rhwng 2004 a 2018 **yn fwyaf cyflym** yn y galwedigaethau â'r sgiliau isaf, gyda'r gyfradd gorgymhwyso **yn aros yn sefydlog ar oddeutu 40%** yn y ddegawd i 2017.

At hynny, mae cryn ddadlau dros **effaith** awtomeiddio a thechnoleg ar rai swyddi. Gellid creu swyddi newydd a dileu rhai presennol, neu eu newid yn sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai arbenigwyr yn annog pwyll yn erbyn hyn:

> [assuming] the introduction of new technologies will automatically raise the demand for more skilled workers, increase productivity or reduce income inequality in Wales.

## Nid oes gan gyflogwyr ddiddordeb bob amser mewn gweithwyr medrus iawn

Mae llawer o fentrau'n dwyn elw heb weithlu medrus iawn. Mae hynny'n golygu bod llawer o weithwyr yng Nghymru yn gweithio mewn '**ecwilibriwm sgiliau isel**' lle mae galw isel gan gyflogwyr am sgiliau lefel uchel yn golygu nad oes fawr o ofyn na chymhelliant i weithwyr ennill sgiliau lefel uwch.

Er y gall y cwmnïau hyn fod yn rai sy'n dwyn elw, mae ecwilibriwm sgiliau isel yn gysylltiedig â **canlyniadau personol tlotach a chyflog is i'w gweithwyr**.

Fodd bynnag, nid yw cynyddu'r cyflenwad o weithwyr medrus yn unig yn ddigonol, gall olygu nad yw cyflogwyr yn gwneud y defnydd llawnaf o'r sgiliau hynny. Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn **esbonio fel a ganlyn**:


> having skills is not enough; to achieve growth, both for a country but also for an individual, skills must be put to productive use at work.

Goblygiad y polisi yw bod yn rhaid ystyried cyflenwi sgiliau i'r farchnad lafur, a galw gan gyflogwyr am sgiliau lefel uwch, ar yr un pryd.

## Mae canlyniadau negyddol i gamgymhariadau rhwng cyflenwad sgiliau a galw am sgiliau.

Un canlyniad yn unig yw ecwilibriwmau sgiliau isel o'r rhyngweithio rhwng cyflenwad sgiliau a'r galw am sgiliau.

### Canlyniadau rhyngweithio rhwng cyflenwad sgiliau a galw gan gyflogwyr




Ffynhonnell: Addaswyd o **Future of Skills & Lifelong Learning a Low skill traps in sectors and geographies**.

Gall cyflenwad a galw anghymharus arwain at brinder sgiliau a gwargedion o sgiliau. Er bod rhywfaint o gamgymhariad sgiliau yn normal mewn economi ddeinamig, fe **all**:

> slow the adoption of new technologies, cause delays in production, increase labour turnover and reduce productivity.

Mae yna **dri modd** o geisio alinio sgiliau â'r galw:

- Dewis y dysgwr: pan fo darparwyr yn addasu eu cwricwlwm i gyd-fynd â galw'r dysgwyr. Gellir dadlau mai hwn yw'r model sydd ar waith yn sector addysg uwch y DU.
- Cynllunio'r ddarpariaeth yn ganolog: pan fo corff canolog neu ranbarthol yn casglu data a gwybodaeth am y farchnad lafur i ragweld galw gan gyflogwyr am sgiliau fel y gellir cynllunio darpariaeth sgiliau yn ganolog. Dyma sail model y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a ddefnyddir yng Nghymru.

- Penderfyniad y farchnad: pan fo dysgwyr yn rhydd i ddewis eu rhaglenni, ond mae'r rhaglenni sy'n cael eu cynnig yn cael eu llywio yn ôl galw gan gyflogwyr, er enghraifft y rhaglen brentisiaeth.

Mae'r **Arolwg Sgiliau Cyflogwyr** yn nodi dealltwriaeth o gamgymhariadau sgiliau yng Nghymru.

## Mae cyfranogiad mewn addysg yn cwympo gydag oedran, ac mae'r niferoedd sy'n dysgu rhan-amser yn parhau i ostwng

Mae adroddiad gan Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth y DU **yn honni fel a ganlyn**:

> Collectively [changes to employment patterns] point to lifelong learning as the pathway for skills-driven economic growth, building on the skills that individuals have when they leave the education system, and enabling workers to adapt to changing demands for skills.

Fodd bynnag, mae'r data yn creu darlun heriol.


Yn gyffredinol, mae cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant sgiliau **yn disgyn yn sylweddol** gydag oedran, gyda nifer y dysgwyr mewn addysg **bellach** ac **uwch**, a **dysgu yn y gweithle** yn syrthio'n sylweddol o 40 oed ymlaen.

Yn 2019, roedd dros dri chwarter y bobl ifanc 16-18 oed **mewn addysg neu hyfforddiant.** Mae hyn yn syrthio i ychydig dros draean y bobl ifanc 19-24 oed (myfyrwyr addysg uwch yn bennaf) ac mae'n gostwng ymhellach ymhlith pobl 25-30 oed i ychydig dros 10%.

Ar yr un pryd, bu tuedd negyddol sylweddol o'r niferoedd sy'n dysgu rhan-amser mewn addysg **uwch** a **phellach** ac addysgi **oedolion yn y gymuned**.

Er ei bod yn ymddangos bod diwygiadau diweddar i gymorth i fyfyrwyr addysg uwch rhan-amser wedi **ysgogi cynnydd mewn dysgu rhan-amser addysg uwch**, mae dadansoddiad pellach **yn dangos** bod y cynnydd hwn wedi'i lywio gan y Brifysgol Agored. Mae hyn yn awgrymu bod y cwymp mewn dysgu rhan-amser mewn addysg uwch o leiaf, yn peri problem gymhleth i lunwyr polisi, sy'n mynd y tu hwnt i'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael yn unig.

### Y tueddiad o ran dysgwyr rhan-amser yng Nghymru




Ffynhonnell: **StatsCymru**

Mae cyflogwyr yn ffynhonnell allweddol o ddysgu gydol oes. Eto i gyd, er bod cyfran y gweithwyr o Gymru sy'n **cael hyfforddiant yn y gweithle** wedi cynyddu, mae dwyster yr hyfforddiant wedi gostwng. Ar ben hynny, nid yw'r darlun yn un gwastad, gydag un dadansoddiad **yn dangos fel a ganlyn**:

> Benywod, pobl iau, rhai â chymwysterau uwch, deiliaid swyddi â lefel uwch o sgiliau a'r rhai sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus sy'n elwa fwyaf [o hyfforddiant yn y gweithle].

## Mae rhai yn dadlau nad yw cymwysterau sgiliau presennol yn paratoi dysgwyr ar gyfer newid

Mae yna ddadl barhaus ym maes polisi sgiliau ynghylch pa briodoleddau y dylai cyrsiau eu datblygu mewn dysgwyr.

A ddylai darpariaeth sgiliau ganolbwyntio ar baratoi dysgwyr ar gyfer tasgau penodol sy'n gysylltiedig â swydd, neu'n gynnig mwy eang, gyda mwy o bwyslais ar addysg gyffredinol a 'sgiliau meddal' y mae'n wybyddus bod cyflogwyr **yn eu hystyried fel bod o werth**?

Gan herio'r hyn y mae'n ei ystyried fel y status quo, mae **adroddiad a gomisiynwyd gan Colegau Cymru** yn dadlau nad oes digon o addysg gyffredinol yng nghymwysterau galwedigaethol y DU:

> Yn wahanol i'r ysgol a'r brifysgol, mae llawer o Addysg Bellach yn ymwneud â chymwyseddau sy'n berthnasol ar unwaith. [...] Yn lle cymwyseddau mae'n bwysig bod addysg alwedigaethol yn datblygu'r syniad ehangach o alluogrwydd – gan roi'r gallu i ddinasyddion addasu'n gyflym i amgylchiadau sydd yn newid.

## Yr heriau o'n blaenau

Mae sgiliau yn un ffordd allweddol o wneud Cymru yn fwy llewyrchus. Fodd bynnag, er bod lefelau cymwysterau yng Nghymru wedi codi, bydd Llywodraeth newydd Cymru yn wynebu heriau dyfnach eraill os ydyw am wneud yn siŵr bod y system sgiliau yn cyflawni ei photensial i wella ffyniant Cymru.

## Ffynonellau allweddol

- StatsCymru, **Addysg ôl-16 a hyfforddiant**
- Prifysgol Warwick, **Dyfodol Gwaith 2017-27** (2020)
- Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU, **The Future of Lifelong Learning** (2018)

# Rhoi diwygiadau mawr ym maes addysg ar waith

Yn ôl Llywodraeth flaenorol Cymru, nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol cyfredol, na'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion, bellach yn addas at y diben. Roedd y materion hyn yn destun darnau pwysig o ddeddfwriaeth yn y Senedd flaenorol. Yn sgil hynny, mae'r broses o roi'r diwygiadau hyn ar waith wrth i ni adfer o'r pandemig yn debygol o fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru ym maes addysg.

***Michael Dauncey***

O ran blaenoriaethau Llywodraeth newydd Cymru, dim ond adfer o'r pandemig fydd efallai'n bwysicach na'r prif flaenoriaethau ym maes addysg. Yn ôl pob tebyg, bydd y blaenoriaethau addysg yn canolbwyntio ar weithredu dwy Ddeddf a basiwyd yn y Senedd flaenorol, sef:

- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021; a
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r Ddeddf gyntaf yn newid yr hyn a addysgir i bob plentyn 3 i 16 oed, a'r modd y gwneir hynny. Mae'r ail Ddeddf yn newid sut mae dros un o bob pum dysgwr yn cael ei gefnogi mewn perthynas â'i anawsterau dysgu.

## Cwricwlwm i Gymru sy'n seiliedig ar ddibenion

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol, a gyflwynwyd yng Nghymru a Lloegr ym 1988, eisoes wedi cael ei addasu o dan y gyfundrefn ddatganoledig. Y newid mwyaf nodedig oedd cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn 2010, i ddisodli Cyfnod Allweddol 1. Fodd bynnag, mae **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** yn nodi man cychwyn cwricwlwm penodol i Gymru. Ac mae hwn yn newid mawr, sy'n cwmpasu nid yn unig yr hyn sy'n cael ei addysgu, ond hefyd sut mae'r cynnwys hwn yn cael ei addysgu.

Mae'r **Cwricwlwm i Gymru**, sydd ar gyfer plant 3-16 oed, yn symud i ffwrdd o gwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'i ragnodi i raddau helaeth, sef cwricwlwm a **ddisgrifiwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru** fel system nad yw bellach yn addas at ei diben. Nododd "**Dyfodol Llwyddiannus**", sef yr adolygiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn 2015, **fod angen newid y system**, nid yn unig i gefnogi **cenhadaeth Cymru o ran gwella safonau ysgolion**, ond hefyd i roi'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc i ymdopi â byd sy'n wahanol iawn i'r byd yn 1988. Dywedodd hefyd fod gormod o ragnodi a manylu yn rhwystro gallu'r cwricwlwm i ymateb i newidiadau cymdeithasol, economaidd a thechnolegol.

Felly, y bwriad yw y bydd y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar ddibenion, yn hytrach nag ar gynnwys, ac y bydd mwy o bwyslais ar sgiliau ac addysgu'r hyn sy'n bwysig. Bydd gan ysgolion yr hyblygrwydd i lunio eu cwricwlwm eu hunain, a hynny o fewn fframwaith cenedlaethol eang a ddarperir gan y Ddeddf, ynghyd â chodau a chanllawiau cysylltiedig.

Yn unol â'r hyn a **ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses graffu**, bydd yn rhaid i'r sector addysg daro cydbwysedd bregus wrth ddarparu cwricwla ar lefel ysgol sy'n parhau i fod yn ddigon tebyg i'w gilydd, er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion ym mhob ysgol yng Nghymru yn cael profiadau cyfartal.

Bydd strwythur y cwricwlwm yn cael ei seilio ar bedwar diben, chwe Maes Dysgu a Phrofiad, a thri sgil trawsgwricwlaidd. Yn ogystal, bydd angen i gwricwla ysgolion fod yn addas, yn eang ac yn gytbwys, gan hwyluso cynnydd priodol ymhlith disgyblion. Bydd Saesneg, Cymraeg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfennau gorfodol o'r cwricwlwm. Bydd y manylion sy'n weddill yn cael eu nodi mewn codau a chanllawiau statudol.

Cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru **Gwricwlwm dros dro i Gymru** ym mis Ionawr 2020. Wedi i'r **Senedd basio'r ddeddfwriaeth** ym mis Mawrth 2021, mae disgwyl i Lywodraeth newydd Cymru gymryd camau ffurfiol i gadarnhau'r cwricwlwm hwn fel y cwricwlwm statudol ym mhob ysgol a gynhelir (hynny yw, ysgolion a ariennir yn gyhoeddus).

## Pryd fydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno?

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **gynllun gweithredu** ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2021. Yn hytrach na chyflwyno'r holl gwricwlwm ar un dyddiad, roedd yn bwriadu cyflwyno'r system newydd fesul cam.

Ym mis Medi 2022, bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd a Blwyddyn 7 (sef y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd, fel arfer). Yna, bydd yn cael ei gyflwyno i'r grwpiau blwyddyn dilynol wrth i'r disgyblion hynny fynd drwy'r ysgol, hyd nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27.

Yn ystod y **broses o graffu ar y ddeddfwriaeth**, dywedodd y Gweinidog blaenorol nad yw'r amserlen wedi newid yn sgil pandemig COVID-19, ond nododd y byddai'n cael ei hadolygu.

**Cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru**

| Medi 2022 | Medi 2023 | Medi 2024 | Medi 2025 | Medi 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar | Blynyddoedd Cynnar |
| Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd | Ysgol Gynradd |
| Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 7 |
| | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 8 |
| | | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 9 |
| | | | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 10 |
| | | | | Blwyddyn 11 |

Ffynhonnell: **Cwricwlwm i Gymru: Cynllun Gweithredu**

## Anghenion Dysgu Ychwanegol: diwygiadau sy'n effeithio ar dros un o bob pum dysgwr

Gwnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru **ddisgrifio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** fel cynnig i "ailwampio'r system yn llwyr", yn sgil y ffaith nad yw bellach yn addas at ei diben. Mae gwendidau'r system gyfredol wedi cael eu nodi mewn adolygiadau blaenorol **yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer**. Maent yn cynnwys y ffaith bod teuluoedd yn aml yn gorfod brwydro i sicrhau darpariaeth ar gyfer eu plant, diffyg cydweithio rhwng llywodraeth leol ac iechyd, ac anghysondebau o ran sut mae anghenion gwahanol dysgwyr yn cael eu diwallu.

Ar hyn o bryd, mae tua **100,000** o ddisgyblion (**21 %**) yn cael eu cydnabod fel rhai sydd ag "Anghenion Addysgol Arbennig" (AAA), neu "Anghenion Dysgu

Ychwanegol" (ADY), sef y term a ddefnyddir o dan y system newydd. Mae hyn yn golygu:

- bod y dysgwr yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na mwyafrif y dysgwyr eraill sydd o'r un oedran (ac ni ellir ei gynorthwyo drwy ddulliau dysgu gwahaniaethol yn unig); neu
- fod gan y dysgwr anabledd (at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010) sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran; a
- bod yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae anghenion disgyblion AAA yn cael eu diwallu o dan dair lefel o gymorth, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a chymhleth yw'r anghenion hynny. Dim ond 'Datganiadau AAA', sy'n cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod lleol ac sy'n nodi pa ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu anghenion y dysgwr, y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol.

Mae gan Ddeddf 2018 **dri phrif nod**:

- darparu un system i blant o'u genedigaeth, gan gynnwys disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr mewn colegau, waeth beth yw lefel yr angen. Bydd pob dysgwr ag ADY yn cael 'Cynllun Datblygu Unigol' statudol;
- sicrhau cydweithio agosach rhwng y GIG a llywodraeth leol, a hynny drwy swyddogion cyswllt dynodedig ym mhob bwrdd iechyd; a
- darparu system fwy tryloyw er mwyn osgoi achosion o anghytuno a datrys anghydfodau.

## Pryd fydd y system ADY newydd yn dechrau?

Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg blaenorol, Kirsty Williams, **ym mis Chwefror 2021**, fod cynllun i roi'r system ADY newydd ar waith dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ym mis Medi 2021. Ym mis Mawrth, **pleidleisiodd y Senedd** i gymeradwyo'r **Cod ADY**, sef dogfen a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru fel 'llawlyfr gweithredol' ar gyfer sut y bydd y system newydd yn gweithio'n ymarferol.

O fis Medi 2021 ymlaen, bydd yr holl ddysgwyr y nodir o'r newydd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu gosod o dan y system newydd. Bydd y disgyblion y nodwyd eisoes fod ganddynt anghenion addysgu arbennig yn trosglwyddo i'r system newydd, rhwng 2021 a 2024, gan ddechrau â'r disgyblion sydd ag anghenion isel neu gymedrol. Bydd dysgwyr ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth (sydd â datganiadau AAA ar hyn o bryd) yn trosglwyddo i'r system newydd yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Bydd yr amseru hwn hefyd yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y mae'r disgybl yn perthyn iddo.

Erbyn diwedd 2023/24, disgwylir i bob disgybl ADY fod wedi trosglwyddo i'r system newydd.

**Gweithredu'r system newydd o gynlluniau datblygu unigol o dan y gyfundrefn ADY**

**Pwy fydd yn trosglwyddo i'r system ADY newydd o fis Medi 2021?**

Yr holl ddysgwyr y nodir o'r newydd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol

Y disgyblion yn y blynyddoedd a ganlyn sy'n destun cymorth ar hyn o bryd drwy'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol neu'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy:

- Blwyddyn Feithrin 1
- Blwyddyn Feithrin 2
- Blwyddyn 1
- Blwyddyn 3
- Blwyddyn 5
- Blwyddyn 7
- Blwyddyn 10
- Dysgwyr ag ADY sy'n cael eu cadw'n gaeth yn y system cyfiawnder troseddol

**Pwy fydd yn trosglwyddo i'r system ADY newydd o fis Medi 2022 neu'n hwyrach?**

- Disgyblion mewn grwpiau blwyddyn eraill sy'n destun cymorth drwy'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol neu'r cynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy
- Dysgwyr â Datganiadau
- Dysgwyr ôl-16 ag ADY

Ffynhonnell: **Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

## Beth allai atal y diwygiadau rhag cael eu cyflawni'n llwyddiannus?

Drwy gydol y Senedd flaenorol, tynnwyd sylw at ddiffygion a chymhlethdod y drefn o gyllido ysgolion. Mewn **ymchwiliad yn 2019**, canfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nad oedd digon o gyllid yn cyrraedd ysgolion. Yn ei **adroddiad olaf** yn y Senedd flaenorol, gwnaeth y Pwyllgor gais bod adnoddau'n cael eu dosbarthu i ysgolion mewn modd mwy effeithiol – yn enwedig o ystyried graddfa'r diwygiadau y bydd disgwyl i ysgolion eu cyflawni o hyn ymlaen.

Dyrannodd Llywodraeth flaenorol Cymru swm o £20 miliwn, i'w ddosbarthu dros gyfnod o bedair blynedd, ar gyfer ei '**Rhaglen trawsnewid system anghenion dysgu ychwanegol**'. Dywedodd hefyd **y byddai'n ymateb** i'r argymhellion a wnaethpwyd yn **Adolygiad Sibieta** ynghylch cyllid ysgolion. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys cadw'r system ADY newydd dan adolygiad parhaus, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei rhoi ar waith yn unol â'r bwriad, yn ogystal â'r angen posibl am gyllid ychwanegol.

Bydd y broses o gymhwyso'r hyblygrwydd newydd hwn er mwyn darparu cwricwla ar lefel ysgol hefyd yn golygu y bydd angen newid diwylliant, a hynny mewn proffesiwn sydd wedi arfer dysgu cwricwlwm cenedlaethol rhagnodedig am dros 30 mlynedd. Roedd **Llywodraeth flaenorol Cymru yn bwriadu** dyrannu £15 miliwn y flwyddyn tan 2025-26 ar gyfer 'dysgu proffesiynol', er mwyn galluogi'r gweithlu addysg i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Mae Estyn, yr arolygiaeth ysgolion, hefyd **yn ymweld ag ysgolion** i'w helpu i baratoi.

O ran COVID-19, mae rhai rhanddeiliaid, fel **Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)**, o'r farn bod effaith y pandemig yn golygu y dylid gohirio'r cwricwlwm newydd. Mae rhanddeiliaid eraill, fel Estyn, **wedi dweud** y gallai'r ffordd y mae ysgolion wedi gorfod arloesi yn ystod y pandemig olygu eu bod mewn sefyllfa well i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Wrth symud i'r Chweched Senedd, bydd cyd-destun COVID-19 a'r rheidrwydd hirsefydlog i godi safonau addysgol yn bwrw cysgod dros Lywodraeth a sector addysg sydd â'r dasg o roi diwygiadau hollbwysig ar waith.

## Ffynonellau allweddol

- Yr Athro Graham Donaldson, **Dyfodol llwyddiannus: adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu** (2015)
- Senedd Cymru, Gwaith craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
- Senedd Cymru, **Gwaith craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)**
- Ymchwil y Senedd, **Crynodeb o'r Ddeddf: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** (2018)
- Ymchwil y Senedd, **Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd: y cam nesaf yn y gwaith o "ailwampio'n llwyr" system nad yw bellach yn addas at ei diben** (Mawrth 2021)
- Llywodraeth Cymru, **Cwricwlwm i Gymru**





# Yr amgylchedd

- Newid hinsawdd: y llwybr at allyriadau sero
- Aer glân i Gymru
- Tirlun newydd ar gyfer ffermwyr a natur?



# Newid hinsawdd: y llwybr at allyriadau sero

## Gyda tharged o allyriadau sero net erbyn 2050 bellach yn gyfraith, a oes gan Gymru yr ymrwymiad, y ddeddfwriaeth a'r polisi ar waith i gyflawni hyn?

***Chloe Corbyn***

Yn 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru **ddatgan argyfwng hinsawdd**. Ar y pryd, dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd:

> Rydyn ni'n gobeithio y gall y datganiad gan Lywodraeth Cymru heddiw helpu i sbarduno ton o weithredu yma ac yn rhyngwladol. Gan ein cymunedau, busnesau a sefydliadau'n hunain a seneddau a llywodraethau ledled y byd.

Ond beth mae'r datganiad wedi'i olygu o gan graddfa a chyflymder y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd? A yw allyriadau wedi lleihau ar draws pob sector? A sut ddylai newidiadau diweddar i'n deddfwriaeth newid hinsawdd gael eu troi'n gamau gweithredu os ydym am gyrraedd ein targedau uchelgeisiol?

## Y cyd-destun byd-eang

Ddiwedd 2015, cynhaliwyd **unfed Gynhadledd ar hugain y Partïon i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd** (COP21) ym Mharis. Galwyd y cyfarfod yn gyfle tyngedfennol i sicrhau cytundeb rhyngwladol ar ffyrdd o fynd i'r afael â newid hinsawdd. Nod '**Cytundeb Paris**', fel y gelwir y cytundeb nodedig a ddeilliodd o'r gynhadledd, oedd cyfyngu cynhesu byd-eang i lai na 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol, ac yn ddelfrydol, ei gadw o dan 1.5°C.

Yn 2019, cyn pandemig y coronafeirws, nid oedd disgwyl i'r allyriadau byd-eang amcangyfrifedig ar gyfer 2030 gyrraedd nod Cytundeb Paris. Yn lle hynny, roedd disgwyl i allyriadau gyrraedd oddeutu 3°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol. Mae'r uchelgais hinsawdd fyd-eang wedi cynyddu ers hynny, gydag economïau mawr fel Tsieina, Japan a De Korea yn datgan amcanion sero net, **a disgwyl i weinyddiaeth newydd UDA ailymuno â Chytundeb Paris**.

Er nad yw Cymru, na gwledydd eraill y DU, wedi llofnodi Cytundeb Paris, mae'r DU ei hunan wedi gwneud hynny. Fel cyfrannwr sylweddol at allyriadau'r DU – yn enwedig yn y sectorau diwydiant ac amaeth – mae cyfraniad Cymru yn hanfodol i arweinyddiaeth y DU ym maes yr hinsawdd ac o ran gweithredu ar y llwyfan byd-eang.

Bydd y DU yn cynnal trafodaethau hinsawdd nesaf y Cenhedloedd Unedig – **chweched Cynhadledd ar hugain y Partïon (COP 26)** – yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021. Bydd COP 26, a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Tachwedd 2020, yn foment allweddol yn yr ymdrechion i godi'r uchelgais hinsawdd fyd-eang. Disgwylir i wledydd ailgyflwyno eu **Cyfraniadau a Benderfynir yn Genedlaethol (NDCs)** ar gyfer lleihau allyriadau hyd at 2030.

## Fframwaith gweithredu

Roedd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn dynodi newid sylweddol yn agwedd Cymru o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gan symud o'r **targed blynyddol (anstatudol)** o 3% o'r naill flwyddyn i'r llall, fe wnaeth y Ddeddf osod dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod llai o nwyon tŷ gwydr yn cael eu hallyrru. Fe wnaeth hefyd gyflwyno ddull o gyllidebu carbon i fesur cynnydd tuag at leihau allyriadau.

Gosododd y Ddeddf darged ar gyfer gostyngiad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050 a dyletswydd i osod targedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Yn dilyn cyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCC) ym **mis Ebrill** a **mis Rhagfyr** 2017, cafodd y targedau allyriadau dros dro a'r ddwy gyllideb garbon gyntaf **eu gosod mewn rheoliadau** ym mis Rhagfyr 2018.

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel**. Roedd y cynllun cyflawni carbon isel hwn yn nodi sut yr oedd Cymru'n bwriadu mynd ati i gyflawni'r gyllideb garbon gyntaf (2016-2020) a tharged interim 2020 drwy 100 o bolisïau a chynigion ar draws portffolios y Gweinidogion.

**Beth mae net-sero yn ei olygu?**

Mae sero net yn golygu y byddai cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn hafal neu'n llai na'r allyriadau sy'n cael eu tynnu o'r amgylchedd. Mae modd cyflawni hyn drwy gyfuniad o leihau allyriadau a dal allyriadau.

Yn 2019, fe wnaeth CCC **gynghori Llywodraeth Cymru** i ddiwygio ei tharged ar gyfer 2050 a lleihau allyriadau 95% erbyn y dyddiad hwnnw. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru **dderbyn y cyngor hwn**, a datganodd ei huchelgais i gyflawni'r targed sero net erbyn 2050. Roedd y **cyngor diwygiedig gan CCC ym mis Rhagfyr 2020** yn argymell y dylai Cymru osod y targed mwy uchelgeisiol o sero net erbyn 2050 a mynd ar ei drywydd.

Ym mis Chwefror 2021, gosododd Llywodraeth Cymru **bedair set arall o reoliadau** er mwyn:

- newid targed allyriadau 2050 i sero net;
- cynyddu targed 2030 i 63% (o 45%) a tharged 2040 i 89% (o 67%), a;
- gosod y drydedd gyllideb garbon (2026-2030).

## Y cynnydd hyd yn hyn

Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru wedi gostwng 31% ers 1990. Mae'r **data mwyaf diweddar** yn dangos bod allyriadau Cymru wedi gostwng 8% yn 2018, a'u bod wedi gostwng bron 20% rhwng 2016 a 2018. Fel y mae pethau, mae'n edrych fel bod Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd ei tharged allyriadau 2020, sef gostyngiad o 27% yn erbyn llinell sylfaen 1990, os nad oedd allyriadau'n cynyddu yn 2019 a 2020. Ni fydd hyn yn cael ei gadarnhau nes bydd y data ar gael yn ddiweddarach eleni.

Nid yw'r gostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfartal ar draws pob sector. Mae rhan helaethaf y gostyngiadau yn deillio o'r sector pŵer, a oedd yn gyfrifol am 85% o gyfanswm y gostyngiadau allyriadau rhwng 2016 a 2018. Mae allyriadau o'r sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu (-9%) a chyflenwi tanwydd (-7%) hefyd wedi gostwng, ond gostyngodd allyriadau ym mhob sector arall 1% yn unig ar gyfartaledd. Yn benodol, cyfrannodd arafu a chau **pwerdy glo Aberddawan** at 55% o gyfanswm y cwymp mewn allyriadau rhwng 2016 a 2020.

Ni newidiodd allyriadau amaethyddiaeth a defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth rhwng 2016 a 2018, a dim ond 13% fu'r gostyngiad ers 1990. Mae allyriadau o dda byw yn cyfrif am 54% o allyriadau amaethyddol. Fe wnaeth Cymru ostwng ei **tharged plannu coed** o 5,000 hectar y flwyddyn i 4,000 hectar y flwyddyn. Mae coed yn chwarae rhan hanfodol o ran **dal allyriadau** o'r atmosffer. Mae'n siomedig mai dim ond **80 hectar o goed** a gafodd eu plannu yng Nghymru yn 2019. Mae'r gwaith o blannu **Coedwig Genedlaethol** wedi cychwyn o ddifrif eleni, ac roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn gobeithio y byddai **dull newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy** yn helpu i fynd i'r afael ag allyriadau o'r sector amaethyddol.

Trafnidiaeth ar yr arwyneb yw'r drydedd ffynhonnell allyriadau fwyaf yng Nghymru. Rhwng 2016 a 2018, bu gostyngiad o 2% yn yr allyriadau o drafnidiaeth ar yr arwyneb, ond yn 2018, roedd yr allyriadau yn dal i fod 3% yn uwch na'r llinell sylfaen. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **strategaeth drafnidiaeth newydd**, yn canolbwyntio ar deithio llesol a chefnogi'r newid i gerbydau trydan. Amser a ddengys a fydd hyn yn arwain at newid o'n hallyriadau ystyfnig o uchel a ddaw o drafnidiaeth.

Mae'r allyriadau a ddaw o adeiladau hefyd wedi cynyddu ers 2014. Mae cyfradd **gosod capasiti ynni adnewyddadwy newydd** wedi gostwng bob blwyddyn ers 2015. Ac roedd cynnydd o 29% mewn allyriadau hedfan rhwng 2016 a 2018. Ond mae ambell lygedyn o obaith. Mae allyriadau'r sector gwastraff yn parhau i leihau, a nod cyflwyno **strategaeth economi gylchol newydd** yw manteisio ar gynnydd Cymru hyd yma, a'i safle fel y drydedd wlad orau yn y byd am ailgylchu.

## Ydyn ni'n gwneud digon?

Er y bu rhai gostyngiadau mewn allyriadau yn y blynyddoedd diwethaf, ac ymrwymiad o'r newydd gan Lywodraeth flaenorol Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae llawer mwy i'w wneud o hyd. Disgwylir i'r ail gynllun cyflawni carbon isel gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021, a bydd yn nodi polisïau a chynigion i gyflawni'r ail gyllideb garbon. Fe wnaeth CCC **argymell** y dylai'r cynllun fynd ymhellach, gan nodi gweledigaeth hirdymor i gyflawni'r nod sero net.

Bydd gan Aelodau'r Chweched Senedd rôl ganolog o ran craffu ar y cynllun a dwyn Llywodraeth newydd Cymru i gyfrif o ran y cynnydd. Mae CCC **wedi amcangyfrif mai costau** cyrraedd y targedau yw £3 biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2030 i Gymru – felly bydd craffu ar wariant Llywodraeth Cymru ar yr agenda datgarboneiddio, ac a yw'n cyflawni'r uchelgais, hefyd yn allweddol.

Mae **CCC yn nodi** bod bylchau yn parhau – yn enwedig y diffyg dangosyddion sylfaenol i fesur cynnydd, a diffyg strategaeth gydlynol ar draws yr economi i leihau allyriadau erbyn 2050. Mae'n rhybuddio nad yw Cymru ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyrraedd targed lleihau allyriadau o 80% erbyn 2050, heb sôn am sero net. Bydd cynllun cyflawni carbon isel nesaf Llywodraeth Cymru yn hanfodol ar gyfer asesu pa mor ddifrifol yw Cymru ynglŷn â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd** (2019)
- Ymchwil y Senedd, **Cytundeb Paris ar newid yn yr hinsawdd – Crynodeb** (2016)
- Llywodraeth Cymru, **Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel** (2019)
- Llywodraeth Cymru, **Cymru yn derbyn targed y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd o weld lleihad o 95% mewn allyriadau** (2019)
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, **The path to Net Zero and progress on reducing emissions in Wales** (2020)
- **Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd** (Cymru) 2021

# Aer glân i Gymru

## Mae enghreifftiau yng Nghymru o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU. Pam mae ansawdd aer yn bwysig a beth y gallwn ei ddisgwyl i fynd i'r afael â'r broblem llygredd yn ystod y Chweched Senedd?

***Francesca Howorth***

Mae enghreifftiau yng Nghymru o'r ansawdd aer gwaethaf yn y DU. Ar gyfer Caerdydd a Phort Talbot **nodwyd lefelau mater gronynnol uwch** na Birmingham a Manceinion, a ffordd yng Nghaerffili **sydd wedi cofnodi'r lefelau uchaf o lygredd y tu allan i Lundain**. Mae rhai ardaloedd yng Nghymru wedi torri rheoliadau'r UE ers sawl blwyddyn, gyda Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn cael ei herlyn yn y pen draw am ei diffyg gweithredu.

### Pam mae ansawdd aer yn bwysig?

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi disgrifio llygredd aer yn yr awyr agored fel y risg amgylcheddol mwyaf i iechyd. Mae'n amcangyfrif y **gellir priodoli rhwng 1,000-1,400 o farwolaethau'r flwyddyn yng Nghymru i fod yn agored i lygredd aer**.

Mae costau cymdeithasol enfawr i ansawdd aer gwael yn sgîl ei effeithiau ar iechyd, a'i effeithiau andwyol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Ond nid mater yn ymwneud ag iechyd neu'r amgylchedd yn unig yw mynd i'r afael â llygredd aer, mae'n fater o gyfiawnder cymdeithasol hefyd. **Mae ymchwilwyr wedi disgrifio** 'effaith peryglu triphlyg', lle mae'r rhai sydd â statws economaidd-gymdeithasol isel yn agored i lefelau uwch o lygredd oherwydd ble maen nhw'n byw neu'n gweithio. Canfu **astudiaeth yn 2016** fod llygredd aer yn waeth yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Daeth i'r casgliad bod cysylltiad annatod rhwng llygredd aer, amddifadedd ac iechyd.

Ar raddfa fyd-eang, mae **Amcangyfrifon Banc y Byd** yn nodi mai'r gost sy'n gysylltiedig â niwed iechyd o lygredd aer yw $5.7 triliwn, sy'n cyfateb i 4.8% o gynnyrch domestig gros (GDP) byd-eang.

## Sut mae ansawdd aer yn cael ei reoli?


Mae terfynau llygredd aer yng Nghymru yn cael eu gosod gan amrywiaeth o reoliadau'r DU ac Ewrop. Mae'r **Gyfarwyddeb Ansawdd Aer amgylchynol yr Undeb Ewropeaidd** yn gosod terfynau sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer rhai llygryddion yr awyr agored. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae'r terfynau hyn **wedi'u dargadw**.

Mae rheoli ansawdd aer yng Nghymru yn digwydd yn bennaf ar lefel awdurdodau lleol gan ddefnyddio **amrywiaeth o ddulliau monitro**. Mae awdurdodau lleol yn llunio adroddiadau cynnydd blynyddol ac yn nodi unrhyw fannau ble mae'n debygol nad yw'r terfynau yn cael eu cyflawni. Yn yr achosion hyn, rhaid iddynt weithredu Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA). Mae **44 Ardal Rheoli Ansawdd Aer ar hyn o bryd ledled Cymru**.

## Pa lygryddion sy'n peri'r pryder mwyaf?

Y prif lygryddion aer sy'n effeithio ar iechyd yw nitrogen deuocsid ($NO_2$), ôson ($O_3$) a mater gronynnol, bach arall (PM). PM yw'r term am gymysgedd o ronynnau solet a defnynnau hylif a geir yn yr awyr ac fe'i dosberthir yn ôl maint, gyda $PM_{2.5}$ yn cynrychioli gronynnau llai na $PM_{10}$. Ystyrir $PM_{2.5}$ **fel y dosbarth o ronynnau mwyaf peryglus** i iechyd.


**Map 1**





**Crynodiad cefndir cymedrig wedi'i fodelu o $PM_{10}$ (Map 1), $PM_{2.5}$ (Map 2) $NO_2$ (Map 3), 2019**

Ffynhonnell: **Data llygredd cefndir wedi'i fodelu, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

**Map 2**




**Map 3**




Mae'r mwyafrif o achosion o dorri'r rheolau o ran terfynau'r UE yn y DU yn ganlyniad i $NO_2$ ochr y ffordd, y daw **80% ohono o gludiant ffordd**. O'r 44 Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yng Nghymru, mae pob un wedi'i datgan ar gyfer $NO_2$, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot sydd wedi'i datgan ar gyfer $PM_{10}$. Mae Ardal Rheoli Ansawdd Aer Port Talbot yn cynnwys tir ac eiddo rhwng y gwaith dur a thraffordd yr M4.

Yn 2018, yn dilyn torri terfynau $NO_2$, bu'n rhaid i **Lywodraeth Cymru ar y pryd gael ei dwyn i'r llys**. Dyfarnodd yr Uchel Lys nad oedd adran Cymru o gynllun y DU i fynd i'r afael â $NO_2$ ochr y ffordd yn bodloni gofynion yr UE. Nododd hefyd fod rheoli gormodedd o $NO_2$ ar y draffordd a'r rhwydwaith cefnffyrdd yn gyfrifoldeb uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd **ei chynllun atodol i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd** yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

I fynd i'r afael ag allyriadau $NO_2$, **cyflwynwyd terfynau cyflymder 50 milltir yr awr** mewn pum safle ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffordd. Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf ar grynodiadau $NO_2$ ochr y ffordd yn dweud er bod allyriadau yn lleihau ym mhob un o'r pum safle, mae'r sefyllfa'n parhau'n "gymhleth".

Ym mis Mawrth 2021 lansiodd Llywodraeth Cymru ar y pryd **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** newydd. Mae'n cynnwys hierarchaeth trafnidiaeth cynaliadwy sy'n gosod teithio mewn car preifat ar waelod y rhestr. Mae'r strategaeth hefyd yn gosod targed i 45% o deithiau gael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, drwy gerdded neu drwy feicio erbyn 2040. Amcangyfrifir, ar hyn o bryd, bod 32% o deithiau yn cael eu gwneud fel hyn.

## A oedd y pandemig o fudd o ran ansawdd aer?

Mae'n gymhleth.

Ar raddfa fyd-eang, arweiniodd y cyfyngiadau symud o ganlyniad i bandemig y coronafeirws at y **gostyngiad mwyaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr** a gofnodwyd erioed. Canfu **gwaith ymchwil a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021** y byddai angen i allyriadau ostwng yn ôl yr hyn sy'n cyfateb i gyfyngiadau symud byd-eang bob dwy flynedd, yn fras, i gyflawni nodau **Cytundeb Paris ar Newid Hinsawdd**.

Yn 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru ar y pryd adroddiad gan ei Phanel Cynghori annibynnol ar Aer Glân i edrych yn fanwl ar **effaith y pandemig ar ansawdd aer yng Nghymru**. Canfu bod lefelau $NO_2$ wedi gostwng 36% ar gyfartaledd mewn safleoedd monitro ar ochr y ffordd am y cyfnod rhwng mis Chwefror a mis Mai 2020.

Ond mae'r adroddiad yn dangos darlun cymysg. Er i'r cyfyngiadau symud arwain at lai o draffig a lefelau $NO_2$ is, cofnodwyd cynnydd o ran lefelau PM. Er y gellir priodoli hyn yn rhannol i dywydd, awgrymir y gallai hyn hefyd fod oherwydd cynnydd mewn gwastraff a oedd yn cael ei losgi, oherwydd bod canolfannau gwastraff cartref ac ailgylchu wedi cau yn ystod y cyfyngiadau.

Yn ei **ymateb i'r adroddiad**, dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y dadansoddiad yn dangos bod cyflawni newid sylweddol o ran ymddygiadau teithio yn bosibl. Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru **ei nod** i 30% o weithlu Cymru weithio o bell.

## Beth allai fod ar y gorwel i fynd i'r afael â phroblem llygredd Cymru?

Ym mis Awst 2020, lansiodd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru ei **Chynllun Aer Glân ar gyfer Cymru: Awyr Iach, Cymru Iach**.

Nododd y Cynllun amrywiaeth o gamau gweithredu:

- buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol;
- cryfhau'r rheolaeth ar allyriadau mewn amaethyddiaeth - **cyflwynodd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru reoliadau dadleuol** a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2021;
- cyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân i Gymru yn y gwanwyn 2021, gan ystyried canfyddiadau **adolygiad o daliadau defnyddwyr ffyrdd**; a
- gweithredu gwasanaeth llygredd aer a monitro cenedlaethol erbyn mis Rhagfyr 2022.

Nododd y Cynllun hefyd fwriad i gyflwyno Deddf Aer Glân newydd i Gymru. Ym mis Ionawr 2021, **cyhoeddodd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru Bapur Gwyn** yn nodi nifer o gynigion deddfwriaethol.

Mae amserlen ddangosol yn y Papur Gwyn yn awgrymu y byddai'r gwaith o ddrafftio'r Bil yn cychwyn yn 2022. Croesawodd **Awyr Iach Cymru y cynlluniau** ond dywed bod yr amserlen ar gyfer deddfu yn "llawer rhy araf". Mae'n tynnu sylw at y ffaith y "gallai fod mor hwyr â 2024 cyn i unrhyw reoliadau ddod i rym".

Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i:

- gyflwyno gofyniad cyfreithiol i Gynllun neu Strategaeth Aer Glân gael ei adolygu o leiaf bob 5 mlynedd;
- cryfhau pwerau i awdurdodau lleol fynd i'r afael â cherbydau sy'n segura, gan gynnwys pwerau i gynyddu swm y gosb sefydlog y gellir ei rhoi;
- cyflwyno Trefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol well; a
- deddfu ar gyfer targed newydd o ran lefelau PM, gan ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) - mae **Sefydliad Iechyd y Byd wedi argymell** lefel o ran $PM_{2.5}$, sef hanner terfyn presennol yr UE.

Mae hefyd yn gwneud nifer o gynigion mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg lle mae'n drosedd allyrru mwg o simnai adeilad oni bai ei fod yn defnyddio tanwydd cymeradwy neu beiriant cymeradwy. Mae'n cynnig bod y pwerau hyn yn cael eu hymestyn i gynnwys llosgi yn yr awyr agored fel coelcerthi.

Ochr yn ochr â'i Phapur Gwyn, lansiodd Llywodraeth ddiweddaraf Cymru **ymgynghoriad** ar gynigion i leihau allyriadau sy'n deillio o losgi tanwydd solet yn y cartref. Mae'n cynnig bod gwaharddiad ar werthu pren gwlyb a thanwydd glo traddodiadol, sef tanwydd y mae rhai pobl mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu arno i gynhesu eu cartrefi. Mae camau tebyg eisoes **wedi'u nodi yn Lloegr**.

Cawn weld p'un a yw'r cynlluniau hyn yn chwa o awyr iach neu a yw'r rhagolygon yn parhau'n niwlog. Yr hyn sy'n amlwg yw y bydd ansawdd aer yn her fawr i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â hi.

## Ffynonellau allweddol

- Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Taflen ffeithiau llygredd aer ac iechyd** (2020)
- Papur Briffio gan Ymchwil y Senedd ar **Ansawdd aer** (2019)
- Llywodraeth Cymru, **Ansawdd aer yng Nghymru**
- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach**.
- Llywodraeth Cymru, **Mynd i'r afael â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd yng Nghymru**
- Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn ar Fil Aer Glân** (Cymru)

# Tirlun newydd ar gyfer ffermwyr a natur?

## Yn ystod y Chweched Senedd, byddwn yn gweld y newidiadau mwyaf i bolisïau rheoli tir mewn degawdau. Beth allai hyn ei olygu i gymunedau gwledig a'r amgylchedd naturiol?


***Katy Orford***

Yn sgil ymadael â'r UE, bydd Cymru yn gallu datblygu cynlluniau amaethyddol unigryw. Mae gan bolisi ffermio, sydd wedi'i ddatganoli, oblygiadau o ran amgylchedd, economi a diwylliant Cymru, ac mae'r pwnc hwn wedi bod yn bwnc llosg ers refferendwm yr UE.

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn cynnig newid polisi ffermio yn sylfaenol er mwyn cefnogi dull ehangach o reoli tir yn gynaliadwy, gan symud i ffwrdd o'r drefn o dalu amaethwyr yn benodol am gynhyrchu bwyd. Er bod amgylcheddwyr wedi croesawu'r dull hwn, mae tensiynau wedi dod i'r amlwg mewn cymunedau ffermio, wrth i'r undebau alw am daliadau am gynhyrchu bwyd.

Bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun tirlun cymhleth o ran masnach bwyd-amaeth, ac yng nghyd-destun yr argyfyngau hinsawdd a natur.

**Ystadegau ffermio Cymru (mae'r ffigurau hyn ar gyfer 2018 neu 2019, yn dibynnu ar y rhai diweddaraf sydd ar gael)**




Ffynhonnell: **Arolwg Mehefin, Amaethyddiaeth yn y DU 2019 , Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019, Ffeithiau a ffigurau amaethyddiaeth: 2019**.


## Cefnu ar Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE

Ymunodd y DU â **Pholisi Amaethyddol Cyffredin yr UE** (PAC) ym 1973. Yn wreiddiol, roedd ffermwyr yn cael incwm i ategu'r prisiau a oedd yn cael eu talu am eu cynnyrch, a hynny er mwyn sicrhau diogelwch bwyd a safonau byw da. Fodd bynnag, roedd y drefn hon yn annog ffermwyr i or-gynhyrchu, gan arwain at y **'llynnoedd gwin' a'r 'mynyddoedd menyn'** bondigrybwyll a welwyd ar ddiwedd yr 20fed ganrif.

**Cafwyd diwygiadau mawr i'r PAC yn 2005**, pan symudodd y system tuag at gyfundrefn o daliadau a oedd yn seiliedig yn fras ar arwynebedd y tir a oedd yn cael ei ffermio. Roedd ffermwyr yn cael taliadau uniongyrchol (yn fwyaf diweddar drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)), ynghyd â chymorth datblygu gwledig (er enghraifft, cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir).

Mae llawer o ffermwyr yng Nghymru wedi dibynnu'n sylweddol ar y PAC am eu hincwm, yn enwedig Cynllun y Taliad Sylfaenol, **a hynny i raddau mwy helaeth na'r hyn a welwyd mewn unrhyw wlad arall yn y DU**.

## Incwm ffermydd




* LFA = Ardal Lai Ffafriol, ** BPS = Cynllun y Taliad Sylfaenol

Ffynhonnell: Yr Arolwg Busnesau Fferm (data fel yr adroddwyd arnynt yn **Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019**)

Mae'r DU bellach wedi cefnu ar y PAC, **ac mae system interim sy'n debyg i'r PAC yn cael ei chynnal** o dan Ddeddf Amaethyddiaeth y DU 2020 hyd nes y bydd Cymru'n pontio i gynlluniau domestig newydd. Bu **anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU** ynghylch a gyflawnwyd yr addewid i ddarparu arian cyfatebol llawn ar gyfer y cynlluniau dan sylw. Daw hyn yn sgil **dehongliadau gwahanol** o gyllid parhaus yr UE a gaiff ei ddarparu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Mae rhai o'r farn bod cefnu ar y PAC yn **gyfle i wneud newidiadau radical**, gan ddadlau bod y PAC **wedi llesteirio'r broses o wella'r amgylchedd**, wedi dosbarthu taliadau mewn modd annheg (gan fod ffermydd mwy yn cael mwy o gymorth), ac wedi bod yn **rhy gymhleth**.

Mae eraill **yn parhau i fod yn wyliadwrus**, o ystyried y ddibyniaeth drom ar incwm Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE a phandemig COVID-19.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Bapur Gwyn** ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (y bwriedir ei gyflwyno yn nhymor yr haf 2022), a hynny at ddibenion sefydlu cynlluniau rheoli tir newydd.

## Polisi ffermio yn y dyfodol sy'n seiliedig ar nwyddau cyhoeddus?

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn nodi dull gwahanol ac uchelgeisiol iawn o ddarparu cymorth amaethyddol. Yn seiliedig ar yr egwyddor o reoli tir yn **gynaliadwy**, byddai'r polisi dan sylw yn gwobrwyo ffermwyr am ddarparu 'nwyddau cyhoeddus' o'r tir, gan gynnwys deilliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Gellir dadlau bod y polisi hwn yn mynd y tu hwnt i'r PAC, gan gefnogi gwaith ehangach i wella gweithgarwch rheoli tir.

Yn wahanol i'r PAC, ni fyddai ffermwyr yn cael cymorth penodol ar gyfer cynhyrchu bwyd. **Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau**, yn sgil y ffaith bod gan fwyd werth ar y farchnad, ni ddylid ei ystyried yn fudd cyhoeddus, ac felly ni ddylai'r wladwriaeth ei ariannu'n uniongyrchol.

Yn hytrach, byddai'r cyllid a ddarperir yn canolbwyntio ar fuddion cynhyrchu bwyd cynaliadwy na ellir eu marchnata, megis gwella bioamrywiaeth a dal a storio carbon. Gallai hyn ddigwydd drwy wella amrywiaeth blodau gwyllt ar ffermydd, neu drwy blannu coed ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

Mae **amgylcheddwyr** wedi croesawu'r cynigion hyn yn fras, gan dynnu sylw at yr argyfyngau hinsawdd a natur sydd wedi'u datgan. **Mae rhai yn galw am** gyflymu'r broses o bontio i'r drefn newydd. Ar y llaw arall, **mae ffermwyr yn dadlau** y dylai cynhyrchu bwyd fod yn gymwys i gael cymorth penodol, gan fynegi **pryderon** ynghylch dyfodol cymunedau gwledig os yw'r cymorth uniongyrchol hwn yn cael ei golli.

O dan y cynigion newydd, mae'n bosibl y bydd gofyn i ffermydd arallgyfeirio eu gweithgarwch er mwyn atgyfnerthu **gwytnwch eu busnesau**, ac mae nifer wedi croesawu hynny. Fodd bynnag, **mae academyddion wedi rhybuddio** bod busnesau fferm yng Nghymru yn wynebu sawl rhwystr wrth geisio arallgyfeirio eu gweithgarwch, fel ansawdd tir gwael yn yr ucheldiroedd a phellter o ganolfannau poblogaeth.

## Tirlun masnach newydd, yn ddomestig ac yn rhyngwladol, ar gyfer y sector bwyd-amaeth

Bydd polisi amaethyddol y dyfodol yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun cytundebau masnach newydd. **Mae ffermwyr yn galw** am strategaeth fasnach sy'n ceisio sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i farchnadoedd tramor, gan ddiogelu safonau uchel Cymru o ran ei bwyd a'i gweithgarwch ffermio.

**Ystadegau masnach bwyd-amaeth (yn ôl gwerth)**

Daw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o 2019, cyn i'r DU ymadael â Marchnad Gyffredin yr UE.

Mae sector bwyd-amaeth y DU yn dibynnu'n fawr ar fasnach dramor – yn 2019 **roedd 55% o'r bwyd a fwytawyd a'r ddiod a yfwyd yn y DU** wedi ei gynhyrchu yn y DU.

**Mewnforion:** Yr UE yw'r brif ffynhonnell o ran mewnforion bwyd a diod y DU: **o'r UE y daeth 26% o'r bwyd a fwytawyd a'r ddiod a yfwyd yn y DU yn 2019**. Y ffynonellau mewnforion bwyd a diod mwyaf ar ôl hynny oedd Affrica, Gogledd America, De America ac Asia (gyda phob un o'r rhain yn darparu 4% o'r bwyd a fwytawyd).

**Allforion:** Yr UE hefyd yw'r brif farchnad ar gyfer allforion bwyd y DU, **ac aeth ychydig o dan 60% o allforion bwyd a diod y DU i'r UE yn 2019**. Mae Cymru'n allforio cyfran uwch o'i hallforion bwyd a diod i'r UE na'r DU gyfan, ac **aeth 75% o gyfanswm allforion bwyd a diod Cymru i'r UE yn 2019**. Y tu hwnt i'r UE, y marchnadoedd mwyaf ar gyfer allforion o Gymru yn 2019 oedd UDA, Twrci, Awstralia, Saudi Arabia a Chanada.

**Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru** yn arddel brand bwyd o Gymru a fyddai'n seiliedig ar gynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, ac a fyddai'n ategu'r cynllun nwyddau cyhoeddus i ffermwyr. Bydd penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch masnach ryngwladol yn dylanwadu ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r uchelgais hon.

Mae **Llywodraeth y DU** wedi dweud y gallai cytundebau masnach newydd gynnig cyfleoedd ar gyfer y sector bwyd-amaeth. Fodd bynnag, mae rhai busnesau yng Nghymru yn pryderu am y posibilrwydd o gystadleuaeth frwd â mewnforion sy'n destun safonau is, , ac yn pryderu hefyd am rwystrau newydd i fasnach rhwng y DU a'r UE.

### Masnach mewn cig oen




Ffynhonnell: Ffeithlun wedi'i addasu o'r cyhoeddiad **Amaethyddiaeth yng Nghymru 2019**

Ar lefel y DU, mae'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer gwahaniaethau polisi yn dod yn fwyfwy cymhleth. **Mae fframweithiau cyffredin, marchnad fewnol y DU, a rhwymedigaethau rhyngwladol y DU** i gyd yn cyfyngu ar ryddid Llywodraeth Cymru i weithredu yn y maes hwn. (Gweler yr erthygl ar Gymru yn y DU.)

Er enghraifft, bydd goblygiadau sylweddol i bolisïau bwyd-amaeth yn sgil Deddf Marchnad Fewnol 2020. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn golygu bod hawl gwerthu cynhyrchion sy'n bodloni safonau mewn un rhan o'r DU yn awtomatig mewn unrhyw ran arall o'r DU, hyd yn oed os yw'r safonau'n wahanol. Mae hyn wedi arwain at **bryderon** y bydd y rheolau sydd ar waith yn y farchnad fwyaf, sef Lloegr, yn gyrru safonau ledled y DU.


## Datblygu polisi ffermio yn y dyfodol yng nghyd-destun yr argyfyngau hinsawdd a natur

Bydd polisïau amaethyddol yn cael eu datblygu yng nghyd-destun yr **argyfwng hinsawdd** a gafodd ei ddatgan gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn 2019, a'r **argyfwng natur**, fel y'i disgrifiwyd gan y sector amgylcheddol.

O safbwynt cytuniad y **Confensiwn ar Fioamrywiaeth**, daethpwyd i'r casgliad yn ddiweddar fod y gymuned ryngwladol wedi methu o ran ei nod deng mlynedd i atal colli natur erbyn 2020. Roedd yr adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd gan y sector amgylcheddol, sef **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019**, yn tynnu sylw at y ffaith bod 17% o rywogaethau yng Nghymru yn wynebu'r bygythiad o ddifodiant. (Gweler yr erthygl ar newid hinsawdd).

Mae'r pwyslais cyhoeddus a gwleidyddol sydd wedi dod i'r amlwg o ran sicrhau **adferiad gwyrdd** yn dilyn pandemig COVID-19 wedi ysgogi dadleuon ynghylch 'datrysiadau sy'n seiliedig ar natur', fel **rheoli dalgylchoedd er mwyn lleihau llifogydd**, a chael **coedwig genedlaethol** er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd. Heb amheuaeth, bydd polisïau ffermio yn y dyfodol yn rhan o'r dadleuon hyn.

**Asesiad o'r risg o rywogaethau'n diflannu yng Nghymru (llinell sylfaen 1970)**




Ffynhonnell: **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019**

Ni fydd y broses o wneud penderfyniadau ar bolisïau amaethyddol yn y Chweched Senedd yn un hawdd. Bydd angen i wleidyddion ystyried hyfywedd a diwylliant cymunedau gwledig, yr amgylchedd masnach sy'n datblygu, a'r argyfyngau natur a hinsawdd sydd wedi'u datgan. Mae'n amlwg y bydd polisïau'r dyfodol yn arwain at effeithiau pellgyrhaeddol.

## Ffynonellau allweddol

- Ymchwil y Senedd, **Amaethyddiaeth a rheoli tir: Rhestr o gyhoeddiadau gan Ymchwil y Senedd** (2019)
- Ymchwil y Senedd, **Arallgyfeirio a gwytnwch ffermio yng Nghymru: rhagolygon ar ôl Brexit** (2019)
- Ymchwil y Senedd, **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019: Mae 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu** (2019)
- Ymchwil y Senedd, **Bil Amaethyddiaeth y DU 2019-21** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Datblygu sector bwyd a diod Cymru** (2019)

# Cyllid cyhoeddus

- O dan bwysau: sut mae gwasanaethau llywodraeth leol yn newid?
- Trethu yn y Chweched Senedd
- Cyllideb Cymru: edrych tua'r dyfodol



# O dan bwysau: sut mae gwasanaethau llywodraeth leol yn newid?

A yw gwasanaethau llywodraeth leol wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol? Ar ôl degawd o gyni, a phandemig yn dilyn hynny, beth fydd natur gwasanaethau yn y dyfodol?

***Osian Bowyer ac Owen Holzinger***

Mae'r pwysau ariannol sydd wedi bod ar lywodraeth leol dros y degawd diwethaf wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid, o ran y modd y caiff gwasanaethau lleol eu darparu. Wrth i awdurdodau lleol weld eu costau yn cynyddu a'u hincwm yn lleihau, maent wedi cwtogi rhai gwasanaethau ac wedi penderfynu darparu gwasanaethau eraill mewn modd gwahanol.


Mae'r pandemig wedi arwain at lu o alwadau newydd ar lywodraeth leol, gan waethygu'r pwysau a oedd eisoes yn bodoli. Mae ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol, a bydd natur yr ymateb i'r heriau sy'n dod i'r amlwg yn llywio'r gwasanaethau hynny yn y blynyddoedd i ddod.

## Sut mae gwariant ar wasanaethau lleol wedi newid?

Mae gwasanaethau awdurdodau lleol wedi **newid yn sylweddol** dros y degawd diwethaf.

Er bod gwariant cyffredinol gan awdurdodau lleol wedi gostwng oddeutu 7% ers 2013-14 (mewn termau real), mae gwariant ar wasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu dros 10%. Mae gwariant wedi cael ei dorri ym mwyafrif y meysydd gwasanaeth eraill, gan gynnwys ym maes addysg. Mae gwasanaethau cynllunio a datblygu economaidd wedi cael eu taro'n galed; felly hefyd llyfrgelloedd, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden.

## Newid canrannol yng ngwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau, 2013-14* i 2019-20 (prisiau 2019-20)





Ffynhonnell: StatsCymru, **Gwariant alldro refeniw, yn ôl gwasanaeth, a Datchwyddwyr Cynnyrch Mewnladol Crynswth** (GDP) (Mawrth 2021)

*Defnyddir 2013-14 fel llinell sylfaen yn sgil newidiadau i'r broses o gasglu data sy'n golygu bod cymariaethau â blynyddoedd blaenorol yn llai cyson.

Gyda'i gilydd, roedd gwariant ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg yn cynrychioli dros ddwy ran o dair o **gyfanswm y gwariant ar wasanaethau** gan y 22 awdurdod lleol yn 2019-20.

### Newid yng ngwariant awdurdodau lleol, 2013-14 i 2019-20 (prisiau 2019-20)




Ffynhonnell: StatsCymru, **Gwariant alldro refeniw, yn ôl gwasanaeth, Datchwyddwyr Cynnyrch Mewnladol Crynswth** (GDP) (Mawrth 2021)

Serch hynny, er bod gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu diogelu rhag y gostyngiadau gwariant mwyaf difrifol, ni fydd hyn yn ddigon i sicrhau eu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Canfu **adroddiad yn 2017 gan raglen Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025** y canlynol:

> ...spending through local authorities on social care for the over 65s is not keeping pace with the growth in the population of older people. Spending may need to have increased by at least £129 million (23%) between 2015-16 and 2020-21 to get back to the equivalent spend per-head in 2009-10.

Mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif** y bydd cynnydd o tua 60,000 (neu 1.9%) ym mhoblogaeth Cymru rhwng 2021 a 2031. O fewn y twf hwnnw, amcangyfrifir y bydd cyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu. Disgwylir cynnydd o tua 119,000 (neu 17%) yn y boblogaeth dros 65 oed.

Yn ôl **Dadansoddi Cyllid Cymru**, er nad oes modd cysylltu'r galw am ofal yn y dyfodol â thwf yn y boblogaeth hŷn, mae'r twf a ragwelir yn nifer y bobl hŷn sydd ag anghenion gofal cymhleth yn debygol iawn o arwain at bwysau cynyddol ar wasanaethau gofal. Mae'r sefydliad yn nodi bod disgwyl i nifer yr oedolion hŷn sy'n byw gyda dementia difrifol ddyblu i 53,700 erbyn 2040. Mae'r grŵp rhyng-weinidogol ar dalu am ofal cymdeithasol **wedi amcangyfrif** y gallai'r costau net o ddarparu gofal cymdeithasol, mewn senario 'cost uchel', gynyddu oddeutu £400 miliwn rhwng 2019-20 a 2022-23.

Mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn **rhagweld** y gallai gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion gyfrif am 76% o holl bwysau gwariant llywodraeth leol erbyn 2025-26 (gwasanaethau cymdeithasol – 55%, ysgolion – 21%).

## Dibyniaeth gynyddol ar y dreth gyngor?

Mae'r modd y mae awdurdodau lleol yn cael cyllid i'w wario ar wasanaethau hefyd wedi newid. Bu gostyngiad yn y cyllid grant a ddarperir i awdurdodau lleol dros y cyfnod rhwng 2013-14 a 2019-20. Mae'r sefyllfa hon wedi cael ei lliniaru i ryw raddau gan drethi lleol. Er bod cyllid grant yn parhau i gynrychioli'r rhan fwyafrif o incwm awdurdodau lleol, roedd y **swm a gasglwyd o drethdalwyr y dreth gyngor** (ac eithrio cyllid ar gyfer cynllun budd-daliadau/gostyngiadau'r dreth gyngor) wedi cynyddu bron 30% dros yr un cyfnod.

Mae'r cynnydd cyffredinol yn adlewyrchu codiadau blynyddol yn y dreth gyngor a delir gan breswylwyr dros y cyfnod dan sylw. Mae'r dreth gyngor gyfartalog ym mand D (ac eithrio'r elfen heddlu) wedi cynyddu £186 mewn termau real.

Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol **wedi rhybuddio'n gyson** na fydd cynyddu'r dreth gyngor, ynddo'i hun, yn ddigonol i lenwi'r bylchau cyllid a fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Er gwaethaf **yr hwb a roddwyd yn ddiweddar i gyllid llywodraeth leol**, mae arwyddion posibl o ansicrwydd ar y gorwel.

Yn sgil **Cyllideb y DU ar gyfer 2021**, nododd Dadansoddi Cyllid Cymru fod "cynlluniau gwariant Llywodraeth y DU yn y tymor canolig yn creu rhagolwg mwy heriol ar gyfer cyllideb a gwasanaethau cyhoeddus Cymru". Nododd y sefydliad ei bod yn bosibl y byddai rhannau o gyllideb Cymru yn dychwelyd i gyfnod o gyni.

Mae'n debygol y bydd effeithiau ariannol y pandemig ar **lywodraeth leol yn cael eu teimlo am nifer o flynyddoedd**. Mae Archwilio Cymru **yn nodi** bod gorwariannau sylweddol i'w gweld mewn rhai gwasanaethau sy'n ymateb i'r galw amdanynt, fel gwasanaethau cymdeithasol, hyd yn oed ymhlith awdurdodau lleol a gyflawnodd warged cyllidebol yn 2018-19. Mae'n awgrymu bod y pwysau hynny'n debygol o ddwysáu o ganlyniad i'r pandemig.

## Gwella gwasanaethau cyhoeddus: newid diwylliannol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llywodraeth leol wedi dechrau'r broses o drawsnewid sut mae'n darparu gwasanaethau. Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu meddylfryd gwahanol o ran sut i wella gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr, a sut i leihau'r gost o'u darparu. Enghraifft o'r broses hon yw'r defnydd o '**siopau un stop**' neu '**hybiau**'. Mae'r 'hybiau' hyn yn dwyn ynghyd nifer o wasanaethau a ddarperir gan gynghorau o dan yr un to, fel llyfrgelloedd, gwasanaethau cyngor ariannol a gwasanaethau dysgu i oedolion.

Un o'r agweddau mwyaf pwysig ar y rhaglen drawsnewid hon yw gwella'r defnydd o dechnoleg ac offer digidol. Sefydlodd Llywodraeth flaenorol Cymru **gronfa trawsnewid digidol ar gyfer llywodraeth leol** "er mwyn canfod a chynyddu'r cyfleoedd i ddatblygu trawsnewid digidol mewn llywodraeth leol yng Nghymru." Mae **Strategaeth Ddigidol Cymru**, a gafodd ei lansio ym mis Mawrth 2021, yn gam arall ar y daith hon. Mae'n cynnwys gweledigaeth genedlaethol ar gyfer trawsnewid digidol, ac yn ceisio ysgogi newid diwylliannol o ran y modd y mae cyrff cyhoeddus yn darparu ac yn moderneiddio gwasanaethau, fel eu bod yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae adnoddau awdurdodau lleol wedi cael eu dargyfeirio, i ryw raddau, o'r gwaith trawsnewidiol hwn. Mae'r arbedion ariannol a ragwelir yn llai sicr. Awgrymodd **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar** fod amheuon bellach ynghylch pryd y byddai rhai o'r arbedion hynny yn cael eu gwireddu, os o gwbl.

Ac eto, mae **enghreifftiau** wedi dod i'r amlwg ynghylch sut mae'r pandemig wedi sbarduno newid digidol ar draws llywodraeth leol:

- sefydlu tîm awtistiaeth rhithwir ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol a phobl ag awtistiaeth;
- datblygu apiau symudol ym maes cymorth cymunedol er mwyn cydlynu gwaith gwirfoddol; a

- datblygu llwyfannau rhithwir ar gyfer dysgu a chyflawni, a hynny er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc, eu haddysgu a'u cefnogi, ac er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt.

Mae'n debygol y bydd y gwaith o ddatblygu meysydd o arfer da ac arloesi digidol yn un o flaenoriaethau'r Gweinidog nesaf sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol.

## Beth nesaf i lywodraeth leol?

Yn sgil pasio **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**, mae gan awdurdodau lleol ddulliau a phwerau newydd ar gyfer ymdrin â rhai o'r heriau niferus sy'n wynebu'r sector.

Er enghraifft, mae **Llywodraeth Cymru yn awgrymu** bod y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn y Ddeddf yn galluogi awdurdodau lleol i ystyried dulliau mwy trawsnewidiol o ddarparu gwasanaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sef cyrff y bwriedir iddynt hwyluso mwy o weithio a chydweithio rhanbarthol mewn meysydd fel addysg a thrafnidiaeth.

Erys cwestiynau, fodd bynnag, ynghylch sut y bydd y cyrff newydd hyn yn gweithredu. Roedd yr ymatebion a gafwyd i **ymgynghoriad** a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth flaenorol Cymru ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn dangos bod ansicrwydd o hyd ynghylch sut y byddant yn gweithredu, ac ynghylch eu costau a'u buddion cysylltiedig.

Er gwaethaf y **cynnydd a welwyd yn ddiweddar yn y setliad llywodraeth leol** ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r **cymorth ariannol sylweddol a ddarparwyd mewn ymateb i'r pandemig**, mae heriau sylweddol yn parhau i fodoli. **Yn ôl Dadansoddi Cyllid Cymru**, er mwyn cwrdd â phwysau o ran costau dros y blynyddoedd nesaf, bydd angen i'r gwariant arfaethedig ar wasanaethau lleol gynyddu 3.4% y flwyddyn, ar gyfartaledd, (mewn termau arian parod) rhwng 2020-21 a 2025-26.

Yn ddiweddar, **dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** y gallai'r pwysau craidd – hynny yw, y bwlch ariannol rhwng yr arian sy'n dod i mewn a'r hyn sy'n ofynnol er mwyn talu am wasanaethau – fod mor uchel ag £822 miliwn erbyn 2023-24. Ni fydd dull o ddibynnu ar drethi lleol, fel y dreth gyngor, i gefnogi gwasanaethau allweddol fel gofal cymdeithasol ac addysg, yn lleddfu'r galw am y gwasanaethau hynny na'r gost o'u darparu.

Serch hynny, mae'r heriau sydd wedi dod i'r amlwg yn y 12 mis diwethaf hefyd wedi esgor ar gyfleoedd. Mae llywodraeth leol wedi addasu'n gyflym i ffyrdd newydd o weithio, gan ddefnyddio dulliau digidol i ddarparu gwasanaethau gwell, sy'n fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr. Bydd cynnal y momentwm hwn, ac unrhyw fuddsoddiadau cysylltiedig, yn rhan hanfodol o sicrhau adferiad yn y blynyddoedd i ddod.

## Ffynonellau allweddol


- Archwilio Cymru, **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19** (2020)
- Ymchwil y Senedd, **Setliad Llywodraeth Leol: Disgwylir i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau lleol gynyddu 3.8% dros dro** (2021)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **The Future of Care in Wales: Resourcing social care for older adults** (2020)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **UK Budget 2021: the implications for Wales and the Welsh budget** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Ddigidol i Gymru** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Cyllid Caledi Llywodraeth Leol** (2021

# Trethu yn y Chweched Senedd

## Pa fath o drethi fydd yng Nghymru yn y dyfodol? A fydd trethi lleol yn cael eu diwygio ac a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno trethi newydd yn y Chweched Senedd?

***Christian Tipples***

Ym mis Ebrill 2018, cafodd y **trethi Cymreig cyntaf** mewn bron i wyth can mlynedd eu cyflwyno gan ddefnyddio pwerau a oedd newydd eu datganoli.

Efallai y bydd angen wynebu materion arwyddocaol yn y Chweched Senedd. Mae'n aneglur sut y bydd y pandemig yn effeithio ar bolisi treth datganoledig, yn enwedig treth incwm. Gall beirniadaeth o'r dull o ymdrin â threthi lleol a chynigion ar gyfer trethi newydd a ddatblygwyd yn y Bumed Senedd hefyd arwain at newidiadau mawr.

Ac eto, mae polisi treth yn bwnc sensitif, felly gallai gweithredu unrhyw newidiadau fod yn heriol i Lywodraeth nesaf Cymru.

## Trethi newydd i Gymru


Yn 2018, fe wnaeth y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) ddisodli Treth Dir y Doll Stamp (SDLT) a Threth Tirlenwi (LT) y Deyrnas Unedig, sef y trethi cyntaf sy'n unigryw i Gymru ers y 13eg ganrif.

Yn dilyn hynny, gweithredwyd **Cyfraddau Treth Incwm Cymru (WRIT)** ym mis Ebrill 2019, sef y ffynhonnell fwyaf o refeniw treth sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Gwnaeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), sef y corff sy'n gyfrifol am ragweld refeniw treth Cymru, **amcangyfrif** y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn dros £2.1 biliwn mewn refeniw WRIT yn 2021-22, tra byddai LTT a LDT yn codi £260 miliwn (cyn **estyn y saib LTT**) a £34 miliwn yn y drefn honno.

Mae refeniw treth Cymru yn cynrychioli 17% o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

**Cyfansoddiad Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**




Ffynhonnell: **Naratif Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22** a **Treth ddatganoledig a rhagolygon gwariant Mawrth 2021 yr OBR**

## Newidiadau WRIT

Ni fu unrhyw newidiadau eto i WRIT gyda Llafur Cymru yn **ymrwymo yn 2019** i beidio â chynyddu cyfraddau treth incwm yn ystod y Bumed Senedd.

Fodd bynnag, o ystyried yr heriau economaidd y mae Cymru yn eu hwynebu oherwydd pandemig COVID-19, gallai'r Chweched Senedd weld pwysau i **newid cyfraddau WRIT am y tro cyntaf**.

Gan ei bod hi mor hawdd teithio dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr, gallai unrhyw wahaniaeth rhwng cyfraddau treth incwm rhwng y DU a Chymru arwain at **drethdalwyr yn symud dros y ffin**, gan effeithio ar refeniw WRIT yn y dyfodol.

O ystyried bod bron i 48% o boblogaeth Cymru yn **byw o fewn 25 milltir** i'r ffin a 4.9 miliwn o fewn pellter tebyg ar ochr Lloegr, gallai hyn fod yn fater arwyddocaol.

## Trethi lleol

Y dreth gyngor yw un o'r ysgogiadau ariannol sydd ar gael i lywodraeth leol. Codir tua £1.8 biliwn **bob blwyddyn** gan 1.4 miliwn o anheddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio trefn y dreth gyngor mewn sawl ffordd. Er enghraifft, yn y Bumed Senedd cafodd awdurdodau lleol bwerau i **godi premiwm** o hyd at 100% ar ail gartrefi.

Daeth **adolygiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS)**, a gyhoeddwyd y llynedd, i'r casgliad bod y dreth gyngor "wedi dyddio, yn anflaengar ac wedi aflunio, gan awgrymu bod angen ei hadolygu a'i diwygio".

Mae ardrethi annomestig (NDR) – sy'n cael eu galw yn aml yn 'gyfraddau busnes' - hefyd yn ffynhonnell refeniw sylweddol, gan gynhyrchu dros £1 biliwn yn flynyddol i lywodraeth leol. Mae'r cronfeydd hynny'n cael eu casglu a'u cyfuno'n genedlaethol cyn cael eu hailddosbarthu ymhlith cyrff llywodraeth leol. Mae ailbrisiadau yn digwydd yn amlach na'r dreth gyngor, gyda'r ailbrisiad diweddaraf yn digwydd yn 2017. Cynlluniwyd y rhestr nesaf yn wreiddiol ar gyfer 2021, ond oherwydd y pandemig **ni fydd yn dod i rym tan 2023** er mwyn "adlewyrchu effaith COVID-19 yn well".

Gwnaed nifer o newidiadau i ardrethi annomestig yn y Bumed Senedd, gan gynnwys gweithredu **cynllun Rhyddhad Ardrethi Parhaol i Fusnesau Bach**, newid y mesur chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer uwchraddio o RPI i CPI ac ymdrechion i **fynd i'r afael ag achosion o osgoi**.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn cynnal **adolygiad sylfaenol o ardrethi busnes** (a fydd yn dod i ben yn hydref 2021), a gall unrhyw newidiadau fod â goblygiadau i gyflymder y newid yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwnnw'n ystyried y posibilrwydd o ailbrisiadau amlach – bob tair blynedd – sef rhywbeth sydd **eisoes ar waith** yn yr Alban.

## Dulliau amgen ar gyfer trethi lleol

Mae sawl astudiaeth **wedi cydnabod** bod y dreth gyngor yn anflaengar. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ar ymarferoldeb disodli'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig gyda **threth gwerth tir lleol (LVT)**. Mae'r system drethiant hon ar waith yn Nenmarc, Seland Newydd a rhai rhannau o Awstralia a'r Unol Daleithiau.

Ardoll ar werth tir yw LVT ac, yn wahanol i'r mwyafrif o drethi eiddo, mae'n dreth ar y tir ei hun gan ddiystyru gwerth unrhyw welliannau a wneir i'r tir hwnnw.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Bangor i gynnal astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol o LVT. **Canfu** er y gallai godi digon o refeniw i ddisodli'r trethi lleol cyfredol, nid oedd y gofynion data i weithredu LVT yn cael eu bodloni ar hyn o bryd.

Dywedodd y Gweinidog Cyllid blaenorol, Rebecca Evans, wrth **Bwyllgor Cyllid y Bumed Senedd** fod Llywodraeth Cymru **hefyd wedi comisiynu'r** Sefydliad Astudiaethau Cyllidol i ystyried effaith ailbrisio'r dreth gyngor i wneud y system yn llai anflaengar, a Phrifysgol Caerdydd i gynnal ymchwil i weld a ellid seilio'r dreth gyngor ar asesiadau lleol o incwm cartref.

## Trethi newydd

Mae **Deddf Cymru 2014** yn galluogi Llywodraeth Cymru i geisio cymhwysedd gan ddau Dŷ Senedd y DU ac i Senedd Cymru gyflwyno trethi newydd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru **yn ceisio pwerau ar hyn o bryd** ar gyfer treth tir gwag ac yn ymchwilio i dri maes posib arall ar gyfer trethi newydd, sef:

- Ardoll gofal cymdeithasol;
- treth plastig tafladwy; a
- threth twristiaeth.

Canfu Llywodraeth ddiwethaf Cymru fod **y broses** "yn un hir a heriol", a honnodd nad yw'r mecanwaith "yn addas at y diben". Dywedodd y Gweinidog:

> Mae wedi dod i'r amlwg bod diffygion difrifol yn y broses y cytunwyd arni ar gyfer datganoli cymhwysedd trethu. Felly mae'r broses ar hyn o bryd, mae'n anodd dychmygu sefyllfa lle y gallai Llywodraeth Cymru lwyddo i gyflwyno'r achos dros gymhwysedd trethu pellach. Mae angen adolygu a diwygio'r broses ar fyrder.

Amlygwyd hyn yn ddiweddar yn **adroddiad terfynol** diweddar y Gweinidog ar weithredu pwerau ariannol a ddatganolwyd yn Neddf Cymru 2014. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y meysydd posibl eraill ar gyfer trethi newydd.

Bydd y ffordd y gall Llywodraeth nesaf Cymru ysgogi newidiadau i'r broses hon, a'r math o drethi newydd y gallai eu cyflwyno, yn chwarae rhan sylweddol ym maes polisi treth dros dymor nesaf y Senedd.

## Ffynonellau allweddol


- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Devolved tax and spending forecasts** (2021)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **Trends in the Welsh Income Tax base: an update** (2019)
- Y Pwyllgor Cyllid, **Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol**
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, **Revaluation and reform of council tax in Wales: impacts on different councils and household types** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Treth gwerth tir leol: asesiad technegol** (2020)
- Llywodraeth Cymru, **Y seithfed adroddiad a'r olaf gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014** (Mawrth 2021)

# Cyllideb Cymru: edrych tua'r dyfodol

Yn ystod y Bumed Senedd, llaciwyd y mesurau cyni a chafwyd gwariant cyhoeddus enfawr i ddelio â'r pandemig. Sut y mae gwariant wedi newid? A pha heriau sydd o'n blaenau yng Nghymru?

***Owen Holzinger***


Mae'r gwariant ar wasanaethau cyhoeddus ers argyfwng ariannol 2008 wedi cael ei lywio i raddau helaeth gan fesurau cyni.

Yn y Cylch Gwariant ym mis Medi 2019, **awgrymodd** Llywodraeth y DU ei bod yn dod â'r mesurau cyni i ben ac yn dechrau ar ddegawd newydd o adfer. **Cyfeiriwyd** at **gyllidebau Llywodraeth Cymru yn 2019-20 a 2020-21** fel newid sylweddol yng nghyllideb adnoddau Cymru.

## Cyllidebau yn y Bumed Senedd

Er y cafwyd yn y Bumed Senedd gynnydd ym mhwerau gwario Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i chyllidebau, dim ond ers 2019-20 y mae cyfanswm cyllideb Cymru wedi cynyddu i lefelau uwch na 2009-10 (mewn termau real). Hyd yn oed gyda hynny, mae gwariant ar adrannau Llywodraeth Cymru wedi aros yn is na lefelau hanesyddol ar y cyfan.

### Cyllideb Llywodraeth Cymru, 2009-10 i 2020-21 (prisiau 2020-21, £ miliwn)




Ffynhonnell: **Cyllidebau Llywodraeth Cymru a Datchwyddwyr cynnyrch mewnwladol crynswth (Mawrth 2021)**

Nodiadau:

[1]DEL = Terfyn Gwariant Adrannol: y rhan ddewisol o'r gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn dewis sut i'w gwario

[2]Cyfanswm Cyllideb Cymru = Total Welsh Budget: yn cynnwys yr holl gyllid sydd ar gael ar gyfer grant bloc Cymru tynnu'r swm ar gyfer y Swyddfa Gymreig

*Ffigurau yn y Gyllideb Atodol ddiweddaraf. Ar gyfer 2020-21, cynhwysir y ffigurau **yn y Gyllideb Derfynol, Mawrth 2020** (bylchog) a'r ffigurau yn **y Drydedd Gyllideb Atodol** (Chwefror 2021). Mae'r ffigurau termau real yn adlewyrchu **symudiad annodweddiadol yn y datchwyddwr cynnyrch mewnwladol crynswth 2020-21**.

Roedd y pandemig yn golygu bod gwariant yn 2020-21 gryn dipyn yn wahanol i'r cynigion gwreiddiol. Roedd y **Drydedd Gyllideb Atodol 2020-21** gan Lywodraeth Cymru yn dyrannu bron i £25 biliwn i adrannau, cynnydd sylweddol o'r £18 biliwn **a gynlluniwyd yn wreiddiol**.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ail-flaenoriaethu rhywfaint o'r gwariant adrannol, mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn deillio o benderfyniadau gwariant yn ymwneud â'r pandemig yn Lloegr. Gan hynny, mae'r **gyllideb ar gyfer 2021-22** yn cynnwys gostyngiad yn y dyraniadau cyffredinol i oddeutu £20 biliwn.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyson yw'r maes gwariant mwyaf gan Lywodraeth Cymru. O ran gwariant refeniw o ddydd i ddydd, mae hyn yn cynrychioli dros hanner cyllideb 2021-22. Ochr yn ochr â Thai a Llywodraeth Leol, sef yr ail faes gwariant mwyaf gan Lywodraeth Cymru, mae'r ddau faes hynny yn cyfrif am oddeutu 80% o'r **cyllidebau refeniw adrannol** yn 2021-22.


## Y Fframwaith Cyllidol

Mae'r rheolau ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn **y Fframwaith Cyllidol**. Daw'r rhan fwyaf o arian Llywodraeth Cymru drwy'r **grant bloc Cymru**, sy'n gysylltiedig â gwariant Llywodraeth y DU yn unol â **Fformiwla Barnett. Ni chafodd y trefniant hwn ei ddilyn i raddau** yn ystod y pandemig, wrth i Lywodraeth y DU gynnig '**gwarant**' o gyllid.

### Sut y mae Fformiwla Barnett yn gweithio

Mae fformiwla Barnett yn cyfrifo'r newid blynyddol yn y grant bloc. Mae'n defnyddio'r newid blynyddol yng nghyllideb adrannol Llywodraeth y DU ac yn defnyddio canran gymharol yn seiliedig ar y graddau y mae gwasanaethau'r adran honno wedi'u datganoli, ac mae hefyd yn ystyried poblogaeth gymharol Cymru.

Mae gan Gymru hefyd derfyn ar ei grant bloc, sy'n sicrhau y bydd cyllid Cymru yn cael ei osod ar lefel yn unol ag anghenion Cymru. Mae wedi'i osod ar 115%. Ar hyn o bryd, 105% yw'r ffactor sy'n seiliedig ar anghenion gan fod cyllid cymharol Cymru y pen oddeutu 120%. Unwaith y bydd cyllid cymharol Cymru yn cyrraedd 115% o arian Lloegr, bydd y lluosydd yn cael ei gloi ar 115%.



Hwyrach nad oedd mesurau cyllidol eraill yn ddigon hyblyg wrth wynebu straen y pandemig. Mae **Cronfa Wrth Gfn Cymru** yn cynnwys terfyn uchaf o £350 miliwn, ac mae'r arian y gellir ei dynnu bob blwyddyn â therfyn uchaf o £125 miliwn mewn cyllid refeniw a £50 miliwn mewn cyllid cyfalaf. Roedd yr arian sylweddol ar gyfer Covid-19 a ddyrannwyd i Gymru ar ddiwedd 2020-21, yn deillio o benderfyniadau polisi yn Lloegr, yn golygu bod angen mwy o hyblygrwydd i **gario ymlaen hyd at £650 miliwn yn ychwanegol**.

Ar y llaw arall, nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r holl offerynnau cyllidol sydd ar gael iddi. Gall fenthyg hyd at £150 miliwn o gyllid cyfalaf yn flynyddol, ond **nid yw wedi gwneud hynny yn 2019-20 na 2020-21**.

Gan hynny, **awgrymodd Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd** fod angen adolygu'r mecanweithiau cyllido ar frys. Awgrymodd y Pwyllgor:

- dylid cynyddu terfynau benthyca cyfalaf;
- dylai fod mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn Cymru; a
- dylai fod proses annibynnol ar gyfer herio penderfyniadau cyllido, gan nodi bod Llywodraeth y DU wedi gweithredu fel 'barnwr a rheithgor' o ran trefniadau cyllido Cymru.

## Pwerau newydd ar gyfer trefniadau buddsoddi y DU yng Nghymru

Mae **Deddf y Farchnad Fewnol 2020** yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddarparu cymorth ariannol at wahanol ddibenion (gweler yr erthygl ar Gymru yn y DU), gan gynnwys hyrwyddo datblygiad economaidd, yn unrhyw le yn y DU. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth y DU yn gallu ariannu gweithgareddau yn uniongyrchol mewn meysydd polisi datganoledig.

Bydd dwy gronfa benodol yn manteisio ar y pwerau hyn:

- cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (gan ddechrau gyda **Chronfa Adnewyddu Cymunedau y DU**), a fydd yn disodli cronfeydd strwythurol yr UE; ac
- y '**Gronfa Codi'r Gwastad**'. Cronfa i Loegr i ddechrau, ond wedi hynny fe'i **hestynnwyd** i gwmpasu'r DU gyfan.

Mae'r ddadl ynghylch defnyddio'r pwerau hyn eisoes wedi cychwyn.

Awgrymodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** fod Llywodraeth y DU yn bwriadu 'osgoi trefniadau'r setliad datganoli', a chyhoeddodd tri Gweinidog Cyllid y gwledydd datganoledig **ddatganiad ar y cyd** ym mis Mawrth yn honni bod Llywodraeth y DU yn "anwybyddu eu trefniadau datganoli".

Fodd bynnag, **awgrymodd** Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Simon Hart, y byddai gan gronfeydd 'fwy o fewnbwn lleol' a'u bod yn cynrychioli 'estyniad o'r broses ddatganoli'.

Mae'n aneglur a fydd Llywodraeth Cymru yn rhan o'r penderfyniadau gwariant hyn, a sut y cynhelir gwaith craffu ar y penderfyniadau.

## Heriau cyfarwydd ond sylweddol o'n blaenau?

Heb os, bydd costau'r pandemig yn siapio dyfodol cyllid y sector cyhoeddus. Disgwylir i **fenthyciadau Llywodraeth y DU** gyrraedd uchafbwynt mewn cyfnod o heddwch o £355 biliwn yn 2020-21, a rhagwelir y bydd yn £234 biliwn ar gyfer 2021-22. Disgwylir i brif ddyledion y DU gyrraedd 100% o'r cynnyrch mewnwladol crynswth yn 2020-21 (gweler yr erthygl ar adfer yr economi).

Yng **Nghyllideb Llywodraeth y DU** ym mis Mawrth 2021 amlinellodd y Canghellor, Rishi Sunak, yr angen i 'ddechrau ar y gwaith o adfer ein cyllid cyhoeddus'. Bellach, mae'r Canghellor **yn bwriadu gwario** £14-17 biliwn y flwyddyn yn llai ar wasanaethau cyhoeddus ar ôl 2021, o'i gymharu â'r hyn a gynlluniwyd cyn y pandemig. **Awgrymwyd** bod cynlluniau gwariant tymor canolig yn golygu 'rhagolwg â mwy o gyni ar gyfer cyllideb Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru'.

Cafodd y pandemig oblygiadau ar gyllid cyhoeddus nid yn unig o ran ariannu'r ymateb uniongyrchol, ond o ran y pwysau tymor hir ar wasanaethau yn sgil hynny. Dyrannodd Llywodraeth flaenorol Cymru £320 miliwn ar gyfer **cefnogi addewidion** a £225 miliwn fel **sbardun cyfalaf.** Yn ôl pob tebyg, dim ond cynyddu wnaiff y costau adfer.

**Awgrymwyd** y byddai angen £12 biliwn y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i wneud iawn am yr hyn a gollwyd. Yng Nghymru, mae **rhestr aros y GIG** wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed gyda 549,353 ym mis Chwefror 2021 (gweler yr erthygl ar rhestr aros y GIG). **Amcangyfrifodd** y Gweinidog blaenorol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, y byddai adferiad yn cymryd 'tymor llawn o'r Senedd o leiaf'. Roedd **cynllun adfer ar gyfer Iechyd** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth yn amlinellu £100 miliwn o gyllid 'cychwynnol'.

Yn yr un modd, yn sgil cau ysgolion, darparodd Llywodraeth flaenorol Cymru gyllid ychwanegol i ddisgyblion (gweler yr erthygl ar addysg yn ystod COVID-19), ond gallai'r **raddfa a'r costau i ddisgyblion 'ddal i fyny yn iawn'** fod cymaint â 'hanner blwyddyn o addysg', tua £1.4 biliwn.

Mae eraill wedi galw ar Lywodraeth Cymru i fanteisio ar y **cyfleoedd** yn sgil adferiad i ailgreu yn wyrddach, gan gynnwys buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd, trawsnewid trafnidiaeth a mannau cyhoeddus, a hyrwyddo gweithio o bell.

Mae dadansoddiadau yn **awgrymu** y gallai ariannu'r heriau hyn arwain at ddychwelyd i fesurau cyni ar gyfer rhannau o gyllideb Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar gynlluniau gwariant cyfredol Llywodraeth y DU. Bydd sut y mae'r heriau hyn yn amlygu eu hunain ac yn cael sylw yn llywio penderfyniadau polisi a gwariant yn y Chweched Senedd.

## Ffynonellau allweddol

- Dadansoddi Cyllid Cymru, **Austerity is over – for now** (2019)
- Cylch Gwariant 2019: **Araith y Canghellor Sajid Javid**
- Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **economic and fiscal outlook –Mawrth 2021**
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, **Cyllideb 2021**
- Pwyllgor Cyllid y Senedd, **Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol** (2021)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **UK Budget 2021: the implications for Wales and the Welsh budget** (2021)

# Tu hwnt i'r ffin

– Cymru yn y DU

– Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd



# Cymru yn y DU

## Mae Brexit wedi newid cyfrifoldebau llywodraethau ledled y DU yn sylfaenol, gan ei gwneud yn bwysicach nag erioed iddynt gydweithredu. A allan nhw ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio'n effeithiol?

***Lucy Valsamidis a Nia Moss***

Rydyn ni'n meddwl am gyfrifoldeb dros bolisi naill ai wedi'i ddatganoli i'r Senedd neu wedi'i ddargadw i San Steffan. Mae'r realiti yn fwy cymhleth. Mae ffiniau lle mae pŵer yn aml yn aneglur. Mae angen i lywodraethau ledled y DU ddod o hyd i ffyrdd o weithio gyda'i gilydd i reoli'r tensiynau hyn - neu fentro methu â gwneud penderfyniadau polisi effeithiol a mynd i'r afael â heriau a rennir.

Mae Brexit wedi cymylu'r llinellau cyfrifoldeb hyn ymhellach drwy drosglwyddo pwerau a arferid yn flaenorol gan yr UE i Gymru a San Steffan. Ers 2016, mae'r llywodraethau wedi gweithio i ddatblygu ffyrdd newydd o reoli'r pwerau hyn. Ond maen nhw wedi cael trafferth cytuno ar sut y dylai'r strwythurau newydd hyn weithio a phwy ddylai fod yn gyfrifol am beth.

### Mae Brexit wedi symud pwerau i lywodraethau yng Nghymru a San Steffan

Mae Llywodraeth Cymru **bellach yn gyfrifol am oddeutu 4,000 o swyddogaethau newydd** a arferid yn flaenorol ar lefel yr UE. I gymryd un enghraifft yn unig, gall nawr newid sut mae diogelwch ac ansawdd dŵr yn cael eu monitro. Mae cyfyngiadau ar bwerau'r Senedd a osodwyd gan gyfraith yr UE wedi'u dileu - felly pe bai'r Senedd eisiau newid **cyfraith yr UE a ddargedwir** ar ansawdd dŵr, gallai wneud hynny hefyd.

Mae gan Lywodraeth y DU hefyd ystod eang o gyfrifoldebau newydd mewn meysydd a ddargedwir sy'n effeithio ar bolisi datganoledig, o **sefydlu cynllun preswylio newydd yn y DU ar gyfer dinasyddion yr UE**, i drafod cytundebau masnach ryngwladol newydd (gweler yr erthygl: Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd).

Mae rheolaeth cyllid mewn meysydd datganoledig wedi newid hefyd. Er enghraifft, lle **roedd Llywodraeth Cymru yn arfer rheoli tua £295 miliwn y flwyddyn** yng nghronfeydd strwythurol yr UE, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 bellach yn rhoi pwerau i Lywodraeth y DU wario arian mewn meysydd datganoledig fel iechyd ac addysg. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn i sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd a Chronfa Codi'r Gwastad (gweler yr erthygl: Cyllideb Cymru: edrych tua'r dyfodol). Nid yw cyfanswm gwerth y cyllid hwn yn hysbys eto.

## Mae'r llywodraethau wedi datblygu ffyrdd o reoli eu cyfrifoldebau newydd - ond mae tensiynau o hyd

Roedd y llywodraethau'n cydnabod y byddai angen iddynt newid y ffordd yr oeddent yn gweithio gyda'i gilydd i reoli'r cyfrifoldebau newydd hyn. Er enghraifft, os yw Llywodraeth y DU yn negodi cytundeb masnach ryngwladol sy'n gofyn am wiriadau iechyd anifeiliaid ar allforion, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud neu gytuno ar ddeddfwriaeth i roi'r gwiriadau hynny ar waith. Yn yr un modd, pe bai'r Senedd yn penderfynu gwahardd gwerthu rhai diodydd llawn siwgr, gallai hynny effeithio ar gynhyrchwyr diodydd y tu allan i Gymru hefyd.

Roeddent yn awyddus i geisio datblygu '**fframweithiau cyffredin**' mewn tua 26 o feysydd polisi, gan gynnwys diogelwch bwyd ac ansawdd aer. Cytundebau yw'r rhain i weithio gyda'i gilydd i benderfynu pryd i alinio polisi a phryd i ddargyfeirio, weithiau'n cael eu tanategu gan ddeddfwriaeth. Y nod oedd cytuno ar yr holl fframweithiau erbyn mis Rhagfyr 2020. Ond cafodd cynnydd ei arafu gan oedi yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ac **nid oes cytundeb terfynol wedi'i gyrraedd eto**.

Ym mis Gorffennaf 2020, **dywedodd Llywodraeth y DU** nad oedd yn credu y byddai fframweithiau cyffredin yn ddigonol i reoli dargyfeiriad. Cynigiodd beth fyddai'n dod yn **Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020**.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu system newydd ar gyfer rheoli masnach yn y DU. Wrth wraidd y Ddeddf mae'r syniad y dylai nwyddau a gwasanaethau sy'n bodloni'r safonau a bennir mewn un wlad yn y DU allu cael eu gwerthu yn ddirwystr yn y gwledydd eraill, hyd yn oed os yw'r safonau yno'n wahanol.

**Os yw'r Senedd eisiau gwahardd gwerthu rhai diodydd llawn siwgr, a all wneud hyn?**

| A oes gan y Senedd y pŵer i gyflwyno gwaharddiad? | A fyddai angen i Lywodraeth Cymru drafod a chytuno ar waharddiad â llywodraethau eraill y DU? | A allai Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 gyfyngu ar effaith gwaharddiad? |
|---|---|---|
| Oes. Nid yw bwyd a diod yn faterion a ddargedwir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. | Byddai. Mae'r llywodraethau wedi cytuno ar fframweithiau cyffredin dros dro ar gyfansoddiad a maeth bwyd.<br><br>Felly byddai angen iddynt drafod a chytuno a ddylid dilyn yr un rheolau neu ddargyfeirio. | Gallai. Mae'n debygol y byddai'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol yn berthnasol. Byddai hyn yn golygu pe bai'r Senedd yn cyflwyno gwaharddiad ar ddiodydd llawn siwgr, na fyddai'n berthnasol i ddiodydd a ganiateir mewn unrhyw ran arall o'r DU. Gallai Llywodraeth y DU eithrio rheolau ar ddiodydd llawn siwgr, ond nid oes raid iddi wneud hyn. |

Er enghraifft, gallai'r Senedd wahardd plastigau untro. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn golygu y gallai unrhyw blastig untro a ganiateir neu a fewnforir i weddill y DU gael ei werthu yng Nghymru o hyd. Byddai'r gwaharddiad yn berthnasol i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ond nid i'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn rhannau eraill o'r DU. Felly byddai angen i'r Senedd ystyried a fyddai gwaharddiad yn rhoi busnesau yng Nghymru dan anfantais - ac a fyddai'n cyflawni'r diben a fwriadwyd.

Roedd y **Llywodraeth Cymru** a'r **Llywodraeth Alban** blaenorol yn gwrthwynebu'r cynigion. Dywedon nhw y byddai'r Ddeddf yn mynd ymhellach na **rheolau marchnad sengl yr UE** wrth gyfyngu ar ddargyfeirio yn y DU. **Dadleuodd pwyllgorau yn y Bumed Senedd hefyd** y byddai'n gosod terfyn newydd ar

bwerau datganoledig. **Pasiodd Senedd y DU Fil Marchnad Fewnol y DU** ym mis Rhagfyr 2020, ar ôl i'r Senedd a Senedd yr Alban bleidleisio i beidio â rhoi cydsyniad deddfwriaethol.

## Mae dyfodol cysylltiadau rhynglywodraethol yn dod i'r amlwg o hyd

Gyda Deddf y Farchnad Fewnol bellach yn gyfraith a'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE wedi'i chyrraedd, mae cwestiynau o hyd ynghylch sut y dylai'r llywodraethau wneud penderfyniadau gyda'i gilydd a datrys anghydfodau.

Mae'r **Cydbwyllgor Gweinidogion (JMC)** wedi bod y prif strwythur ar gyfer rheoli perthnasoedd rhynglywodraethol ers 1999. Mae'r JMC yn set o bwyllgorau sy'n dwyn ynghyd weinidogion o'r DU a llywodraethau datganoledig. Maent yn cyfarfod ar sail ad hoc i drafod buddiannau polisi cyffredin a mynd i'r afael ag anghydfodau.

Fel y mae pethau, **gall y JMC ddod i gytundebau nad ydynt yn rhwymol**, ond ni all wneud penderfyniadau gweithredol. Gall ystyried anghydfodau rhwng llywodraethau, ond mae **llywodraethau datganoledig wedi beirniadu** bod y broses datrys anghydfodau wedi'i phwysoli tuag at Lywodraeth y DU.

Yn 2018, **dechreuodd llywodraethau adolygiad ar y cyd o strwythurau rhynglywodraethol** i sicrhau eu bod yn addas at y diben yn sgil ymadawiad y DU â'r UE. Cytunodd gwleidyddion o wahanol bleidiau a seneddau fod angen '**diwygio sylweddol**'.

Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r **llywodraethau'n nodi cynnydd gyda'r adolygiad**, gan gynnwys cynigion ar gyfer strwythurau rhynglywodraethol newydd a phroses datrys anghydfodau wedi'i diwygio. Roedd y **Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, Jeremy Miles, yn galw hyn yn gynnydd**, ond dywedodd ei fod eisiau trafodaeth bellach ynghylch sut y dylai'r llywodraethau weithio gyda'i gilydd ar gysylltiadau UE a rhyngwladol ac ar gyllid. Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru benderfynu sut y mae am helpu i lunio canlyniad yr adolygiad.

## Bydd angen i'r Senedd ddod o hyd i ffyrdd o graffu ar sut mae'r llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd.

Heb ddod o hyd i ffyrdd effeithiol o gydweithredu, bydd y llywodraethau mewn perygl o fethu â datblygu cyfraith a pholisi sy'n gweithio i Gymru. Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r Chweched Senedd graffu ar ba mor dda y mae

Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU. Bydd angen iddi hefyd ystyried sut y gallai deddfwriaeth arfaethedig a fframweithiau cyffredin ddatblygu aliniad â rhannau eraill o'r DU, neu ddargyfeirio oddi wrthynt.

Gall fod yn anodd deall a dylanwadu ar weithio rhynglywodraethol. Gall pobl a busnesau ddylanwadu ar bob llywodraeth yn unigol, ond **mae monitro a dylanwadu ar drafodaethau rhyngddynt yn fwy heriol**. A rhaid i seneddau ddwyn eu llywodraethau eu hunain i gyfrif, felly gallai craffu ar waith rhynglywodraethol fod yn rhywbeth a gaiff ei anghofio.

Un ffordd o wella'r broses o graffu ar waith rhynglywodraethol fyddai cynyddu cydweithredu rhyngseneddol. Sefydlwyd y **Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit** yn 2017 i ddod â chynrychiolwyr pwyllgorau o ddeddfwrfeydd y DU ynghyd. Yn ogystal ag argymell diwygio cysylltiadau rhynglywodraethol, roedd yn **galw am well goruchwyliaeth seneddol**. Cyfarfu'r Fforwm ddiwethaf ym mis Medi 2019.

**Cefnogodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Bumed Senedd fwy o waith rhyngseneddol yn ei adroddiad gwaddol, gan ddweud bod hyn yn cynnig o leiaf y gobaith o gael canlyniadau craffu achlysurol sy'n fwy na chyfanswm eu rhannau unigol. Sut bynnag mae'n dewis ei wneud, bydd angen i'r Chweched Senedd nid yn unig ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am sut mae'n gweithio ledled y DU ond cyfleu a datblygu ei rôl ei hun yng nghyfansoddiad y DU.

## Ffynonellau allweddol

- Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, **Materion Allanol: Gwaith Craffu yn y Chweched Senedd** (2021)
- Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, **Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd** (2021)
- Llywodraeth y DU, **Hynt yr adolygiad i gysylltiadau rhynglywodraethol** (2021)
- Llywodraeth y DU, **Adolygiad Dunlop o Allu Undeb Llywodraeth y DU** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Diwygio Ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU** (2019)
- Ymchwil y Senedd, **Crynodeb Bil y Farchnad Fewnol** a **Sut y mae'r Ddeddf wedi newid?** (2020)

# Cymru yn y dirwedd ryngwladol newydd

Yn ystod y Bumed Senedd, gwelwyd newid dramatig yn rolau Llywodraeth Cymru a'r Senedd mewn perthynas â materion rhyngwladol. Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi ail-lunio'r ffordd y mae'r DU yn ymgysylltu'n rhyngwladol ac wedi gofyn am fwy o gydweithredu rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig. O ganlyniad, mae'n ymddangos y bydd rôl y Senedd ym maes materion rhyngwladol yn cynyddu.

***Sara Moran a Rhun Davies***

Yn ystod y Chweched Senedd, mae disgwyl y bydd y DU yn ymuno ag ystod eang o ymrwymiadau rhyngwladol newydd a fydd yn effeithio ar bolsiïau a chyfreithiau datganoledig.

Mae gwaith craffu'r Senedd ar ymrwymiadau rhyngwladol yn bwysig. Mae cytundebau rhyngwladol yn aml yn cynnwys rhwymedigaethau pellgyrhaeddol a all effeithio ar fywydau beunyddiol pobl a busnesau yng Nghymru. Mae gallu'r Senedd i basio cyfreithiau hefyd yn cael ei gyfyngu gan yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn cytuno iddo yn rhyngwladol. Hefyd, mae'r ymrwymiadau hyn yn llywio gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei pholisïau. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am arwain y trafodaethau ar gytundebau newydd, ond mae'n cydnabod rôl y sefydliadau datganoledig o ran gweithredu cytundebau mewn meysydd datganoledig.

Bydd gwaith craffu gofalus ar gytundebau rhyngwladol yn golygu y bydd gan y Senedd y potensial i ychwanegu gwerth er budd Cymru.

## Pa gytundebau rhyngwladol newydd y gellir eu disgwyl yn y Chweched Senedd?

Disgwylir nifer o gytundebau rhyngwladol newydd a fydd o bwys i Gymru yn ystod y Chweched Senedd hon. Bydd y rhain yn cynnwys cytundebau masnach rydd rhwng y DU a'r Unol Daleithiau, Seland Newydd, ac Awstralia, a disgwylir i'r DU ymuno â'r **Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP)**.

Yn ystod y Chweched Senedd, mae disgwyl y bydd y DU hefyd yn ymuno ag ymrwymiadau rhyngwladol newydd ym meysydd bioamrywiaeth, bwyd, yr amgylchedd morol a newid hinsawdd. Bydd y cytundebau hyn yn cyd-fynd â pherthynas newydd Cymru ag Ewrop.

Dywed Llywodraeth y DU y bydd y cytundebau masnach y mae'n eu negodi yn cynnig cyfleoedd newydd i fusnesau'r DU, gan gynnwys busnesau yng Nghymru. Bydd cynyddu masnach y DU â gwledydd eraill yn debygol o greu collwyr yn ogystal ag enillwyr. Gallai'r cytundebau newydd hyn ar lefel y DU olygu y bydd busnesau o Gymru yn wynebu mwy o gystadleuaeth ar ffurf mewnforion, gydag effeithiau gwahanol ar sectorau penodol. Er enghraifft, mae i **gytundeb masnach rydd â Seland Newydd** y potensial i effeithio'n negyddol ar sectorau amaeth a bwyd wedi'i led-brosesu yn y DU, oherwydd bod gan Seland Newydd fantais gymharol yn y sectorau hyn.

Dyna pam mae gwaith craffu'r Senedd ar gytundebau rhyngwladol yn bwysig. Dywedodd y **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY)** yn y Bumed Senedd:

> Mae gan y Senedd rôl o ran nodi buddiannau Cymru a, thrwy waith craffu a chynrychioli, sicrhau bod cytundebau'n cael eu gweithredu a'u datblygu mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddiannau gorau posibl i Gymru.

**Effaith bosibl cytundebau masnach rydd ar Werth Ychwanegol Gros yng Nghymru**

| **Cytundeb** (ni chyhoeddwyd yr asesiad cwmpasu i'r DU ymuno â'r CPTPP eto) | **Newid yn GVA Cymru, newid canrannol yn y tymor hir** (tua 15 mlynedd) |
|---|---|
| DU-UD | Cynnydd o **0.05% i <0.15%** neu **0.25% i <0.40%** (yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gytuno o ran rhyddfrydoli tariffau a lleihau mesurau di-dariff) |
| DU-Awstralia | Cynnydd o **0.00% i <0.05%** |
| DU-Seland Newydd | Cynnydd o **0.00% i <0.05%** |

## Pa rôl fydd Llywodraeth Cymru newydd yn ei chwarae?

Am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd, mae Brexit yn golygu bod Llywodraeth y DU yn negodi ac yn ymuno â nifer o gytundebau rhyngwladol â gwledydd eraill drwy ei hawl ei hun.

Mae'r setliad datganoli yn golygu bod Llywodraeth y DU yn gyfrifol am negodi cytundebau rhyngwladol, ac ymrwymo iddynt, ar ran pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, unwaith y cytunir arnynt, mater i Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru yw arsylwi ar y cytundebau hyn a'u gweithredu mewn meysydd datganoledig.

Cynhaliwyd ymgysylltiad rhwng Llywodraeth flaenorol Cymru a Llywodraeth y DU ar drafodaethau cytundeb masnach y tu allan i'r UE mewn Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach a oedd newydd ei sefydlu bryd hynny. Fodd bynnag, ni chytunwyd hyd yn hyn ar Goncordat allweddol ar fasnach sydd i ffurfioli'r ffordd y gall y llywodraethau datganoledig eu hunain gymryd rhan yn y trafodaethau. Yn 2020, **mynegodd pwyllgor yn y Senedd** ei bryder ynghylch yr oedi o ran cwblhau'r trefniadau hyn.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnig ffyrdd newydd o weithio i bedair llywodraeth y DU ar gyfer dros 20 o feysydd polisi (gan gynnwys pysgodfeydd, bwyd a'r amgylchedd) o dan ei rhaglen Fframweithiau Cyffredin newydd. Yn rhannol, nod y rhaglen yw sicrhau bod y pedair gwlad yn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU a chynnig ar yr un pryd gyfleoedd newydd i'r llywodraethau datganoledig gymryd rhan yng ngweithgareddau rhyngwladol y DU, megis cynrychiolaeth mewn cyrff rhyngwladol.

## Sut y gall gwaith craffu'r Chweched Senedd ar faterion rhyngwladol y DU fod o fudd i Gymru?

Heb os, fe newidiodd ymagwedd y Senedd tuag at faterion rhyngwladol yn ystod y Bumed Senedd. Yn y Bumed Senedd, datblygodd y Pwyllgor MADY **broses graffu bwrpasol** ar gyfer cytundebau rhyngwladol. Craffodd y Pwyllgor ar fwy na 100 o gytundebau masnach a chytundebau nad ydynt yn ymwneud â masnach. Cymerodd gamau trwy adrodd ar gytundebau sylweddol, ac fe ymgysylltodd hefyd â Llywodraeth Cymru a phwyllgorau perthnasol mewn seneddau eraill yn y DU ar faterion sydd o ddiddordeb i Gymru.

**Enghreifftiau o waith craffu ar gytundebau rhyngwladol gan y Pwyllgor MADY yn y Bumed Senedd:**

**Cytundebau masnach**: parhad cytundebau masnach yr UE gan gynnwys gyda Chanada, De Corea a Singapôr, yn ogystal â chytundebau newydd yn y dyfodol sy'n cael eu trafod, megis cytundeb masnach posibl rhwng y DU a'r Unol Daleithiau.

**Cytundebau nad ydynt yn ymwneud â masnach**: hawliau dinasyddion; etholiadau a phleidleisio; pysgodfeydd; porthladdoedd; trafnidiaeth awyr, ffyrdd a rheilffyrdd; nawdd cymdeithasol; gwyddoniaeth ac ymchwil; cydweithredu barnwrol; cynhyrchu ffilmiau; a'r gofod.

Bydd gwaith craffu gofalus yn golygu y gall y Chweched Senedd wneud gwahaniaeth i wella gwerth cytundebau rhyngwladol i Gymru. Er enghraifft, trwy roi llais i fuddiannau Cymru mewn sefyllfaoedd lle mae rhwystrau posibl i fasnach a chyfleoedd i wella yn cael eu nodi.

## Sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o gyfleoedd newydd mewn materion rhyngwladol?

O'i chymharu â'r Senedd flaenorol, bydd y Chweched Senedd a Llywodraeth Cymru newydd yn gweithredu mewn cyd-destun rhyngwladol a fydd wedi newid yn sylweddol, a hynny o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE ac effaith economaidd COVID-19. Gyda hyn o gefndir, y cytundebau rhyngwladol newydd a'r ffaith bod cysylltiadau rhyngwladol y DU yn esblygu, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw am ddefnyddio ei phwerau datganoledig a'i dylanwad, ac os felly sut, er mwyn hybu Cymru a busnesau Cymru yn rhyngwladol.

Yn ei **strategaeth ryngwladol**, nododd Llywodraeth Cymru flaenorol ei huchelgais i godi proffil a dylanwad Cymru yn y byd, yn ogystal â thyfu economi Cymru trwy gynyddu allforion a mewnfuddsoddi. Bwriad Llywodraeth Cymru yw i'w rhwydwaith o 21 **swyddfa ryngwladol** chwarae rhan bwysig wrth hybu Cymru yn rhyngwladol.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan gytundebau rhyngwladol newydd y DU a'r newid yn y cyd-destun rhyngwladol, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru newydd ail-ystyried ei phresenoldeb rhyngwladol, lleoliad y presenoldeb hwnnw, sut mae ei pherthynas â chyrff ac adrannau Llywodraeth y DU yn gweithio, a ffocws unrhyw strategaeth.

## Pennod ryngwladol newydd i Gymru?

Bydd y ffordd y mae buddiannau Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y dirwedd ryngwladol newydd yn fater o bwys yn y Chweched Senedd.

Bydd ymrwymiadau rhyngwladol newydd mewn meysydd datganoledig pwysig. Bydd angen i Aelodau o'r Senedd newydd ddeall beth y mae'r rhain yn ei olygu i Gymru a'u hetholwyr.

**Dywedodd Llywodraeth Cymru** flaenorol fod ymadawiad y DU â'r UE ac effaith economaidd COVID-19 yn golygu ei bod yn hanfodol i Gymru godi ei phroffil rhyngwladol. Bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru benderfynu a yw'n rhannu'r farn hon ac, os felly, sut y bydd yn cyflawni unrhyw uchelgeisiau rhyngwladol.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru **Strategaeth Ryngwladol i Gymru (2020)**
- Llywodraeth Cymru **Polisi Masnach Ryngwladol**
- Cytundebau Rhyngwladol: **Cytundebau a ystyriwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**
- Llywodraeth y DU **Cytundebau Masnach y DU**
- Llywodraeth y DU **Fframweithiau Cyffredin**
- UK Parliament **Treaty Tracker**

# Cyfeirlyfr o arbenigwyr ymchwil

- Materion allanol a chyfansoddiadol
- Economi, cymunedau a llywodraeth leol
- Addysg a dysgu gydol oes
- Yr amgylchedd a thrafnidiaeth
- Uned Craffu Ariannol
- Polisi iechyd a chymdeithasol
- Llyfrgell



### Pennaeth Ymchwil y Senedd

**Kathryn Potter**
0300 200 **6587**
**Kathryn.Potter@Senedd.Cymru**

### Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth ac Ymgysylltu

**Hannah Johnson**
0300 200 **6297**
**Hannah.Johnson@Senedd.Cymru**

## Materion allanol a chyfansoddiadol

Yn rhoi cyngor arbenigol ar y Senedd; datganoli; cyfansoddiad y DU; deddfwriaeth; etholiadau; materion Ewropeaidd; materion rhyngwladol; masnach ryngwladol; mewnfudo; cydraddoldebau a hawliau dynol.

### Cynghorydd Ewropeaidd ac Arweinydd y Tîm Ymchwil

**Nia Moss**
0300 200 **6313**
**Nia.Moss@Senedd.Cymru**

**Materion Ewropeaidd; materion rhyngwladol; cyfansoddiad; y Senedd a chydraddoldebau**

### Uwch-swyddog Ymchwil

**Rhun Davies**
0300 200 **6259**
**Rhun.Davies@Senedd.Cymru**

**Materion Ewropeaidd; materion rhyngwladol; a masnach**

**Gruffydd Owen**
0300 200 **7270**
**Gruffydd.Owen@Senedd.Cymru**

**Cyfansoddiad; Senedd ac etholiadau; deddfwriaeth; cyfiawnder a hawliau dynol**

Siaradwr Cymraeg | E-bost | Rhif ffôn

### Swyddog Ymchwil Uwch

**Sara Moran**
0300 200 **6472**
**Sara.Moran2@Senedd.Cymru**

**Materion Ewropeaidd; materion rhyngwladol a mewnfudo**

**Lucy Valsamidis**
0300 200 **7571**
**Lucy.Valsamidis@Senedd.Cymru**

**Cyfansoddiad; Llywodraethiant y DU; deddfwriaeth a chyfiawnder**

### Cynorthwydd Ymchwil

**Nigel Barwise**
0300 200 **6315**
**Nigel.Barwise@Senedd.Cymru**

**Cymorth ymchwil; ymholiadau; a gweinyddiaeth**

## Economi, cymunedau a llywodraeth leol

Yn rhoi cyngor arbenigol ar yr economi; llywodraeth leol; tai; cyfiawnder cymdeithasol; lles; cyfleoedd cyfartal; y sector gwirfoddol; diwylliant; amgueddfeydd a llyfrgelloedd; y Gymraeg; gwasanaethau cyhoeddus; adfywio; a masnach.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

**Ben Stokes**
0300 200 **6294**
**Ben.Stokes@Senedd.Cymru**

**Busnes; datblygu economaidd; a thwristiaeth**

**Jonathan Baxter**
0300 200 **6295**
**Jonathan.Baxter@Senedd.Cymru**

**Tai; cymunedau; y sector gwirfoddol**

| | |
|---|---|
| **Robin Wilkinson**<br>0300 200 **6298**<br>Robin.Wilkinson@Senedd.Cymru | Diwylliant; treftadaeth; y cyfryngau; a cyfathrebu |

| | |
|---|---|
| **Osian Bowyer**<br>0300 200 **6296**<br>Osian.Bowyer@Senedd.Cymru | Llywodraeth Leol a'r Gymraeg |

| | |
|---|---|
| **Gareth Thomas**<br>0300 200 **6307**<br>GarethDavid.Thomas@Senedd.Cymru | Yr economi; tlodi a chyflogaeth |

# Addysg a dysgu gydol oes

Yn rhoi cyngor arbenigol ar bob agwedd ar addysg a dysgu gydol oes, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch. Cymorth ar bolisiau wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc ac sy'n effeithio arnynt.

## Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Siân Thomas**<br>0300 200 **6291**<br>Siân.Thomas@Senedd.Cymru | Plant a phobl ifanc; a'r blynyddoedd cynnar |

## Uwch-swyddog Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Michael Dauncey**<br>0300 200 **6293**<br>Michael.Dauncey@Senedd.Cymru | Addysg cyn-16 ac ysgolion |

| | |
|---|---|
| **Phil Boshier**<br>0300 200 **7301**<br>**Phil.Boshier@Senedd.Cymru** | **Addysg Uwch; addysg bellach; dysgu gydol oes a sgiliau** |

## Swyddog Ymchwil Uwch

| | |
|---|---|
| **Siân Hughes**<br>0300 200 **6292**<br>**Siân.Hughes@Senedd.Cymru** | **Addysg cyn-16 ac ysgolion** |

| | |
|---|---|
| **Lucy Morgan**<br>0300 200 **7373**<br>**Lucy.Morgan@Senedd.Cymru** | **Cydgysylltydd ymchwil draws-bolisi a Covid-19** |

# Yr amgylchedd a thrafnidiaeth

Yn rhoi cyngor arbenigol ar drafnidiaeth; ynni; polisi dŵr; newid hinsawdd; yr amgylchedd; datblygu cynaliadwy; cynllunio; amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth; materion morol a physgodfeydd; a lles anifeiliaid.

## Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Andrew Minnis**<br>0300 200 **6314**<br>**Andrew.Minnis@Senedd.Cymru** | **Trafnidiaeth; strategaeth drafnidiaeth; trafnidiaeth gyhoeddus; trafnidiaeth awyr; porthladdoedd a thrafnidiaeth forol; priffyrdd; diogelwch ar y ffyrdd; a theithio llesol** |

## Uwch-swyddog Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Chloe Corbyn**<br>0300 200 **6316**<br>**Chloe.Corbyn@Senedd.Cymru** | **Gwastraff; ynni; datgarboneiddio a newid hinsawdd; datblygu cynaliadwy; ansawdd aer; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** |

| | |
|---|---|
| **Elfyn Henderson**<br>0300 200 **6317**<br>**Elfyn.Henderson@Senedd.Cymru** | **Cynllunio defnydd tir, rheoliadau a rheoli adeiladu; coedwigaeth; ansawdd a chyflenwad dŵr; carthffosydd; llifogydd ac erydu arfordirol; a bwyd a diod** |

| | |
|---|---|
| **Katy Orford**<br>0300 200 **7174**<br>**Katy.Orford@Senedd.Cymru** | **Amaethyddiaeth; cadwraeth natur; iechyd a lles anifeiliaid; tirweddau dynodedig a mynediad** |

### Swyddog Ymchwil Uwch

| | |
|---|---|
| **Francesca Howorth**<br>0300 200 **7356**<br>**Francesca.Howorth@Senedd.Cymru** | **Trafnidiaeth; cynllunio; ac ansawdd aer** |

| | |
|---|---|
| **Lorna Scurlock**<br>0300 200 **6574**<br>**Lorna.Scurlock@Senedd.Cymru** | **Materion morol a physgodfeydd; ansawdd a chtflenwad dŵr; carthffosydd; llifogydd ac erydu arfordirol** |

## Uned Craffu Ariannol

Yn rhoi cyngor arbenigol ar gyllid Cymru; trethiant; benthyca; cyllidebau a chyfrifon; datganoli cyllidol; cyllid llywodraeth leol; ac ystadegau cyffredinol, gan gynnwys dulliau a ffynonellau.

### Arweinydd y Tîm Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Martin Jennings**<br>0300 200 **6306**<br>**Martin.Jennings@Senedd.Cymru** | **Cyllid a chraffu ar y gyllideb** |

## Uwch-swyddog Ymchwil

**Helen Jones**
0300 200 **6309**
Helen.Jones@Senedd.Cymru

Craffu ar ddeddfwriaeth; cyllid addysg; ystadegau; arolygon a mapio

**Owen Holzinger**
0300 200 **7463**
Owen.Holzinger@Senedd.Cymru

Craffu ar gostau deddfwriaeth; a chyllid llywodraeth leol

**Joanne McCarthy**
0300 200 **7179**
Joanne.McCarthy@Senedd.Cymru

Gwerth am arian; craffu ar gyfrifon a dadansoddiad ariannol

**Christian Tipples**
0300 200 **7393**
Christian.Tipples@Senedd.Cymru

Trethiant a chyllid datganoledig

## Swyddog Ymchwil Uwch

**Owain Davies**
0300 200 **7096**
Owain.Davies@Senedd.Cymru

Cyllid ac ystadegau cyffredinol, gan gynnwys ardrethi busnes

## Dadansoddwr Data a Ystadegau

**Joe Wilkes**
0300 200 **7196**
Joe.Wilkes@Senedd.Cymru

Gwyddir data; delweddu a dadansoddiad ystadegol

# Polisi iechyd a chymdeithasol

Yn rhoi cyngor arbenigol ar bolisi iechyd a gwasanaethau iechyd; gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol; trais domestig; nawdd cymdeithasol; iechyd a llesiant plant; pobl hŷn; chwaraeon a hamdden; a diogelwch cymunedol.

## Arweinydd y Tîm Ymchwil

**Sarah Hatherley**

0300 200 **6318**

Sarah.Hatherley@Senedd.Cymru

**Polisi iechyd a gofal cymdeithasol**

## Uwch-swyddog Ymchwil

**Philippa Watkins**

0300 200 **6306**

Philippa.Watkins@Senedd.Cymru

**Iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc**

**Amy Clifton**

0300 200 **6322**

Amy.Clifton@Senedd.Cymru

**Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion**

**Paul Worthington**

0300 200 **6515**

Paul.Worthington@Senedd.Cymru

**Polisi iechyd, gan gynnwys cyllid iechyd a gofal cymdeithasol**

## Swyddog Ymchwil Uwch

**Rebekah James**

0300 200 **6321**

Rebekah.James@Senedd.Cymru

**Polisi iechyd a gwasanaethau gofal sylfaenol**

# Llyfrgell

Yn cynnig gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddiadau swyddogol, papurau newydd, cyfnodolion, e-adnoddau a gwasanaethau monitro.

## Pennaeth y Llyfrgell

| | |
|---|---|
| **Stephanie Wilson**<br>0300 200 **6299**<br>**Stephanie.Wilson@Senedd.Cymru** | **Rheoli'r llyfrgell; y broses gynefino a hyfforddiant** |

## Rheolwr Gwasanaethau i Ddarllenwyr

| | |
|---|---|
| **Delyth Thomas**<br>0300 200 **6326**<br>**Delyth.Thomas@Senedd.Cymru** | **Gwasanaethau i ddarllenwyr; Advisernet; trafodion y Senedd a San Steffan** |

## Llyfrgellydd Ymchwil

| | |
|---|---|
| **Gareth England**<br>0300 200 **6588**<br>**Gareth.England@Senedd.Cymru** | **Catalog y llyfrgell; llyfryddiaeth y Senedd; a dtSearch** |

## Llyfrgellydd Cyfreithiol

| | |
|---|---|
| **Matthew Davies**<br>0300 200 **7549**<br>**Matthew.Davies@Senedd.Cymru** | **Adnoddau cyfreithiol; e-adnoddau; Newsstream; cyfnodolion, Busnes San Steffan; a gwybodaeth cwmni** |

## Arbenigwr Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Sian Davies**<br>0300 200 **6325**<br>**Sian.Davies@Senedd.Cymru** | **Archebu llyfrau; benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ; Grantfinder; ffynonellau ariannu; a'r cyfryngau cymdeithasol** |

## Cynghorwr Cysylltiadau Cwsmeriaid

| | |
|---|---|
| **Emma Manning**<br>0300 200 **6327**<br>**Emma.Manning@Senedd.Cymru** | **Gwasanaeth cwsmeriad; ymholiadau, benthyg llyfrau; adnewyddu; papurau newydd; a'r cyfryngau cymdeithasol** |

## Rheolwr Systemau a Chyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Tom Douch**<br>0300 200 **6323**<br>**Thomas.Douch@Senedd.Cymru** | **Cyhoeddi gwaith ymchwil; datblygu'r rhyngrwyd a'r fewnrwyd; a'r cyfryngau cymdeithasol** |

## Swyddog Cyhoeddi

| | |
|---|---|
| **Alana MacAskill**<br>0300 200 **6140**<br>**Alana.MacAskill@Senedd.Cymru** | **Cyhoeddi gwaith ymchwil; datblygu'r rhyngrwyd a'r fewnrwyd; a'r cyfryngau cymdeithasol** |

